

ECO'R WYDDFA

Rhif 78

Chwefror 1983

Pris 20c

Canmlwyddiant Eglwys Santes Helen, Penisarwaun

Y Parchefig Aled Edwards B.A., Ficer Penisarwaun.



Eleni, bydd Eglwyswyr Penisa'rwaun yn llawenhau yng ngŵyl canmlwyddiant ein haddoldy. Cynhelir nifer o weithgareddau yn ystod y flwyddyn a chyhoeddir y manylion am y digwyddiadau maes o law. Dechreuir y llawenhau yn y Cymun Teuluol am 10.30 ar fore dydd Sul Chwefror 13, ar yr achlysur pwysig hwn yn ein hanes byddwn yn cofio gosodiad carreg sylfaen yr Eglwys. Ein gŵr gwadd yn y Cymun Teuluol fydd y Tra Pharchedig J. Ivor Rees, Deon Bangor. Sicrhier croeso cynnes i'r ardalwyr sydd yn bwriadu bod yn bresennol yn y gwasanaeth.

Ar brynhawn dydd Mawrth y 13eg o Chwefror, 1883, gosodwyd carreg sylfaen yr Eglwys gan Mr Assheton-Smith a'r foneddiges leol, Mrs Trefor Hughes. Hyn a ddywed David Lewis am yr achlysur yn ei draethawd ar hanes cynnar yr Eglwys:

"Daeth cynulliad eithriadol o luosog ynghyd er gwaethaf gerwinder yr hin. Amlwg fod yr achlysur arbennig hwn wedi cynhyrchu diddordeb neilltuol ymhlith trigolion Penisa'rwaun a'r ardaloedd cylchynol. Am hanner awr wedi dau yn y prynhawn cafwyd gwasanaeth yn yr Ysgoldy gerllaw lle mae'r achos Eglwysig yn cael ei gario ymlaen ar hyn o bryd. Llafarganwyd y Litani gan y Parch W. Edwards, Llanberis. Yr oedd y gwasanaeth drwyddo yn wasanaeth corawl; ac am y canu - yr hwn a oedd dan arweiniad medrus a meistrolgar Mr Owen J. Morris - yr oedd yn gyfryw ac a fuasai yn creu syndod i rai a berthynent i Eglwysi mwy eu maint - o'i clywed. Cyfeilwyd gan Miss E.J. Morris, yr hon - ynghyd â'i thad - Mr W. Morris, King Arthur, a fu yn gynhorthwy mawr i'r Eglwys o'i chychwyn. Ar ôl y gwasanaeth, gorymdeithiwyd tua'r man lle yr adeiladwyd yr Eglwys - cantorion yn blaenori, yna'r clerigwyr yn eu hamwisg, a'r dorf yn dilyn. Cyn gynted ac y trefnwyd y darpariadau, siriolodd y tywydd, a gwnaeth Mr Assheton-Smith, y Faenol, ynghyd â Mrs Trefor Hughes, Glasgoed - y rhai a ddewiswyd i osod y meini sylfaen - eu hymddangosiad, ac aed ymlaen yn ddiymdroi gyda'r seremoni. Rhoddwyd emyn allan i'w ganu gan y Parch R. Jones, B.A., curad llafurus y lle." Yn sicr, ni cheir yr un enaid ym Mhenisa'rwaun sy'n cofio'r achlysur

hwn, ond tybiaf fod un neu ddau yn cofio ychydig am y cymeriadau a enwir. Cyhoeddir llawlyfr y canmlwyddiant yn y dyfodol agos ac fe geir yno nifer o hanesion cyffelyb. Gofalwch eich bod yn cael copi o'r Llawlyfr Canmlwyddiant.

Rhoddir yr argraff yn yr adroddiad uchod mai uchelwyr yr ardal oedd yn

(Parhad Tud. 18)

AM BRYNU FESTRI GORFFWYSFA

Mae Pwyllgor Carnifal Llanberis yn bwriadu prynu Festri Capel Gorffwysfa gan drosglwyddo'r adeilad wedyn i bwyllgor Canolfan Llanberis.

Eisoes cafwyd trafodaethau rhwng Pwyllgor y Carnifal, blaenoriaid Capel Coch a Phwyllgor y Capel. Deallwn fod mwyafrif o blaid y cynllun ar yr amod ei fod yn cael ei ddefnyddio fel canolfan i fudiadau megis yr Ysgol Feithrin; yr Henoed; yr Urdd a'r Cwmni Drama yn y pentref.

Mae Mr Ken Jones, Maes Padarn, Cadeirydd y Pwyllgor Carnifal wedi bod mewn cysylltiad â'r mudiadau a sefydliadau hyn yn barod i sicrhau eu cefnogaeth. Bydd y Festri yn Ganolfan bwysig newydd sbon o fewn y pentref. Ni fydd angen newid ei chymeriad o gwbl. Peth da yw gweld adeiladau fel y Festri yn cael eu defnyddio o'r newydd er budd a lles y pentref.

DIWEDD SULYN

Yn ddisymwth, tua wythnos cyn i'r rhifyn hwn o'r Eco ymddangos, daeth tymor Sulyn, y papur dydd Sul Cymraeg cyntaf, i ben - a hynny ar ôl tri mis yn unig o'i gyhoeddi.

Yn ôl llafarydd ar ran Sulyn, y prif reswm am hyn yw datganiad mewn llythyr gan y wasg, sef 'Welshpool Web Offset', y Trallwng - nad yw'r papur "yn talu" a'u bod yn dymuno rhoi'r gorau i'w argraffu. Yn unol â'r cytundeb gwreiddol roeddynt yn barod i'w argraffu am dri mis arall - sef hyd at ddiwedd Ebrill.

Ar ôl chwilio'n daer ond yn ofer am wasg arall gyffelyb i un y Trallwng, sy'n addas ar gyfer anghenion arbennig cynhyrchu papur newydd, penderfynodd gweithwyr Sulyn roi'r ffidil yn y to. Ffactor arall a ddylanwadodd ar y penderfyniad hwn oedd fod yr arian cychwynnol "wedi sychu". Roeddynt yn colli £1,500 y rhifyn ar

y dechrau.

Yn eironig braidd, digwyddodd hyn i gyd ar adeg pan oedd argoelion fod pethau'n dechrau gwella'n ariannol. Roedd hysbysebwy, er enghraifft, yn rhoi llawer mwy o gefnogaeth, ac roedd y cylchrediad yn gwella. Roedd Sulyn hefyd mewn trafodaethau "optimistaidd" â'r Swyddfa Gymreig ynglŷn â benthyciad i gydbwysu'r colledion cynnar.

Testun tristwch yw'r ffaith fod breuddwyd 12 o weithwyr ieuainc a aberthodd gymaint er mwyn Sulyn wedi ei chwalu mor gyflym a chreulon. Ychwanegir eu henwau, rwan, at restr y di-waith.

TREFNU A RHEOLI'R ARDDANGOSFA SNWCER



Mae rhywbeth reit gyfarwydd yn wynebau'r ddau 'na o bobtu Mr Bill Williams o Ddeiniolen on'd oes? Nag oes? Wel mi eglurwn ni. Terry Griffiths ydi un, a Cliff Wilson ydi'r llall - ac mae'r ddau yn medru chwarae tipyn o snwcer.

Tynnwyd y llun yn Neuadd Chwaraeon newydd Amlwch, Môn ar Ionawr 3. Bill Williams fu'n bennaf gyfrifol am gael y ddau "enw mawr" o'r byd snwcer i chwarae'r gêm arddangos fel rhan o ddathliadau Clwb Snwcer Amlwch yn hanner cant oed. Ymhyfryda Mr Williams, sydd yn ddyfarnwr snwcer o'r radd flaenaf ac yn un sy'n adnabod yn dda chwaraewyr gorau'r gêm, iddo lwyddo i ddenu Terry Griffiths i Amlwch am tua £400 yn rhatach na'i ffi arferol. Deallwn fod y cyn-bencampwr byd yn codi £1,250 fel arfer am noson o'r fath. Beth bynnag, Wilson aeth â hi ar y noson, 5 ffrâm i 3, mewn gêm ddi-sbarc. Efallai fod meddwl Griffiths ar y ddau dwrnameint mawr sef y Lada a'r Meistri (Benson & Hedges) yn ystod Ionawr. Gwyddom erbyn hyn mai profiadau siomedig iddo oedd y rheini hefyd.

(Llun: Sion Milner drwy garedigrwydd Sulyn)

GWTHIO I'R BRIG AM £1,000



Dyna fu hanes y criw dewr a welir yn y llun. Tynnwyd y llun yn gynnar ar fore Sadwrn yn nechrau Ionawr ychydig funudau cyn iddynt gychwyn ar y dasg o wthio gwely i frig yr Wyddfa! Roedd yr 16 gwthiwr wedi ei noddi er budd Apêl 'Blue Peter' i brynu peiriannau arenau. Gweithwyr ambiwlans gorsaf Bangor ydynt i gyd ac mae rhai yn aelodau o dîm achub Llanberis. Dymuna'r trefnwyr ddiolch i bob un a gyfrannodd er sicrhau llwyddiant ac i bobl bro'r Eco am eu haelioni a'u caredigrwydd. Diolchant hefyd i Faer Arfon, y Cynghorydd Francis Jones am godi mor gynnar i'w cychwyn ar daith ac hefyd i gi bach Mr Cledwyn Jones am gerdded bob cam gyda nhw!

ECO'R WYDDFA

RHIF 78
CHWEFROR 1983

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION

CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd
Whiteside Tomas, Bron y Nant,
Pontrhyallt, Llanrug (C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliot, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisarwaun (Llanberis 872438)

TREFNYDD NEWYDDION

YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (870515)

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis
(871561)

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant, (Waunfawr 321)
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug
Islwyn L. Jones, Y Garn, Bryn
Moelyn, Llanrug. (C'fon 5874)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon
3227)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(Portdinorwic 670726).

BETWS GARMON: Mrs Brenda
Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gwledfa
(Llanberis 871223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO:

DEINIOLLEN: Mrs Nancy Rowlands,
12 Pentre Helen (Llanberis 870267)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 870671)

LLANBERIS: Mrs Siân Thomas, Tŷ'r
Ysgol (Llanberis 870220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel
LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce,
Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Mrs Mary Davies, 9
Llys y Gwynt, (Llanberis 872329)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)

TREFNYDD PLYGU: Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf
o'r wasg

MAWRTH 3

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS FAWRTH

CHWEFROR 22

os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

CLOD I'R IEUANC

Annwyl Syr,

Y mae gennym fferm yn
Llanrug a charwn adael i chwi
wybod hanesyn a ddigwyddodd
tra gyda'r cynhaeaf gwair. Roedd
tri o lanciau o Station Road
Llanrug yn gwersylla dros y
terfyn a phan aeth y mab a finnau
i ddechrau cario'r gwair (bales)
daeth y tri atom gan weithio a
helpu i gario yr hyn oedd
gennym. Mae digon o ladd ar
bobl ifanc heddiw ond fe
arbedwyd llawer arnaf fi y
diwrnod hwnnw, diolch iddynt.
Gobeithio y bydd y lanciau yn
gweld hyn o ddiolch iddynt am
eu cymwynas. Diolch yn fawr
iawn.

Yn gywir,
Mrs J. Jones,
Penrhyn Mawr,
Arennig,
Y Bala.

ATGOFION AM Y FRO

Annwyl Syr,

Gair unwaith eto i ddiolch am
eich Papur rhagorol. Diolch i barwb
a wnaeth gyfrannu at gadw Pont
Pen-y-llyn yn agored. Da gweled
nad ydych wedi colli'r ysbryd wrth
sefyll y biwrocrataid. Darllen am
Côr Martin; wrth gwrs, ifanc iawn
oeddwn yr adeg hynny. A dyma
enw y diweddar Griffith Thomas,
Y Fachwen yn dod i'm golwg.
Dyma ddyn a roddodd dros 30 o
flynyddoedd fel Côrfeistr yn yr
Eglwys Bach (St Mair). Cyfaill
oedd â dylanwad mawr arnom ni
blant y Fachwen. Hefyd ei wraig y
ddiweddar S.J. Thomas, a'r ddwy
ferch, Elzie ac Olwen. Roedd eu
drws yn agored bob amser ac yn
enwedig ar nos Sul i ganu a chanu'r
organ. Nid oes Bron-y-graig
bellach i ni. I ddiweddu, ateb i
lythyr Hugh Thomas. Drwg gennyf
ddweud mai'r ateb i'w gwestiwn a'r
rheswm pam nad ydym yn dod yn ôl
ar hyn o bryd beth bynnag, yw, yr
un un â'r gorfododd i adael yr
ardal, sef gwaith. A'r peryg ydyw
y byddwn, fel y soniodd R.
Williams Parry yn ei benillion i
Hedd Wyn,

Troedio wnest ei rhedyn hi
Hunaist ymhell ohoni.

Diolch am y sicrwydd eich
bod chwi yn gweithio'n galed, ac
efallai, pwy â wyr, y medrwn
ddod yn ôl i'ch helpu.

Yn gywir a hiraethus,
Wilfred (Fachwen gynt)
23 Woking Road,
Parkstone,
Poole,
Dorset.

CEFNOGI EILIAN WYN

Annwyl Olygydd,

Carwn gael anfon gair byr i'r
Eco, oherwydd y mwyniant
mawr ydym fel teulu yn ei gael
wrth wyllo rhai dramâu ar S4C, a
gweld a chlywed Eilian Wyn yn
actio mor ardderchog ynddynt.

Cofiw ei eni, yn un o wyth o
blant yn Ninorwig, yr wyth yn

barchus iawn. Er bod hen
ddywediad yn bod — na chaiff
proffwyd barch neu anrhydedd
yn ei wlad ei hun — dyma Eilian
wedi llwyddo a datblygu yn actor
ardderchog. Teimlwn yn falch o'i
adnabod, am wneud gwaith mor
ganmoladwy.

Dalier ati, edrychwn ymlaen
am ei glywed a'i weld bob
wythnos.

Yn gywir,
Gwen Lloyd Roberts,
a'r teulu,
(Blue Peris gynt)
Awel y Mynydd,
Deiniolen.

GWYLIAU AR YNYS ENLLI

Annwyl ddarllenwyr,

Efallai nad ydyw ambell un
ohonoch yn gyfarwydd â hanes
Ynys Enlli yn ystod y blynyddoedd
diwethaf. Ffurfiwyd
Ymddiriedolaeth Ynys Enlli Cyf.
ym 1978 gan grŵp o bobl
brwdfrydig a oedd eisoes â
diddordeb yn yr ynys i geisio codi'r
arian angenrheidiol i brynu'r ynys,
a lansiwyd apêl genedlaethol. Bu
hon yn llwyddiant mawr, a
phrynwyd yr ynys ym mis Mawrth,
1979.

Mae'r ynys yn filltir a
thri-chwarter o hyd, a thri-chwarter
milltir o led, ac mae deuddeg o
ffermdai yno. Mynydd Enlli a
welwn o'r tir mawr, ond y tu ôl iddo
mae llawer o dir ffrwythlon,
gwastad, a bu'r ynys ar un cyfnod
yn cynnal dros gant ac ugain o bobl,
er mai dim ond un ffermwr a'i
wraig sydd yno'n awr. Os oes
diddordeb gennych mewn natur,
mae'n le delfrydol, gydag adar-môr
yn nythu ar y creigiau a llawer math
o flodau gwyllt; ac os mai hanes yw
eich diddordeb arbennig, mae
llawer i'w weld yno, gan gynnwys
adfeilion Abaty'r Santes Fair sydd
yn dyddio o'r
drydedd-ganrif-ar-ddeg.

Erbyn eleni mae bron pob un o
dai'r ynys wedi eu hadnewyddu, ac
mae pedwar ohonynt yn cael eu
gosod i unrhyw un sydd yn dymuno
aros yno, dau fel hostel, yn bennaf
ar gyfer unigolion neu ddeuoedd a
lle i chwech ym mhob un, a dau i
deuluoedd neu grwpiau hyd at
chwech o bobl.

Yn ogystal, os ydych yn dal yn
yr ysgol, yn fyfyrwr llawn-amser,
neu allan o waith, cerwch ddod i
weithio'n wirfoddol yn ystod yr haf,
ac aros yn rhad ac am ddim.

Os hoffech gael mwy o
fanylion ynglŷn â'r ynys ei hun, neu
ynglŷn â sut i fynd ati i drefnu
arhosiad ar yr ynys, anfonwch
amlen a stamp, os gwelwch yn dda,
i mi.

Gyda diolch,
Haf M. Williams,
Ysgrifenyddes Llety,
Ymddiriedolaeth Ynys Enlli,
Stabl Hen,
Tyddyn Du,
Cricieth.

COFEB LLYWELYN

Ar ran y Cyngor Sir, hottiwn
ddiolch i bobl Caernarfon a'r cylch
am eu cefnogaeth aruthrol i'r
seremoni ddydd Sadwrn, Rhagfyr
11, pan gyflwynwyd cofeb Llywelyn
i'r genedl. Rhaid diolch hefyd i
Fwrdeistref Frenhinol Caernarfon,
i'r pum Cyngor Bwrdeistref a
Dosbarth yng Ngwynedd, i Gyngor
Sir Clwyd ac i Gyngor Sir Dyfed — y
rhain oll yn cael eu cynrychioli yn y
seremoni gan eu Meiri neu eu
Cadeiryddion. Efallai mai nodwedd
mwyaf trawiadol y prynhawn oedd
gweld Miss Beata Brookes, A.S.E.,
a Mr. Keith Best, A.S., yn
gorymdeithio i dalu gwrogaeth i
Lywelyn ochr yn ochr â Mr. Dafydd
Elis Thomas, A.S., Mrs Elinor
Wigley, a llu o arweinwyr
llywodraeth leol o Wynedd, o bob
plaid wleidyddol ac o bob ardal.
Mae ein dyled yn fawr iawn hefyd i
Fand Arian Llanrug, band y gall
Gwynedd fod yn falch ohono.
Anrhydeddwyd y Cyngor hefyd gan
bresenoldeb y prif siaradwr, yr
Athro Glanmor Williams, prif
hanesydd Cymru, Ei Anrhydedd y
Barnwr Dewi Watcyn Powell,
Caerdydd Cymdeithas
Anrhydeddus y Cymrodorion, yr
Athro Bedwyr Lewis Jones,
Cadeirydd Cyngor yr Eisteddfod
Genedlaethol ac Archdderwydd
Cymru, Mr Jams Niclas.
Chwaraewyd rhan hanfodol gan
Adran Hanes Cymru Coleg
Prifysgol Gogledd Cymru yn y
dathliadau ar hyd y flwyddyn hon, a
hoffwn egluro fod Pennaeth yr
Adran yr Athro J. Gwynn Williams,
wedi areithio yn Saesneg ar gais y
Cyngor Sir, a braidd yn erbyn ei
ddymuniad personol. Roedd
cyfieithu-ar-y-pryd ar gael yn
Theatr Seilo ond bwriad y
Cadeirydd oedd anelu un o'r
areithiau yn uniongyrchol at y rhai
di-Gymraeg yn y gynulleidfa.
Roedd y gynulleidfa yn cynrychioli
Gwynedd gyfan, ac yn cynnwys
amryw o gynghorwyr etholedig
di-Gymraeg. Deallaf fod rhai
aelodau o Barti Cymerau yn
anfodlon ynglŷn â hyn, ac mae'n
ddrwg gennyf nad eglurwyd wrthynt
ymlaen llaw fod 90 y cant o'r
gweithgareddau, a chymryd y tri
chymarad gyda'i gilydd, yn y
Gymraeg. Fodd bynnag, yr hyn sy'n
bwysig yw bod cofeb drawiadol a
theilwng i Lywelyn yn sefyll ym
mhrif dref Gwynedd, diolch i
ymdrechion yr Athro Dewi-Prys
Thomas, y Pensaer Ymgynghorol,
Mr. Glenn Hellman, y cerflunydd,
Mr. Merfyn Roberts, Pensaer y Sir,
a Mr. Gerald Osborne, Rheolwr
Cynllun Laing. Mae'n gwbl amlwg
bellach fod pobl Gwynedd yn
arddel dros 1,500 o flynyddoedd o
hanes gyda balchder. Yn ymyl y
gofeb hon, ni ellir gwadu fod Cymru
yn genedl. Mae'r gofeb, fodd
bynnag, yn symbol o ddyfodol yn
ogystal â gorffennol Gwynedd. Ei
sail yw llechfaen anferth, rhodd
caredig Chwarel y Penrhyn, ond
mewn aliwminiwm y gwnaethpwyd
yr eryr sy'n esgyn i'r awyr o'i frig.
Swyddog Hysbysrwydd
Cyngor Sir Gwynedd

AR WERTH

Beic 'Laser Sport' — mewn cyflwr da.
Addas i fachgen rhwng 7 a 10 oed.
Ffôn: Caernarfon 4839

I gofio Emlyn

Tristwch mawr i ardal Llanrug ac i lu o'i gyfeillion o bell ac agos oedd deall am farwolaeth Mr John Emlyn Jones, Parc Isaf, Llanrug fore Sul Ionawr 30ain ac yntau ond 53 mlwydd oed. Yr oedd yn enedigol o'i ardal, yn fab i William ac Elaenor Jones, Parc Isaf, ac yma y treuliodd ei holl ddyddiau, gan gyfoethogi yn ei ffordd dawel a boneddigaidd ei hun bob agwedd ddrychafol ar fywyd yr ardal. Cafodd ei addysg yn Ysgol Llanrug; wedi iddo adael yr ysgol aeth i weithio i Chwael Dinorwig lle bu yn uchel ei barch ymhlith ei gydweithwyr hyd nes y symudodd i weithio gyda chwmni Ferodo ar ôl i'r chwael gau. Ymegniodd fel llawer o feibion y graig i'w ddiwyllio ei hun trwy ddarllen yn eang a mynychu dosbarthiadau Addysg y Gweithwyr a'r Ysgol Sul yng Nghapel Pontrhythallt. Bu'n hynod o ffyddlon i Eglwys Pontrhythallt ar hyd ei oes o'i blentyndod a chafodd ei ethol yn flaenor yno. Ni chafodd yr un eglwys erioed well blaenor nag a gafodd eglwys Pontrhythallt ynddo ef. Rhoddodd ei orau i'w gapel i'r diwedd. Ef oedd Ysgrifennydd y Cyhoeddiadau ac ef hefyd oedd yn dal y swydd o Ysgrifennydd Cyngor

Eglwys Llanrug ers llawer blwyddyn. Bydd ei farw nid yn unig yn golled fawr i'r eglwys yr oedd yn aelod ohoni ond hefyd i holl eglwys i'r ardal ac i'r dystiolaeth Gristionogol yn ein plith. Ymddiddorai yn fawr ym mhroblemau mawr ein hoes, ac yr oedd ganddo argyhoeddiadau cryfion. Yr oedd yn aelod selog o Blaid Cymru ac yn heddychwr i'r carn.

Dair blynedd a hanner yn ôl gorfodwyd ef gan afiechyd blin i ymddeol o'i waith yn Ferodo. Brwydrodd yn ddewr yn erbyn y gelyn i'r diwedd. Yr oedd ei sirioldeb a'i ddewrder a'i ffydd ddiysgog yn yr Arglwydd Iesu Grist yn ysbrydiaeth i bawb a gafodd y fraint o ymweld ag ef yn ei gartref ac yn yr ysbyty yn ystod ei waeledd. Yr oedd Emlyn yn Gristion yng ngwir ystyr y gair. Yr oedd ei galon, er gwaethaf pob cystudd a ddaeth i'w ran, bob amser yn llawn o lawenydd yr Efengyl; ac nid oedd rithyn o hymbyg na rhagrith yn agos iddo. Mae byd ac eglwys yn llawer tlotach o'i golli. Cydymdeimla ardal gyfan â'i chwaer Miss Enid Jones, Johannesburg a'r oll o'r teulu yn eu colled fawr.

W.O.R.

YSGOL DDAWNS GYFOES LLUNDAIN I GYFWELD YNG NGOGLEDD CYMRU

Theatr Clwyd, Yr Wyddgrug 4 Mawrth 1983

Y mae Ysgol Ddawns Gyfoes Llundain, mewn cydweithrediad â Chyngor Celfyddydau Cymru a Theatr Clwyd, yn cynnal cyfweiliadau yn yr Wyddgrug ar gyfer efrydwyr yng Nghymru a Gogledd Orllewin Lloegr sy'n dymuno derbyn hyfforddiant proffesiynol llawn-amser mewn dawns gyfoes. Yr oedd y cyfweiliadau Cymreig cyntaf a gynhaliwyd gan yr Ysgol yng Nghaerdydd yn llwyddiannus dros ben ac o ganlyniad iddynt mae nifer o efrydwyr o Gymry bellach yn astudio yn Llundain, yn Ysgol Ddawns Gyfoes Llundain.

Cynhelir y cyfweiliadau yn Theatr Clwyd, Yr Wyddgrug ddydd Gwener 4 Mawrth 1983. Fe'i cynhelir gan Brifathro'r Ysgol, Dr Richard Ralph, ac aelodau staff hyn. Disgwylir i'r ymgeiswyr gymryd rhan mewn dosbarth dawns gyfoes a dosbarth ballet; byddant yn para awr yn un a bwriedir i ymgeiswyr cymharol ddibrosiad fedru ymuno ynddynt. Gofynnir i'r rheini a ddetholir o'r dosbarthiadau techneg rhagarweiniol


gymryd rhan mewn dosbarth coreograffi byr, a pherfformio unawd munud o hyd o'u gwaith eu hunain.

Ysgol Ddawns Gyfoes Llundain yw ysgol flaenllaw Ewrop yn y maes astudiaeth arbenigol hwn a hi oedd yr ysgol gyntaf yng ngwledydd Prydain i gychwyn cwrs gradd Anrhydedd Prifysgol ar gyfer efrydwyr Dawns Gyfoes proffesiynol. Aeth nifer o gyn-efrydwyr yr ysgol ymlaen i fod yn ddawnswyr a choreograffwyr gyda chwmnïau dawns blaenllaw gwledydd Prydain a rhai tramor.

Meddai Dr Richard Ralph am y cyfweiliadau Cymreig: 'Y llynedd, am y tro cyntaf, cynhaliodd yr Ysgol gyfweiliadau yng Nghymru a'r Alban er mwyn dod â'r hyfforddiant dawns proffesiynol yr ydym yn ei gynnig o fewn cyrraedd pobl ifanc ddawnus ledled gwledydd Prydain. O ganlyniad i'r ymateb brwd dros ben a fu, bwriadwn gynnal y cyfweiliadau hyn ar sail flynyddol o hyn ymlaen.'

TYSTYSGRIF ARBENNIG

Ysgrifennir yr hanesyn hwn 66 mlynedd yn union i'r dyddiad pan achubwyd bachgen deuddeg oed rhag boddi yn nyfroedd oer llyn Padarn gan ddau ŵr dewr o Lanberis.



Tystysgrif Thomas W. Rowlands sydd ym meddiant ei ferch Mrs Rees Evans Llanberis.

Chwefror 2, -diwrnod o aeaf caled yn y flwyddyn 1917 a bachgen ifanc o'r enw William Hughes yn mynd â llefrith i ysbty'r chwael. Penderfynodd y byddai'n arbed dipyn ar ei siwrnai wrth groesi ar hyd y rhew trwchus ar wyneb y llyn. Pan oedd o fewn rhai llathenni i'r lan, o dan safle'r ysbty, torrodd y rhew a suddodd i'r llyn.

Clywyd ei gri am help gan Thomas Rowlands a ddigwyddai fod yn yr hen iard lo wrth yr orsaf ar ochr y pentref o'r llyn. Roedd John Thomas

y groser hefyd wedi ei chlywed. Rhedodd y ddau i lan y llyn ac ar ôl sylwi bod rhywun yn y dŵr - dyma neidio i gwch. Gwaith anodd oedd symud a bu'n rhaid iddynt dorri'r rhew o gwmpas y cwch â'u dwylo.

Pan ddaethant at y bachgen yr oedd fel pe bai wedi rhoi'r gorau i'w ymdrechion i'w gadw ei hun yn fyw. Pan oedd ar fin diflannu o dan yr wyneb gafaelodd Thomas Rowlands ynddo ac fe lwyddwyd i'w dynnu i'r cwch yn anymwybodol.

Aethpwyd ag o, yn y cyflwr hwnnw i Padarn Villa (Padarn Lake heddiw) ac yno y bu am rai diwrnodau.

Adwaenid y bachgen pan dyfodd yn ddyn fel Wil Ianc - diweddar ŵr (erbyn hyn) Mrs Mary Hughes a thad Selwyn Buckley Hughes, Glyn Peris Cottage.

Ar Fawrth 13, 1917 derbyniodd y ddau ŵr dewr dystysgrif y Royal Humane Society o flaen eu cyd-bentrefwyr yn y neuadd.

Diolch i Mr Selwyn Hughes ac i Mrs Rees Evans (merch Thomas Rowlands) am ddod â'r stori i sylw'r Eco ac am gael benthg y dystysgrif.

Yng nghwmni Dafydd Iwan

Ar ôl bod yn cyflwyno 'Cerddwn Ymlaen' mae Dafydd Iwan yn hen law ar gyflwyno rhaglen, a dyma ni'n cael cyfle i'w weld yn gwneud yr un gwaith eto, yn raenus, ar raglen yn y gyfres 'Yng Nghwmni' gan Deledu'r Tir Glas. Y tro yma, Hefin Elis, Charli Britten a John Griffiths fydd yn cyfeilio iddo ar y piano, drymiau a bas yn hytrach na chriw Ar Log.

Criw nwydus o'r enw Bwchadanas o golegau Bangor yw gwsteion Dafydd ar y rhaglen, ac fe fyddant yn canu'r gân hynod gofiadwy honno 'Eryr Eryrod Eryri' a 'Robin Ddiog'. Recordiwyd y rhaglen yn ystod yr haf yn Theatr Ardudwy Harlech, a chawn weld y gynulleidfa yn mwynhau gwrando ar Dafydd Iwan yn morio adrodd 'Wili John'.

Darlledir y rhaglen nos Wener Mawrth 18 am 7.30 o'r gloch. Yn nes ymlaen yn y gyfres cawn weld Rosalind a Myrddin yn cyflwyno eu rhaglen eu hunain gyda Gwlith, y grŵp o ferched â'r lleisiau persain o Lanrug a Llanberis yn westeion iddynt.

CYSTADLEUAETH Y NADOLIG Newidiadurwyr

Y prif wahaniaethau rhwng y lluniau yn ein rhifyn diwethaf oedd:

1. Y tun diod wedi ei droi
2. Llai o ddiol mewn gwydr
3. Siswrn yn agored
4. Breichiau'r sbectol wedi'u hagar
5. Lliw gwahanol cysylltydd yr allwedd
6. Pensilau yn y gwydr wedi'u troi
7. Oriawr wedi ei symud
8. Un golygydd wedi symud ei fraich
9. Coler ei gryd y tu allan i'w siwmpwr
10. Yr Eco wedi ei droi
11. Tri swits y stof yn y golwg

Nododd nifer ohonoch lawer mwy o wahaniaethau manwl - rhai ohonynt heb fod yn gywir. Fel bob cystadleuaeth dda roedd hi'n agos iawn yn y diwedd. Yr enw a ddaeth allan o'r het oedd Bryn Parry Jones, 1 Bryn Heli, Llanrug - a welodd yr uchod i gyd, ynghyd â nifer eraill o wahaniaethau hollol gywir. Ein llongyfarchiadau i Bryn, mae'r £5 ar ei ffordd!

Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .



Gwesty'r Foelas

(Richard a Meirwen
Thomas)

Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652

Sauna
Gwely Haul
Wacsio
Slender
tone

SAUNAMDANI

Dydd Llun
Dydd Gwener
12.00-9.00pm

STRYD FAWR
BETHESDA
600140

**WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR**

E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394

LLANBERIS

GOHEBYDD: Cysylltwch â Mrs Siân Thomas, Tŷ'r Ysgol, (Ffôn: 870220) gyda'ch lluniau a newyddion.

DIOLCH – Fe hoffai Alfie a Heulwen (Siop Wilson) ddiolch yn fawr i bawb am y cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth Sioned Angharad.

Dymuna Mr a Mrs Eurwyn Thomas, 9 Stryd y Ffynnon ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tuag at Rhian tra bu'n Ysbyty Dewi Sant ym Mangor.

LLONGYFARCHIADAU – i Mr a Mrs Tony Pepper (gynt o Stryd Newton) ar enedigaeth eu merch, Catrin – chwaer fach i Sara.

Maent ar hyn o bryd yn byw yn Llanrug tra'n adeiladu eu cartref newydd yn Stâd Preswylfa, Llanberis.

Dilys a Gareth Williams – Llongyfarchiadau i Dilys, merch ieuengaf Mrs Clara Roberts a'r diweddar Willie Roberts, Llainwenuchaf gynt, ar enedigaeth ei merch fach, Kelly Marie, yn ysbyty Dewi Sant, Bangor ar Ragfyr 23, chwaer fach i Dawn Louise.

Ann a Kelfin – Rhagfyr 23 ganwyd mab bychan – Gareth Wyn – i Ann a Kelfin Jones, 31 Stryd Newton. Wrth gwrs mae nain a taid, Megan a Bert Jones, Garfield House, wedi gwirioni o ddifri – yr ŵyr bach cyntaf iddynt.

Dymuna'r teulu ddiolch yn fawr iawn i bawb o'u cyfeillion, cymdogion a theulu am eu dymuniadau da a'r llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd Gareth Wyn.

Colin ac Iona – Ionawr 2 ganwyd efeilliaid bach yn Ysbyty Dewi Sant Bangor i Colin ac Iona Hughes, 2 Glyn Rhonwy. Mae rhai blynyddoedd ers pan ddaeth efeilliaid i'r ardal. Dyma eu henwau – **Claire Louise a Donna Marie**. Peidiwch â gwirioni gormod nain. Rydych yn lwcus iawn, Brenda, eich bod yn byw dros nesaf i'r anwyliad bach.

Margaret a Leonard – Ionawr 22 ganwyd merch fach i Margaret a Leonard Hemnell yn Ysbyty Dewi Sant Bangor. Enw'r baban yw Clair.

PRIODAS – Ddydd Sadwrn, Tachwedd 27 yng Nghapel yr Annibynwyr, Sarn, priodwyd Elfed, mab Mr a Mrs Gwilym Morris, Teras York a Carys, merch ieuengaf Mr a Mrs Hugh Jones, Tryweryn, Llanwnda. Gwasanaethwyd gan y Parch D.J. Hughes, a Mrs Sian Owen wrth yr organ. Darparwyd y wledd briodasol yng Ngwesty'r Fictoria pryd y daeth 90 o wahoddedigion ynghyd i ddymuno'n dda i'r pâr ifanc. Byddant yn cartrefu yn Rallt Goch, Ceunant.

CASGLIAD POPI – Eleni casglwyd y swm anghydeddus o £405 drwy werthu'r Pabi Coch dan nawdd y Lleng Prydeinig, a dymuna'r pwyllgor lleol ddiolch i bawb am eu haelioni eto eleni.

UNDEB Y MAMAU – Cyfarfu aelodau o Eglwys Sant Padarn a Sant Peris o Undeb y Mamau dan arweiniad y Parch A.W. Cherry, a mwynhawyd araith ddifyr iawn gan Mrs Myfanwy Roberts o Fangor ac arddangosfa o ddanteithion y Nadolig. Diolchwyd iddi gan Mrs Eric Owen, Pentre Castell. Rhoddwyd y te y mis hwn (sef Rhagfyr) gan Mrs Pughe, Mrs T.L. Evans, Mrs Kathleen Williams, Mrs Eurwyn Parry, Mrs Deaness Hghes a Mrs Eric Owen.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Yng nghyfarfod mis Rhagfyr estynnodd Mrs Hannah Jones, y llywydd, groeso cynnes iawn i Mrs Vera Hughes o Fethesda. Dangosodd Mrs Hughes rhan o'i chasgliad o depotiau

hen ffasiwn – ac hefyd rhoddodd sgwrs ddifyr ar 'De'. Diolchwyd iddi gan Mrs Eluned Mai Jones a Mrs Dilys Jones. Rhoddwyd y sosial gan Mrs Glenys Jones, Mrs Martha Hughes, Mrs Mair Jones a Mrs Betty Jones.

Y FRIGAD DAN – Cynhaliwyd cystadleuaeth eto eleni gyda'r gêm snwcer dan nawdd Clwb y Frigad Dan, a'r enillydd oedd Keith Roberts, gyda Mr Gwynfryn Thomas yn ail. Mae'r aelodau yn dra diolchgar eto eleni i Mrs Betty Williams, priod y diweddar Gynghorydd Trevor Williams, am ei haelioni a'i diddordeb yn y gystadleuaeth. Diolchir hefyd i Mr Terry, Gwesty Padarn Lake, ac i bawb o'r cyfeillion o'r ardal a fu'n cyfrannu drwy'r flwyddyn tuag at eu cronfa.

Rhai dyddiau cyn y Nadolig trefnwyd parti i blant yr aelodau ac yn ystod y parti cafwyd ymweliad gan Santa Clos a chyflwynwyd anrheg i bob un o'r plant.

MARWOLAETHAU – **Bessie Irene Jones** – Dydd Mercher, Rhagfyr 8 yn Ysbyty Môn ac Arfon bu farw Bessie Irene Jones, Bryn Tirion yn 69 mlwydd oed. Cymeriad hoffus a charedig iawn ydoedd 'Bessie Thorpe' fel yr adwaenai pawb ohonom Mrs Jones. Daeth i'r ardal yma i aros ar ei chwaer flynyddoedd yn ôl a phriododd ag un o fechgyn yr ardal – Pierce Jones, Alexandria House, yr hwn a fu farw saith mlynedd yn ôl ar ôl gwaelledd blin am amser maith, a hithau ei briod yn gofalu amdano hyd y diwedd. Roedd yn gymeriad hynod o gymwynasgar ac yn weithgar dros ben gyda'r achos yn Eglwys Sant Padarn. Gwnaeth lu mawr o gyfeillion nid yn unig yn ei heglwys ond ymysg mudiadau eraill. Byddai wrth ei bodd yng nghwmni aelodau o Glwb yr Henoed yn cefnogi'r Te Bach yn gyson ac yn gwerthfawrogi'r triplau a'r cyfan a wnaed ar gyfer yr henoed. Bu'n wael ers amser maith, bu'n yr ysbyty droeon, ond nid oedd am i neb wybod faint ei dioddef. Bu'n wrol, bu'n dawel ei dioddef, bu'n ddiolchgar a bu'n ffyddiog hyd y diwedd. Bydd colled i'r ardal o golli boneddiges fel 'Bessie Thorne'. Trefnwyd yr angladd ar Ragfyr 1af pryd y daeth llu o gyfeillion i Eglwys Sant Padarn i wasanaeth dan arweiniad y Parch Aled Edwards ac wedi'r gwasanaeth yno i Amlogsgfa Bangor pryd y cafwyd gwasanaeth pellach gyda Mr Derek Jones, Llanberis yn cynorthwyo. Chwalwyd y gweddillion ar dir Eglwys Sant Padarn.

Cydymdeimlir aâ'i chwiriwyd a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Helen Aubrey Williams – Rhagfyr 17 bu farw Helen Aubrey Williams, Afon Terrace, yn 66 oed. Bu'n fregys iawn ei hiechyd ers blynyddoedd, ond dioddefodd yn dawel a di-rwngach – a phob amser yn ymestyn croeso i bawb a fyddai'n galw i'w gweld. Fe'i ganed a'i maged hi yn Llanrug, ond ar ei phriodas ag Owen Williams o Nant Peris daeth i drigo yn yr ardal. Roedd ei hafiechyd wedi ei chaethiwo i'w chartref ers blynyddoedd, er hynny roedd yn ymdrechu i gadw ei hysbryd yn fywiog ac yn dra diolchgar o bob cymwynas.

Claddwyd hi ym mynwent Nant Peris Rhagfyr 21 a threfnwyd gwasanaeth yn ei chartref gyda'r Parch Gwynfor Williams yn gwasanaethu a Mr Derek Jones, Stryd yr Wyddfa yn cynorthwyo. Estynnir y cydymdeimlad dwysaf i 'Now' ei phriod a'i hunig ferch, Lily Aubrey, Ken ei mab a'i briod, yr wyrion a chwaer Megan sydd yn byw yn Ynys Wyth.



Plant Ysgol Sul Capel Coch yn mwynhau eu parti Nadolig yng nghwmni Siôn Corn.

John Jones – Yn Ysbyty Môn ac Arfon ar y diwrnod olaf o'r flwyddyn sef Rhagfyr 31, bu farw John Jones, Stryd y Dŵr yn 67 mlwydd oed. Bu'n wael ers amser, ond yn gallu mynd o gwmpas yn ei amser ei hun. Brodor o Ddeiniolen ydoedd wedi ei eni yn Hafod y Braich ac ar ôl priodi aeth i Glynnog i wneud ei gartref. Rhai blynyddoedd yn ôl daeth i Lanberis i Tŷ Capel Coch, ac i ofalu am yr adeiladau. Nid oedd yr iechyd yn caniatáu iddo gario ymlaen, a gorfu iddo ymadael â'r gwaith. Roedd yn weithgar iawn ar hyd ei oes gyda'r Adran Ambiwlans. Rhoddodd 44 mlynedd o wasanaeth ffyddlon i'r adran yn Sir Gaernarfon. Ymddiddorai â gwaith y Lleng Brydeinig hefyd. Claddwyd ef ym mynwent Nant Peris gyda'r Parch Gwynfor Williams yn gwasanaethu. Cydymdeimlir â'i weddw, ei ferch a'r ddau fab a'u teuluoedd yn eu profedigaeth.

Margaret Roberts – Yn yr ysbyty yn Leominster ar Ionawr 10 bu farw Margaret Roberts, gweddw'r diweddar Hughie Roberts. Roedd yn 85 oed ac wedi byw yn yr ardal am tua 60 mlynedd. Daeth yma o Lerpwl. Yn ei dydd a'i hamser bu'n weithgar iawn gyda phob mudiad da. Yn ystod y Rhyfel rhoddodd lawer o oriau yn wirfoddol yn gweithio yn y YMCA yng Nglandŵr. Bu'n swyddog gyda Sefydliad y Merched am flynyddoedd lawer, a gweithiodd gyda'r achos yng Nghapel Gorphwysfa tra parodd ei hiechyd. Roedd yn hoff iawn o ganu, a thra parodd Côr Merched Llanberis bu'n aelod ffyddlon ynddo. Trefnwyd yr angladd ddydd Sadwrn, Ionawr 15 a chynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn yr Amlogsgfa yn Leominster. Estynnir y cydymdeimlad dwysaf â'i hunig ferch Rhiannon a'i phriod a'r teulu; hefyd ei chwaer, Mrs Sally Jones, Field Terrace, a'i nith, Mrs Eluned Mai Jones a'i chwaer yng nghyfraith, Miss Bessie Roberts, Stryd Turner a'i nai Alun Roberts a'r teulu.

Jennie Wheldon Jones – Yn Ysbyty Gallt y Sil bu farw Mrs Jennie Wheldon Jones, 17 Stryd Goodman ar Ionawr 19. Roedd yn 93 mlwydd oed ac wedi mwynhau iechyd da ar hyd ei hoes, hyd iddi ddisgyn rai misoedd yn ôl a thorri ei chlun. Priododd ag Owen H. Jones (Cwm Myfyr), brodor o Gwm-y-glo a bu'r ddau yn byw yn yr Amerig am flynyddoedd cyn dychwelyd i ddiweddu eu hoes yng Nghymru. Claddwyd hi ym mynwent Llanrug fore Sadwrn Ionawr 22 gyda'r Parch Ifor L. Williams, Peniel, Bangor yn gwasanaethu. Estynnir cydymdeimlad llwyrfa â Phil Williams a'r wyrion eraill yn eu profedigaeth.

Lourie Evans – Ionawr 24 bu farw Mrs Lourie Evans, Plas Tirion Byngalows. Roedd yn 71 oed ac wedi bod yn wael ers amser maith. Estynnir y cydymdeimlad llwyrfa â'i phlant –

Gretta, Ellis a Jean.

Iorwerth Roberts – Yn Ysbyty Bryn Seiont bu farw Iorwerth Roberts, Maes Padarn. Bu'n yr ysbyty ers rhai wythnosau. Cydymdeimlir â'i frodyr a'i chwaer yn eu profedigaeth.

CYFARFODYDD DECHRAU'R FLWYDDYN – Er mai pur siomedig fu ymateb yr ardalwyr i gyfarfodydd gweddi dechrau'r flwyddyn, un o'r hen, hen arferion, fe gynhaliwyd gwasanaeth ymhob addoldy. Nos Lun, yng Nghapel Coch cynhaliwyd cyfarfod gweddi gan aelodau o'r Gymdeithas Lenyddol a chymerwyd rhan gan Mrs Iola Sellers, Mrs Vernon Hughes, Mrs Gwynfor Williams, Mrs Jennie Maud Jones a Mr Cledwyn Parry.

Nos Fawrth cynhaliwyd gwasanaeth Undebol yn Nant Padarn dan arweiniad y Parch Hugh John Hughes.

Nos Fercher yng Nghapel Coch cymerwyd rhan gan Mrs T.H. Jones, Mr John S. Thomas, Mr Alwyn Owen.

Yn Nant Padarn cymerwyd rhan gan Mr W. Williams, Metrose.

Nos Iau, pregethwyd gan Mr H. Jones Hughes yn Jerusalem.

CYFARFOD PLANT – Fore Sul, Ionawr 9 bu plant Nant Padarn yn cynnal gwasanaeth i ffarwelio â'r hen flwyddyn a chroesawu'r flwyddyn newydd. Cymerwyd rhan gan bob un o blant yr Ysgol Sul. Y cyfeillydd oedd Miss Carys Jones, Delfryn. Cefnogwyd y plant gan rieni ac aelodau eraill, a phleserus iawn oedd gweld rhai o fechgyn ifanc a genethod ifanc yr eglwys yn bresennol i gefnogi'r plant.

DATHLU PRIODAS AUR – Rhagfyr 16, 1982 bu Tom a Jennie Maxwell, Argoed, Stryd Warden yn dathlu eu Priodas Aur. Derbyniasant lawer o gardiau llongyfarchiadau gan lu o gyfeillion a chymdogion. Dymunir iddynt lawer iawn o flynyddoedd dedwydd eto.

RHODD – Derbyniodd Clwb yr Henoed rodd o £10 gan Aelodau'r Bwrdd Crwn, Caernarfon. Anfonodd Miss Ann Jones, Teras Minafon lythyr o ddiolch i Mr John Grant Jones, llywydd y Bwrdd Crwn am eu haelioni.

CYDYMDEIMLAD – Cydymdeimlir â Mrs Glenys Charles Williams, Maes Padarn ar farw ei mam a drigai ym Mhenmaenmawr. Bu'n bur wael am beth amser, a dioddefodd ei salwch yn wrol iawn.

Hefyd, estynnir cydymdeimlad â Mr Robert Llywelyn Pritchard, Llys Arthur o golli ei dad, John R. Pritchard, Pennant, Carmel.

GWASANAETH NADOLIG – Fore Sul, Rhagfyr 18 trefnwyd gwasanaeth dathlu'r Nadolig gan blant Ysgol Sul, Nant Padarn. Er mai ychydig o blant o oedran Ysgol Sul sydd yn Nant Padarn ar hyn o bryd gwnaeth pob un ohonynt eu cyfraniad yn dda iawn. Trefnwyd y rhaglen gan Mr Aled Owen, ac arweiniwyd y gwasanaeth gan Miss Carys Jones. Agorwyd

LLANBERIS (Parhad)

gyda darlleniad gan Carys i gyfeiliant fflwrt a ganwyd gan ei chwaer Bethan. Darllenwyd rhannau o'r ysgrythur gan Trystan ac Iwan, a chyflwynwyd y carolau gan Dylan a Bryn. Mwynhawyd deuawd ar y Recorder gan Sharon a Hayley. Cymerodd yr oll o'r plant ran yng nghanu'r carolau sef, Bryn, Dylan, Trystan, Euron, Hayley, Sharon, Neil, Darryl, Sion Gwyn, Gethin a Llifon.

Y casglyddion oed Neil a Darryl. Diolchwyd i'r plant gan Mr Eurwyn Jones, Tawel Lan.

TE PARTI - Pnawn Llun dilynol trefnwyd te parti yn y Ffestri i blant yr Ysgol Sul, gan swyddogion yr Ysgol Sul a mamau'r plant. Wedi'r weledd trefnwyd chwaraeon ac yna cyrhaeddodd Santa Clos a chyflwynodd anrhegion i bob plentyn.

CAPEL COCH - Cafodd plant Ysgol Sul Capel Coch barti Nadolig hwyliog iawn a bu Sion Corn yno hefyd yn cyflwyno anrheg i'r plant.

YR YSGOL FEITHRIN - Y plantos wrth eu bodd gyda digon o ddanteithion o bob math, ac anrheg i bob un plentyn bach. Bu'r rhieni yn brysur iawn yn paratoi'r cyfan er pleser y plantos.

JERUSALEM - Yn y Ganolfan leol y diddanwyd plant Ysgol Sul Jerusalem. Hwylau fel y gweddill o blant yr ardal yn cael te parti ardderchog ac wrth gwrs sbort a sbri gydag anrheg ar gyfer y Nadolig.

ADRAN SANT IOAN - Dymuna aelodau o Adran Sant Ioan ddiolch yn fawr iawn i bobl yr ardal a'r cylch am eu cefnogaeth hael, nid yn unig i'r arwerthiant llwyddiannus a gawsant cyn y Nadolig ond ar hyd y flwyddyn drwy wahanol weithrediadau. Dymunant bob bendith i bawb yma ac acw ar hyd y flwyddyn newydd.

ANGEN GWYBODAETH - Daeth llythyr i law oddi wrth un o hen fechgyn yr ardal yn gofyn y cwestiwn yma:

"Ple, yn Llanberis y mae Bodfean House?" Os oes unrhyw un yn gwybod, a fuasech yn anfon y wybodaeth i'r Eco, os gwelwch yn dda?"

DIOLCH - Dymuna Mr Eurwyn Jones, Tawel Lan ddiolch i bawb a fu mor garedig wrtho tra y bu'n yr ysbyty ym Mangor. Hefyd am y llu llythyrau a chardiau a dderbyniodd trwy yr ysbyty ac wedi dychwelyd gartref.

Dymuna Dilys a Gareth, 18 Bryn Rhos, Caernarfon ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a phawb a fu'n ymweld â Dilys yn Ysbyty Dewi Sant Bangor. Hefyd y blodau, nifer o gardiau ac anrhegion ar achlysur genedigaeth eu merch fach Kelly Marie, chwaer i Dawn Louise.

Diolch o galon i bawb.

Bethan - Rwyf innau hefyd - Bethan Jones, Delfryn yn diolch o galon i bawb a fu mor garedig wrthyf tra'n derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Môn ac Arfon ac ar ôl i mi ddod gartref. Diolchaf yn arbennig i'm teulu, i'r cymdogion a'r llu cyfeillion yn yr ardal ac i fy ffrindiau ysgol am y rhoddion o bob math a'r dymuniadau da a dderbyniais

ganddynt. Rwyf yn falc o gael gwella ac i ailafael yn fy ngwaith ysgol.

DYRCHAFIAD - Llongyfarchiadau i Gwenda, merch Owen a Myfanwy Davies, Stryd yr Wyddfa ar ei



phenodi'n Bennaeth yn Adran 'Computer Programming' yng Ngholeg y Celfyddydau, Birmingham. Wedi gadael Ysgol Brynrefail Llanrug aeth i Goleg y Celfyddydau yn Wolverhampton a graddio yn y pwnc modern yma, gyda chyfrifiaduron. Ardderchog iawn Gwenda, a mawr yw ein hedmygedd am i chi fentro allan i faes newydd, eang a modern. Dymunwn bob llwyddiant i chi yn eich gwaith newydd.

CYNGOR CYMUNED - Cyfarfu Cyngor y Cymuned yn Angorfa dan lywyddiaeth y Cyngorydd Francis Jones. Cytunwyd i benu treth o 3c yn y bunt yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, a phenderfynwyd cyfrannu £10 tuag at freuliau'r gwasanaeth teledu i Nant Peris.

Darparwyd pryder ynglŷn â'r dŵr a gronnai wrth geg y twnnel newydd a gariai ddŵr yr afon a redai ar hyd ochr Llyn Peris. Penderfynwyd anfon tri aelod o'r cyngor i gyfarfod Mr Iorwerth Ellis, Pennaeth Gwaith Dinorwig.

Bu trafodaeth ynglŷn â chael heddwad i'w fwy yn un o'r tai a godwyd yn yr ardal ar gyfer yr heddlu. Mae llawer o'r pensynwyr yn cwyno yn arw iawn nad oes heddwad yn byw yn eu mysg - nid ydynt llai nag ofn y misoedd diwethaf yma. Sicrhodd yr ysgrifennydd y bydd cyfarfyddiad â'r Prifgwinstabl yn cael ei drefnu cyn diwedd mis Ionawr. Yn ystod yr wythnosau nesaf yma fe wneir arolwg â'r man chwarae i blant sydd yn Stryd Goodman, a rhoddi ystyriaeth i ddymchwel y 'cwt' sydd yn rhoddi cymaint o bryder i'r trigolion sydd yn byw o amgylch.

Cefnogwyd cynnig Bwrdeistref Arfon i drefnu cystadleuaeth i denantiaid y tai Cyngor am yr ardd orau, ac erfynnir am i'r oll o'r tenantiaid gymryd rhan os yn bosibl.

Gwnaed apêl unwaith eto gan drigolion Nant Peris am i'r Bwsus Crosville redeg i ben draw'r pentref fel ag y bu am flynyddoedd. Bydd cyfarfyddiad ag ohebydd y Crosville i'w drefnu yn fuan. Dylai pob cais am grant gan fudiadau lleol fod i law erbyn Ionawr 31 i'r ysgrifennydd, Mr Islwyn Jones, Y Garn, Llanrug.

CERDDORIAETH - Bu'r plant yma yn llwyddiannus iawn gydag arholiadau'r piano. Llongyfarchwn hwynt i gyd : Gris 1 - Tristan Rees, Coed-y-glyn. Gris 2 - Stacey Turner, Glyn Peris. Gris 2 - Trystan Thomas, Tŷ'r Ysgol. Gradd 2 - Sharon Roberts, Nant-y-gwyn, Llanrug. Yn adran amcaniaeth yn yr arholiadau cafodd y cyfan farciau llawn.

DROS Y MÔR YN SRI-LANKA

Rai misoedd yn ôl aeth dau o feibion Mr a Mrs Wyn Roberts, Lorne House, Derek Wyn a Brian Wyn draw i Sri-Lanka i weithio. Ymhen ysbaid anfonodd y ddau am eu teuluoedd i ymuno â hwy. Nawr maent wedi bod yno rai misoedd ac mae'n debyg yr arhosant yn y tywydd braf am fisoedd ymhellach. Nid yw'r plant sydd yn yr ardal wedi anghofio



Eirian a Shôn



Llion, Eilian a Manon

amdanynt, ac mae plant Ysgol Dolbadarn wedi anfon eu cyfarchion iddynt yn barod. "Byddwn yn dymuno amser da iawn i chi Eilian, Llion a Manon ac hefyd i Eirian a Shôn. Mae'n braf arnoch yn cael haul poeth a thywydd braf a ninnau yn Llanberis yn cael gwynt a'r glaw a'r oerni gaeafol ac yn rhynnu."

YN YR YSBYTY - Ers diwedd y flwyddyn ddiwethaf mae amryw o'r trigolion wedi bod yn yr ysbyty yn derbyn triniaeth lawfeddygol. Erbyn hyn mae rhai ohonynt wedi dychwelyd i'w cartrefi. Mae eraill yn aros yn yr ysbytai o hyd. Dymunir i'r oll ohonynt gael gwellhad yn fuan iawn prun mai gartre y maent neu yn yr ysbyty. Wedi dychwelyd gartref mae - Miss Bethan Wyn Jones, Delfryn, Mrs Ceinwen Jones, Bod Fair, Mrs Ken Jones, Maes Padarn, Mrs Enid Roberts, Maes Padarn, Mrs Roy Griffiths, Stryd Turner. Yn yr ysbyty mae Mrs Maggie Jones, Maes Padarn, Miss Wendy Jones, Stryd y

Dŵr, Miss Mair Hughes, Stryd Thomas, Mrs Kennedy, Belmont House, Mrs Boyle, Stryd Ceunant.

Y GWLITH

Gwelwyd parti'r Gwlith ar y teledu am y tro cyntaf yn ystod y mis yma. Cymerwyd rhan ganddynt yn Rhaglen Taro Tant. Roedd eu perfformiad yn wych iawn, a dylem fel trigolion y cylch fod yn falch iawn o'r pum geneth yma sydd mor ddawnus yn eu cylch eu hunain. Gobeithio yn arw iawn y cawn eu clywed a'u gweld lawer gwaith eto. Os gwn i a ydym fel pentrefwyr yn gwerthfawrogi ymdrechion a gallu ein hieuenctid? Dylem eu cefnogi ymhob dull a modd - maent yn haeddu y cyfan, a chymeryd i ystyriaeth mai genethod oedran ysgol ydynt.

CAROLAU - Ym Manc y Midland Llanberis yn ystod mis Rhagfyr bu recordiau o garolau Nadolig gan blant ysgolion cynradd y cylch. Recoriwyd y canu gan Mr Harri Jones, Rheolwr y gangen yn Llanberis, a chafwyd ymateb da i'r canu swynol.

DARLITHIAU - Nos Fawrth, Ionawr 10 dechreuwyd ar gyfres o ddarlithoedd yn Oriel Eryri dan nawdd Adran Efyddiau Allanol, Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor. Y darlithydd yw'r Doctor Llŷr D. Gruffydd, M.I.Biol., a'r testun sydd ganddo yw 'Dyn a'i Amgylchfyd'. Roedd gan y Doctor Gruffydd liaws o sleidiau ardderchog i'w dangos o'r creigiau o'n cwmpas a'r tyfiant o amgylch Llyn Idwal, a dyffrynnoedd a'r cymoedd. Fe ddylai'r cwrs fod yn eithriadol o ddifyr.

GÊM DDONIOL

Pnawn Dydd Gŵyl Sant Steffan (Boxing Day) trefnwyd gêm pêl-droed ddoniol iawn. Roedd y plantos yn chwarae gêm o bêl-droed yn erbyn y tadau. Sôn am hwyl, roeddynt yn wirioneddol ddoniol - y plantos mor chwim a rhai o'r tadau mor drwsgwl, ac wrth gwrs, y plantos oedd y concwerwyr.

STORI FER - Llongyfarchiadau i Bryn Jones, Dol Elidir am ennill y wobwr gyntaf yn Eisteddfod Gwaun Gynfi gyda chanmoliaeth uchel iawn. Un o'i brif bynciau yn y Brifysgol ym Mangor yw'r Gymraeg. Disgwylir llawer i stori arall ganddo yn y dyfodol.

CANU'R PIANO - Bu'r plant yma yn llwyddiannus gydag arholiadau canu'r piano'n ddiweddar: Gradd I: Rhian Roberts, Einir Thomas, John Jones, Llion Hughes. Gradd III: Cheryl Edwards, Ceri Lyn Parry, Alice Jones. Gradd 4: Bethan M. Jones, Gwenno Parry, Helen Pritchard, Lerin Gwennan, Lisa Ruskin. Gradd 5: Einir Hughes. Deuwad: Alison a Manon, Ffion a Timothy. Damcaniaeth: Gradd 2 - Catrin Lloyd Roberts, Alison Edwards, Helen Pritchard, Jane Parry. Gradd 5: Manon Ll. Evans. Gradd I: Gwenno Parry.

LLWYDDIANT - Pleser mawr bob amser yw cofnodi llwyddiant rhai o

Parhad ar dud. 7



Roedd y tadau wedi blino gormod i dynnu eu lluniau - felly dyna'r bechgyn fu'n chwarae yn y "gêm ddoniol".

WAUNFAWR

GOHEBYDD—Eich Gohebydd Pentref yw Mrs Glenys Jones, Rhandirmwyn (Ffôn: 626). Cysylltwch â hi gyda'ch lluniau, newyddion, erthyglau ac ati. CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR—Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Rhagfyr:

1—£40, Emyr Evans, Bron y Graig, Betws Garmon; 2—£25, Ann Roberts, 4 Ael y Bryn; 3—£10, Kath Tame, Sŵn y Dail.

Talwyd 4 gwobr ychwanegol o £10 i'r aelodau canlynol:

M. Awstin Jones, Penrhos; T. Parry, 16 Bro Waun; Ann Denton, Ynysoedd; L. Lyon, 6 Ael y Bryn.

CLWB Y BONT—Nos Fawrth, Chwefror 15 am 8.15 o'r gloch, yng Ngwesty Foelas, Llanrug—noson yng nghwmni I.B. Griffith.

DIOLCH—Fe hoffai Alfie a Heulwen, Cynnant Lodge ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion, am y cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth Sioned Angharad.

YR YSGOL FEITHRIN—Cafwyd Bore Paned a Mins Peis ddechrau mis Rhagfyr ac fe hoffai'r pwyllgor ddiolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth. Enillwyd y raffl gan Llion Williams, Bryn Meurig.

Fe fydd noson Gŵyl Ddewi yn cael ei dathlu ar nos Wener, Chwefror 25 yng Ngwesty'r Gwynedd, Llanberis. Enwau i Llinos Cadwaladr, 3 Glyn Afon, neu Bethan Williams, Bryn Meurig.

SEFYDLIAD Y MERCHED—Cynhaliwyd cyfarfod mis Ionawr o'r Sefydliad yn Ffestri Capel Croesywaun nos lau, Ionawr 6.

Dymunodd Mrs Catherine Jones, y llywydd, Flwyddyn Newydd Dda i'r aelodau, a chroesawodd Mrs Llinos Dinwiddy fel ymwelydd i'r cyfarfod.

'Roedd y llywydd yn falch fod Mrs Morfa Evans, Mrs Gwen Jones a Mrs Ild Williams yn well. Dymunodd wellhad buan i wr Mrs Bet Hughes sydd yn yr ysbyty.

Darllenwyd y llythyr misol a chofnodion y cyfarfod diwethaf.

Mrs Catherine Jones fydd y cynrychiolydd yn y Cyfarfod Blynnyddol a gynhelir yn Ysgol Syr Hugh Owen Caernarfon ddydd Sadwrn, Ionawr 29.

Cafwyd noson bleserus, wedi ei chynnal gan rai o'r aelodau, ac fe

ddiolchodd Mrs Morfa Evans a Mrs Buddug Rowlands iddynt.

Enillodd Mrs Missen y raffl a roddwyd gan Mrs Katie Wynn Jones. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn y Ffestri nos lau, Chwefror 3 a'r wraig wadd fydd Mrs Ann Griffith o Swyddfa Cyngor y Dinesydd.

LLONGYFARCHIADAU—i Michael a Hazel, Arfon House ar enedigaeth mab bychan, Mark Louis, brawd i Caroline a Jason.

I Heulwen ac Alfie, Cynnant Lodge ar enedigaeth merch fach, Sioned Angharad, chwaer i Delyth a Gerallt.

I Llywela a Dafydd, Tref Eilian ar enedigaeth merch fach, Ffiona, chwaer i Diane a Ceryl.

I Mr a Mrs J. Jones, Hafod y Rhug, a Mr a Mrs G. Williams, 2 Bro Waun ar fod yn daid a nain unwaith eto.

Ac i Mr a Mrs R.W. Roberts, Bryn Golau ar fod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd merch i Beryl a Gareth.

I Siân Williams, Coed Gwydryn ar ei dyweddïad â Dafydd o Lanrug.

I Karen Denton, Tai Isa, ar ei dyweddïad â Ramon Ross o Gaernarfon.

I Stephen Richard Nesfield, Bryn Argoed, ar ei briodas â Helen Wyn Williams o Borthaethwy.

I Anna Lloyd Hughes, Treflan Isa ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 21 oed.

I Kim Turner, Collfryn ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 18 oed.

Ac i Mrs Pat Parry, Ffridd Felan ar gael ei phenodi'n Ynad Heddwch.

YN YR YSBYTY—Dymunwn wellhad buan iawn i Mrs Peters, Tref Eilian ac i Mr Alan Denton, Tai Isa sydd yn yr ysbyty.

ADREF O'R YSBYRY—Gobeithiwn fod Mr Ifan Hughes, Bro Waun, Mr Goronwy Jones, Treflys, Karen Denton, Tai Isa a Jonathan, Tref Eilian, yn gwella ar ôl eu harhosiad yn yr ysbyty. Dymuniadau gorau iddynt, ac hefyd i Mrs Thomas Jones, Benallt, sydd wedi torri ei choes.

CYDYMDEIMLWN—â Mrs R.O. Jones, Tan y Waun, ar golli ei brawd.

CLWB 100—Dyma restr enillwyr y Clwb 100 am fis Ionawr:

1—Mrs Jeanifred Jones, Glyn Ceris; 2—Mr John Ellis, Glyn Awel; 3—Mr Haydn Jones, Rhandir Mwyn.

CRICED

Heb os y mae'r gêm griced wedi ennill poblogrwydd yn ddiweddar. Yn sgîl hyn, y mae nifer o'n browyr yn awyddus i ffurfio tîm. Buasai'n beth gwyh petai digon o Gymry yn

Nhalygylch Ysgol Brynrefail i ffurfio tîm ac i feithrin chwaraewyr. Os oes gennych ddiddordeb beth am roi caniad i un o'r rhifau hyn—870533 a 872438.



BILL ac EILEEN GRIFFITHS

**Antiques
Ivy Cottage
BETHEL**

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da

Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

TAN-Y-COED

GOHEBYDD—Eich Gohebydd yw Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan y Coed, (Ffôn: 870030). Cysylltwch â hi gyda'ch newyddion, lluniau ac ati.

Cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig y Plant yn Nhan-y-coed pnawn Sul, Rhagfyr 19. Yn y rhan gyntaf o'r gwasanaeth cafwyd eitemau yn gysylltiedig â'r Nadolig gan y plant ac anrhegwyd hwy gan y Parch W.O. Roberts. Y cyfeilyddion oedd Mrs Carys Ll. Evans, Miss Eirian Morris a Bethan T. Parry.

Yn ail ran o'r cyfarfod bedyddiwyd Rheon Parry, mab Mr a Mrs John Parry, Ael-y-bryn, a brawd Bethan, Wyn, Annwen ac Aled. Y Parch W.O. Roberts oedd yn gweinyddu. Daeth cynulliad da i'r ddau gyfarfod.

Nos Lun Ionawr 3 cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi yn Nhan-y-coed, Mrs Miriam Hughes, 'Rallt Deg, Mrs Katie Roberts, Tainewyddion a Mrs Katie Williams, Morawel yn gwasanaethu. Y cyfeilydd oedd Mrs Jane Humphreys, Las Ynys.

Nos Fawrth cafwyd oedfa bregethu a'r gŵr gwadd oedd y Parch W.O. Roberts a Mrs J. Humphreys oedd y cyfeilydd.

Pnawn Mercher Ionawr 5 cafodd y plant eu te parti blynnyddol. Paratowyd y wledd gan famau ac athrawon yr Ysgol Sul yn cael eu cynorthwyo gan Mrs Blodwen Hughes, Tŷ Capel.

Derbyniodd y plant anrheg gan yr Ysgol Sul, a chyflwynwyd yr anrhegion iddynt gan Mrs Nancy Roberts, Manod. Yna, dangoswyd ffilmiau i'r plant gan y Cynghorydd Gwyndaf Jones.

Diolchwyd i Mr Jones ac i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd tuag at lwyddiant y parti gan y Parch W.O. Robert.

GWAELEDD—Dymunwn fel ardal adferiad buan i Mrs Katie Humphreys, Carmaen sydd heb fod yn dda ei hiechyd, ac anfonwn ein cofion ati hi a Mrs Pitts, Caerweddus, hithau'n wael ers peth amser. Adferiad buan i chwithau Mrs Pitts.

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion hael tuag at gostau'r Eco:

£1.00—Mrs M. Jones, 5 Llys y Gwynt, Penisarwaun; Mr a Mrs Hugh S. Jones, Buarth Newydd, Dinorwig; Mr a Mrs R.H. Williams, Tŷ Capel M.C., Dinorwig; Mrs H. Saynor, 3 Green Terrace, Deiniolen; Mr a Mrs Eurwyn Thomas, 9 Stryd y Ffynnon, Llanberis; Mrs Clara

Roberts, Anfield, Llanberis; Di-enw, Llanberis; Gwen Lloyd Roberts a'r teulu, Awel y Mynydd, Deiniolen.

50c—Mrs Jennie Evans, Rhydfadog, Deiniolen.

£2.00—Mr a Mrs E. Jones, Hafan, Ffordd y Gogledd, Deiniolen; Miss Gwyneth Thomas, 6 Ffordd Cynfal, Bangor.

NANT PERIS

GOHEBWYR—Mr a Mrs J.W. Elis, Glanrafon sydd yn gofalu am golofn Nant Peris. Cysylltwch â nhw gyda'ch newyddion, lluniau ac ati.

REHOBOTH—Yn ystod gwyliau'r Nadolig bu Siôn Corn yn ymweld â Ffestri Rehoboth i rannu anrhegion i'r plant, diolch i'r cyfeillion a drefnodd y cyfarfod.

PASIAANT—Cafwyd pasiant y geni gan y plant dan arweiniad Mrs J.M. Williams, Pennant yn Rehoboth nos Sul cyn y Nadolig. Yr oedd yn wledd i'r llygaid a'r glust. Y plant a gymerodd ran oedd Sharon, Siân, Helen, Arwyn, Alan a Iestyn. Cafwyd amryw o garolau gan y plant a'r oedolion i ddiweddu'r noson.

GWYLNOS—Bu gwasanaeth gwylnos arferol noson cyn y Nadolig yn Eglwys Sant Peris a chafwyd cynulliad da fel arfer. Gwasanaethwyd gan y Parch Richard Jones, Rheithor y Felinheli.

LLONGYFARCHIADAU—Dymuniadau da i Robert Franz mab y diweddar Mr a Mrs Elfed Thomas, 9 Glanrafon ar ei benodiad yn gyflwynydd radio y BBC yng Nghaerdydd. Mae'n Swyddog tollau yn doc Mostyn ar hyn o bryd ac yn byw ym Mhrestatyn.

PROFEDIGAETH—Ddydd Mawrth cyn y Nadolig yn Ysbyty Eryri bu farw Mrs M. Closs Jones, Llwyn Peris, Bethel, Llwyn Peris, Y Nant gynt. Bu'r angladd yn amlogfa Bangor a rhoddwyd ei llwch ym meddrod y teulu yn y Nant. Cydymdeimlir â'i phriod Mr E. Glyn Jones yn ei golled a'i hiraeth.

CWYNO—Mae amryw yn yr ardal wedi bod yn cwyno yn ddiweddar. Yn eu plith Eryl, merch fach Mr a Mrs Gwilym J. Roberts, Cerrigydrudion a fu'n yr ysbyty am ysbaid a Mrs J.M. Williams, Cae Perthi sydd ar hyn o bryd yn aros gyda'i merch ym Mynydd Llandegai. Dymunir adferiad iechyd yn fuan iddynt.

DYWEDDÏAD—Llongyfarchiadau i Hilda Wyn, merch Mrs Ann Jones a'r diweddar Harri Wyn Jones, Maes yr Haul ar ei dyweddïad â Wyn Morris, Fachell, Bethel.

LLANBERIS (parhad)

blant yr ardal o dro i dro, yn enwedig pan yr ydym wedi clywed bron ddim amdanynt am rai blynyddoedd; a dyma hanes diddorol un o fechgyn yr ardal, Keith Roberts Viney, gynt o Faes Padarn.

Gadawodd Ysgol Brynrefail Llanrug yn 16 oed ac ymuno â'r Llu Awyr, a bu'n astudio peiranyddiaeth - a llwyddo yn y diwedd i fod yn Brif Beiriannydd yn St. Athen. Aeth i Singapore am beth amser ac yno bu'n astudio yn ei oriau hamdden ac eistedd arholiad Lefel A eto mewn peirianwaith. Symudodd i Peterborough, lle y dilynodd gwsr addysg athrawon, ac oddi yno i Brifysgol Llundain lle y graddiodd. Bu'n dysgu yn St Athen am wyth mlynedd. Yn ystod y cyfnod yma cafodd ei ddewis allan o rai cannoedd i fod yn Brif Beiriannydd i fynd gyda'r 'British American Cup Team' i Newport, Rhode Island, Yr Unol Daleithiau, ac ar hyn o bryd mae'n mwynhau ychydig o wyliau. Yn Llantrisant mae wedi gwneud ei gartref ar ôl priodi â nyrs o'r cyffiniau, ac mae mab a merch ganddo. Gallwch ddeall balchder ei fam wrth iddi adrodd hanes ei llwyddiant i ni.

(Ardderchog iawn Keith - mae pawb sydd yn eich adnabod chi a'ch teulu yn falch iawn o'ch llwyddiant.)

...YSGOL DOLBADARN - Y NADOLIG - Cyn cau am wyliau'r Nadolig bu prysurdeb mawr yn yr Ysgol. Cynhaliwyd dau barti Nadolig, un i'r babanod a'r llall i blant yr Adran Iau. Cafwyd gwleddoedd danteithiol tros ben. Diolcha'r prifathro i'r athrawon am drefnu partion ac hefyd am gymorth gwirfoddol staff y gegin. Diolch hefyd i Santa am alw heibio.

Ar nos Iau, Rhagfyr 16 cynhaliwyd disco gan Adran yr Urdd dan ofal yr arweinydd sef Mr Iwan Roberts, B.Sc., ac athrawon eraill yn ei helpu. Er bod yr hin oddi allan yn bur oer, yr oedd y plant yn chwys domen yn dawnsio yn y neuadd. Mwynhaodd pawb eu hunain yn fawr iawn.

Fel y gwyddoch, gwneir casgliad i Gymdeithas Deillion Gogledd Cymru cyn y Nadolig. Eleni casglwyd y swm o £50 i'r achos teilwng hwn. Mawr yw diolch y prifathro am gefnogaeth arferol pobl Llanberis a Nant Peris.

Ar ddydd Gwener Rhagfyr 17 aeth grŵp o blant gyda Mrs E. Pierce a'r prifathro i Blas Pengwaith i ddiddori'r deiliaid yno. Cafwyd croeso brwd iawn gan yr henoed a mwynhawyd orig ddifyr o ganu a chwarae'r offerynnau cerdd. Ar ran bawb o'r Ysgol cyflwynwyd tun o felysion i'r henoed fel anrheg Nadolig.

Ar fore dydd Mercher, Rhagfyr 22

cynhaliwyd cyngerdd Nadolig yn yr Ysgol pryd y cafodd pob plentyn gyfle i wneud ei ran.

Gwaeledd - Dyna yw hanes Mrs Hughes, athrawes y Dosbarth Meithrin, Mrs N. Davies, glanhawr a Mrs Mair Jones, Clerc Cynorthwyol. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddynt fel y delont drachefn yn ôl i'n plith.

Croeso - i Mrs Carolyn Roberts sydd yn llenwi bwlich fel athrawes y Dosbarth Meithrin. Erbyn hyn y mae Mrs Roberts yn hen adnabyddus i ni gan iddi fod yma droeon. Croeso i Mrs Margaret Rowlands hefyd sy'n cyflawni dyletswyddau Mrs N. Davies.

Llwyddiant - Erbyn hyn y mae'r wers nofio yn rhan o gwricwlwm yr Ysgol a bydd holl blant o'r Adran Iau yn mynychu Canolfan Hamdden Arfon am wersi nofio. Yn dilyn y gwersi hyn daeth llwyddiant i rai plant o Safon 3 a 4 drwy ennill bethodynau.

Safon 3 - am nofio 400m - Simon Williams, am nofio 100m - Nerys Hughes, Jennifer Clarida, Julie Baylis, am nofio 20m - Helen Thomas, Justin Torr, Sharon Phillips, am nofio 10m - Amy Jones, Maricke Latham, Einir Thomas, dysgwyr - Mark Jones, Christopher Jones, Geraint Thomas, Llion Hughes, Kathy Jones, Stephen Jones, Hannah Rudkin, Delyth Davies, David Ellis.

Safon 4 - am nofio 400m - David Griffith, Richard, Parry, Delyth Williams, am nofio 100m - Barry Jones, Aled ap Deryl, Gillian Glass, Colin Jones, Joanne Lloyd, Jonathan Cousins, am nofio 10m - Samantha Lowe, Bethan W. Jones, Christopher Hughes, Benjamin Upward, Vera Cuthbertson, David Roberts, Bethan W. Owen, Mark Philips, Andrew Owen, Ieuan Jones, Eifion Griffith, Maria Wallis.

Llongyfarchiadau i'r holl blant am eu llwyddiant.

Tîm Pêl-rwyd yr Ysgol - Ar ddydd Iau, Ionawr 20 aeth Tîm Pêl-rwyd yr Ysgol dan ofal Mrs E. Pierce i chwarae yn erbyn tîm o Ysgol Capel Garmon. Ysgol Dolbadarn a orfu. Llongyfarchiadau i'r tîm a'u hyfforddwr.

Nofio drachefn ... Llongyfarchiadau i Trystan Thomas a Robert Gray-Williams am ennill medalau am nofio.

LLONGYFARCHIADAU i Gwynfryn a Vera Griffiths a'u plant Owain a Nia, Llwyn Piod, ar ennill y brif wobwr, sef peiriant fideo ynghyd â gwobr ariannol sylweddol ar y cwis teledu "Twyllor Teulu" yn ddiweddar.

HWYL Y RHUTHRO A GWTHIO



Viv o Hogia'r Wyddfa yn cyflwyno'r tlysau

Er nad oedd y tywydd yn rhy garedig ar Wyl San Steffan, nid amharodd yn ormodol ar hwyl Ras Pramiau flynyddol Clwb Peldroed Llanberis. Alan Hughes a Michael Roberts (o'r 'Prins') oedd y pâr cyflymaf. Fe lwyddodd y ddau i ymweld â phedair tafarn yn y pentref, gan yfed hanner peint ym mhob un, mewn 13 munud 21 eiliad. Hwyl eu dau enillodd y wobwr am y gwisgoedd gorau. Martin Torr a Tom Rose dderbyniodd y Tlws Tafarn Orau a'r "Merched gorau" oedd Iwan (Jiws) ac Ifor.



Ar ras drwy Lanbêr

ARWYDD O'R AMSERAU



Capel Gorffwysfa Llanberis, Ionawr 1983

STORFA
Mace
O.R. & M. PARRY
Sgwâr Llanrug
Caernarfon 2790
Dewis hael
o fwydydd, llysiau
a diodydd

I DRWSIO'R
TELEDU
NEU'R
RADIO
FFONIWCH...
Osmond W. Shaw
DEINIOLEN
Ffôn:
LLANBERIS 870545
Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffoniwch cyn 10 o'r
gloch y bore

CYMYSGWR CONCRIT AR FENTHYG
£10 yr wythnos
£2.50 y dydd

HEFYD CLUDO
LLWYTHI YSGAFN
CLIRIO SAFLEOEDD,
DANFON TYWOD,
GRO A DEFNYDDIAU
ADEILADU ERAILL

ERIC GOVER
11 STRYD YR
WYDDFA
LLANBERIS
Ffôn:
LLANBERIS 872285
NEU 871327

GOHEBYDD—Eich Gohebydd Pentref yw Mrs Nancy Rowlands, 12 Pentre Helen, (Ffôn: 8702567). Cysylltwch â hi gyda'ch lluniau a'ch newyddion.

EISTEDDFOD GWAUN GYNFI 1982—Nos Fercher, Mehefin 30 daeth nifer o'r ardalwyr ynghyd yn y Ganolfan i drafod y posibilrwydd o gael Eisteddfod yn Neiniolen. Penderfynwyd yn unfrydol y dylid gweithio i'r perwyl o gael cynnal Eisteddfod yn y pentref cyn diwedd y flwyddyn. Hyfrydwch llwyr i'r rhai a weithiodd i'r perwyl hwn oedd gweld cynifer yng Nghapel Ebeneser ar y 4ydd o Ragfyr yn mwynhau Eisteddfod Gwaun Gynfi.

Arweiniwyd yr Eisteddfod yn y prynhawn gan Miss Jean Parc Jones a Mr W.J. Eames, Prifathro Ysgol Gwaun Gynfi. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs M.A. Thomas, Caernarfon. Gwelwyd cystadlu brwd drwy'r prynhawn gyda'r plant yn cyflwyno eu doniau ger bron y ddau feirniad, Mr Selwyn Griffith a Mr T.J. Williams, Llanrwst. Gan mai hon oedd yr Eisteddfod gyntaf ers blyneddau yn Neiniolen, ni wyddai'r Pwyllgor sut fyddai trefn y dydd yn disgyn a phleser oedd gweld y prynhawn yn ymestyn i'r hwyr. Diolchwn i'r plant am eu cyfraniad i'r Eisteddfod.

Cafwyd cystadlu brwd yn yr hwyr gyda nifer o gystadleuwyr yn dod oddi allan i gylch Deiniolen. Diolchwn iddynt am eu cefnogaeth. Llywydd yr hwyr oedd Mr Dafydd Orwig, Bethesda, ond yn anffodus, nid fu'n bosibl iddo fod yn bresennol, oherwydd iddo gael profedigaeth fawr cyn yr Eisteddfod. Dangoswyd cydymdeimlad yr Eisteddfod yn y modd arferol yn ystod gweithgareddau'r hwyr. Aeth y cystadlu ymlaen hyd oriau mân y bore oherwydd nifer y cystadleuwyr a llwyddiant ysgubol yr Eisteddfod. Arweiniwyd y noson gan Mr Gwyn Parry a Mr R. Williams. Diolch i'r cyfeillyddes: Miss Annette Roberts, hefyd i'r rhai hynny a weithiodd mor galed i sicrhau llwyddiant yr eisteddfod ac edrychwn ymlaen yn llawn hyder at Eisteddfod Gwaun Gynfi, 1983.

Y Parch. Aled Edwards, B.A., Ysgrifennydd Cyffredinol yr Eisteddfod.

Dyma restr y buddugwyr:

Cerdd: Beirniad: Mr T.J. Williams. **Adran Feithrin a Dosb. 1**—1. Deiniol Skillicorn, 2. Lindsay Parry, 3. Dafydd Wyn Davies. **Dosb. 2 a 3:** 1. Dyfan Siôn, 2. Siôn Wyn Hughes, 3. Derwyn Jones. **Safon 1 a 2:** 1. Dewi Wyn Williams, 2. Linda W. Jones, 3. Mark Hughes. **Safon 3 a 4:** 1. Dylan Morris, 2. Iwan G. Williams, 3. Jennifer E. Jones. **Piano dan 12 oed:** 1. Jennifer Ellen Jones, 2. Laura Grant, 3. Ceri Williams. **Unawd offerynnol dan 12:** 1. Dylan W. Williams, 2. Iwan G. Williams, 3. Julia. **Unawd Cerdd Dant dan 12 oed:** neb yn cystadlu. **Cân Werin dan 12 oed:** 1. Geraint Morris, 2. Nicola Parry. **Datganiad cerddorol gorau dan 12 oed (cwpan):** Geraint Morris. **Mwyaf o farciau dan 12 oed (cwpan):**

Jennifer Ellen Jones. **Unawd 12 i 15:** 1. Bethan Haf Price, Garndolbenmaen, 2. Gwenno, Porthmadog, 3. Guto Lloyd Jones, Deiniolen. **Unawd dan 25:** 1. Iona Williams, Bodwrog. **Unawd piano dan 18:** 1. Sharon Williams, 2. Helen M. Jones a Delyth Williams, 3. Rhian Jones. **Emyn dros 50 oed:** 1. J.W. Enston, Bontnewydd, 2. Katie Wyn Jones, Llandwrog, 3. Ithel Parry. **Her Unawd:** 1. Maldwyn Parry, Penygroes, 2. Hefin Jones, Waunfawr, 3. Iona Williams, Bodwrog. **Deuawd dros 18:** 1. Wmffra ac Alun, Waunfawr, 2. Meira Rowlands a Maureen Evans, Deiniolen, 3. Betty P. Roberts ac Olwen B. Roberts, Dinorwig. **Wythawd:** 1. Dinorwig (Miss Annette B. Roberts), 2. Ebenezer (Mr John Jones). **Unawd Offerynnol:** 1. Gwyn Parry, Deiniolen, 2. Irfon P. Morris, Llanfairpwll, 3. Julian Donin, Clwt-y-bont. **Unawd Cerdd dant agored:** 1. Nerys Jones, Caernarfon, 2. Bethan Haf Price, Garndolbenmaen, 3. Katie Wyn Jones, Llandwrog. **Cân Werin agored:** 1. Iona Williams, Bodwrog a Nerys Jones, Caernarfon (cyfartal). **Parti Pop:** 1. Parti Deiniolen (Mrs Nan Jones). **Côr:** 1. Deiniolen (Mr John Jones).

Llên—Adrodd Adran Feithrin a Dosb. 1: 1. Elaine, 2. Siân Ellen, 3. Arwel Wyn a Dafydd Wyn. **Dosb. 2 a 3:** 1. Dyfan Siôn, 2. Siôn Wyn Hughes, 3. Delyth Price. **Safon 1 a 2:** 1. Linda Jones, 2. Dewi W. Williams, 3. Jean Williams a June Williamd (cyfartal), 4. Dawn Thomas ac Amelia Jones (cyfartal). **Safon 3 a 4:** 1. Jennifer Ellen Jones, 2. Nia Davies, 3. Iolo Griffith ac Ellen W. Williams (cyfartal). **12 i 14 oed:** 1. Mari Wyn Williams, 2. Bridget Hughes. **Dan 25:** 1. Linda Lewis, Bryndu. **Prif Adroddiad:** 1. Nerys Wyn Jones, Caernarfon. **Parti cyd-adrodd dan 12 oed:** 1. Parti Nia, 2. Parti Medwyn, 3. Parti'r Brownies. **Parti Cyd-adrodd dan 18 oed:** 1. Parti Bigil. **Parti cyd-adrodd dros 18 oed:** 1. Parti Ceris (Mrs Mary W. Jones), 2. Parti'r Foel (Mrs Gwladys Evans). **Deialog:** 1. Y Parchn Trefor Lewis ac Aled Edwards. **Sgets:** 1. Y Parchn Trefor Lewis ac Aled Edwards.

Rhyddiaith—Adran Feithrin a Dosb. 1: 1. Kelvin Jones a Robert Owen (cyf.), 2. Dafydd Wyn a Melanie Louise (cyf.), 3. Carys Parry. **Dosb 2 a 3:** 1. Siân Griffith, 2. Dyfan Siôn, 3. Eilir Williams a Catrin Keller (cyf.). **Safon 1 a 2:** 1. Karen Price a Dawn Thomas (cyf.), 2. June Williams a Sarah Mackie (cyf.), 3. Darryl Williams a Gerallt Morris (cyf.). **Safon 3 a 4:** 1. Sharon Ann Thomas a Tegid Roberts (cyf.), 2. Jennifer Ellen Jones, 3. Darren Parry a Beverley Thomas (cyf.). **Dan 12 oed:** 1. Tegid Roberts, 2. Jennifer Jones, 3. Sioned F. Jones a Medwyn Davies (cyf.). **Barddoniaeth agored—Englyn—S4C—neb yn deilwng. Telyneg—Llawenydd—1.** Morris J. Roberts, Ty Newydd, Bodorgan. **Parodi ar Nico Annwyl—1.** Irfon P. Morris, Llanfairpwll. **Limerig:** 1. Mrs Mary Wyn Jones, Deiniolen. **Llinell goll:** 1. Mrs Dilys Williams, Dinorwig. **Sotir fer:** 1. Bryn Jones, Llanberis. **Brawddeg o'r gair Gwaun Gynfi:** 1. Mrs Mary E. Jones, Dinorwig. **Enwau cartrefi'r fro:** 1. Mrs Margaret C. Griffith, Deiniolen. **Cadair Prif Lenor yr Eisteddfod:** 1. Mrs Margaret C. Griffith.

Celf a Chrefft—Arlunio—Beirniad: Mr K. Plemming. **Ysgol Feithrin:** 1. Daniel, 2. Malcolm Parry, 3. Bethan Williams. **Dosb Meithrin ac 1:** 1. Melanie, 2. Tania, 3. Nicola. **Dosb. 2 a 3:** 1. Dylan Hughes, 2.

Sara Wood, 3. Dyfan Siôn. **Safon 1 a 2:** 1. Neil Griffith, 2. Nia Saynor, 3. Lucy Hughes. **Noson Tân Gwylt (sialc):** 1. Dawn Thomas, 2. Dylan Gwyn Jones, 3. Rheinallt Williams. **Safon 3 a 4:** 1. Siân Marie Jones, 2. Dylan Wyn Jones, 3. Garry Williams. **15-18 oed:** 1. 1, 2 a 3. Dylan Wyn Jones. **Gwaith arlunio gorau yn yr Eisteddfod—Cwpan i Dylan Wyn Jones, Rhydfadog. Gwaith llaw—Ysgol Feithrin—1.** Carolyn Williams, 2. Karen Jones, 3. Gethin W. Griffith. **Dosb Meithrin a 1:** 1. Aaron Jones. **Dosb 2 a 3:** 1. Eilir W. Williams, 2. Dyfan Siôn, 3. Siân Griffith. **Gwaith llaw: Beirniad:** Mrs A. Jones. **Safon 1 a 2:** 1. Mared Sutherland, 2. Alun Griffith, 3. Gwawr Williams ac Amelia Jones (cyd). **Safon 3 a 4:** 1. Iwan G. Wukkuans a'r Vriwbues (cyd), 2. Iolo Griffith a Dylan Wyn Williams (cyd), 3. Nicola Parry. **12 i 15 oed:** 1. Ian Prys Roberts.

Coginio—Beirniad: Mrs E. Hughes. **Dan 12 oed:** 1. Nia Davies, 2. Jennifer E. Jones, 3. Gwawr Williams. **Dan 15 oed:** 1. Ian Prys Roberts. **Dan 18 oed:** 1. Gwenllï P. Roberts. **Bara Brith:** 1. Sally Lewis, 2. Margaret Jones, 3. Sharon Jones. **Cacen siocled:** 1. Buddug Jones, 2 a 3: Gwen Griffith. **Jam:** 1. Maggie Jones, 2. Gwen Griffith, 3. Mary Thomas. **Coginio i ddynion: 6 cacen fach:** 1. 1 a 2: Trefor Lewis, 3. Gwyndaf Roberts. **Gwau—gwasgod: Beirniad:** Mrs A. Jones. 1. Mrs Buddug Jones, 2. Mrs Eirian Jones, 3. Mrs Sally Lewis. **Gwnio: blows:** 1. 1 a 2: Mrs Miriam Lewis. **Tegan meddal:** 1. 1 a 2: Mrs Georgina Davies, 3. Mrs Sally Lewis. **Gwaith Coed. Beirniad:** Mr G. Williams. 1. Neville Williams a John Roberts (cyd), 3. H.P. Morris, Rhianfa, Clwt-y-bont. **Gwaith metel:** 1. Mr Keller, Clwt-y-bont, 2. Mr John Roberts, 3. Mr Ifan Wyn Williams.

Cwpan Bryn-du am y gwaith llaw gorau—Mrs Buddug Jones.



JENNIFER ELLEN JONES—a oedd yn fuddugol am adrodd a canu'r piano (dan 12 oed) yn Eisteddfod Gwaun Gynfi. Enillodd y Gwpan a oedd yn gyflwynedig gan Miss E.W. Jones, Dinorwig yn yr Eisteddfod.

CYMDEITHAS ADDYSG Y GWEITHWYR—Estynnir croeso cynnes i aelodau Dosbarth Deiniolen o'r Gymdeithas uchod ac i eraill sydd â diddordeb, i ymuno â Dosbarth newydd sydd i'w gynnal yng nghanolfan Dinorwig yn ystod mis Mawrth (gweler dyddiadur). Bwriedir cynnal cyfres o bedair darlith ar 'Hanes y Chwareli' gan Mr Ted Williams, Tâl aelodaeth fydd 60c y noson a 40c i'r diwaith a phensiynwyr.

CRONFA CYMHORTHION MEDDYGOL Deiniolen a'r Cylch—Dymuna swyddogion y Gronfa ddiolch i bawb am eu cefnogaeth yn ystod 1982. Derbyniwyd £30 gan Gyngor Eglwys Deiniolen ar ôl Gwasanaeth Carolau ar Ragfyr 19. Y mae tua £250 yn y Gronfa yn awr.

GYRFA CHWIST—Nos Wener, Rhagfyr 17 cynhaliwyd Gyrfa Chwist lwyddiannus a'r elw at y Ganolfan. Meistr y Seremoni am y noson oedd Mr Meirion Jones, Min Afon. Yr enillwyr oedd, — Merched, 1. Mrs Jean Parry, Bethel, 2. Mr W.O. Williams, Deiniolen, 3. Miss Lyn Morgan, Bethel. Booby, Mrs Nancy Rowlands, Deiniolen. Dynion—1. Mr Dafydd Wyn Jones, Deiniolen, 2. Mr Phil Lea, Penisarwaun, 3. Mr Meirion Jones, Clwt-y-bont, Deiniolen. Booby, Mr Hugh Morgan Bethel. Yn ystod y noson tynnwyd raffl fawr y Nadolig. £50—1. Mrs H. Jones, 40 Stryd Dinorwig, Caernarfon, £25—2. Miss L. Stables, 33 Pant y Brenin, Llangoed, £15—3. Mrs B. Hughes, London House, Clwt-y-bont, £10—4. Mr Kenneth Williams, Penisarwaun.

Enillwyd rafflau gwerthfawr eraill gan Mrs Yvonne Hughes, Rhydfadog, Tedi, Mrs Glenys Owen, Stryd Newydd, Potel Win, Mrs Eileen Hughes, Rhes Victoria (Bocs o Ffrwythau). Dymuna Pwyllgor Reholi'r Ganolfan ddiolch yn gywir i bawb fu'n cefnogi'r ymdrechion uchod.

MERCHED Y WAWR—Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod nos Lun Ionawr 17 yn y Ganolfan dan lywyddiaeth Mrs Miriam Lewis. Anfonwyd cofion at amryw o'r aelodau sydd yn cwyno. Y wraig wadd oedd y Cynghorydd Mrs Pat Larsen, Penisarwaun. Cafwyd sgwrs ar 'Agwedd Cynllunio' ganddi. Mwynhaodd yr aelodau ei sgwrs a diolchwyd iddi gan y llywydd. Derbyniwyd ymddiheuriad gan Mrs J. Eirlys Williams, am iddi fethu bod yn bresennol. Rhoddwyd y te gan Mrs B. Wyn Davies a Mrs Jane Catherine Hughes a Mrs Gladys Williams, y dair o Pentre Helen. Estynnwyd croeso i aelod newydd sef Mrs Williams, 3 Tai Victoria. Enillwyd y raffl gan Mrs Mary Morris, 91 Pentre Helen. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Lun, Chwefror 21 yn y Ganolfan. Y gŵr gwadd fydd Mr Gwyn Parry, B.A., Bro Dawel, Deiniolen.

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



**BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)**
Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

SCIPIAU ARFON

YMGYMERIR Â CHLIRIO SBWRIEL O BOB
MATH
SBWRIEL ADEILADU, CARTREF A
DIWYDIANNOL
TELERAU RHESYMBOL

Ffôn:
Dydd Caernarfon 5670
Llanfairfechan 680 329
Gyda'r Nos
Llanberis 872236



Y GANOLFAN - Swyddogion Pwyllgor Rheoli'r Ganolfan am eleni fydd Mr William Orwig Williams, Tŷ Capel Disgwylfa (Cadeirydd), Jacob James, Regent House (Is-gadeirydd), Dafydd Lloyd Hughes, 2 Maes Eilian, Dinorwig (Trysorydd) a Robert Williams, 4 Tai Caradog (Ysgrifennydd). Er hwylustod i'r pentrefwyr trefnwyd i Mrs Miriam Lewis, Llys Myfyr dderbyn taliadau am fenthycar Ganolfan ar ran y trysorydd. Gwneir defnydd helaeth o'r Ganolfan gydol tymor y gaeaf gyda gweithgareddau yn cael eu cynnal yno gan bob haenen o'r gymdeithas, ac felly er osgoi siomiant anogir y sawl sy'n dymuno heirio'r ganolfan wneud cais buan am hynny i'r Ysgrifennydd. Mewn ymateb i gais amryw o'r rhai fu'n mwynhau Gyrfa Whist a drefnwyd gan y Pwyllgor ychydig cyn y Nadolig hysbysir darllenwyr yr Eco y bydd Gyrfa Whist arall yn cael ei chynnal yn y Ganolfan am 7.30 nos Fercher, Chwefror 16 pryd y gwahoddir cefnogaeth y pentrefwyr ac yr edrychir ymlaen am y cyfle i groesawu i'n plith selogion Gyrfa Whist o'r pentrefi cyfagos.

LLONGYFARCHIADAU - Dymunwn longyfarch un ar bymtheg o hogia'r Ambiwllans o Fangor a wthiodd wely i fyny'r Wyddfa rhai wythnosau'n ôl. Roedd yr ymdrech er mwyn casglu arian ar gyfer cronfa Blue Peter i brynu peiriant Dialysis ar gyfer yr arennau i'r rhai sydd yn dibynnu ar y peiriant hwn. Maent yn bur ddiolchgar i Aardal Deiniolen am yr help a gawsant o Dafarn Y Bull. Maent bron wedi cyrraedd eu targed o £1,000. Rwy'n siŵr ein bod i gyd fel ardalwyr yn falch iawn o'r bechgyn hyn yn gwneud yr ymdrech yma yn eu hamser hamdden. Llawen o ddiolch iddynt i gyd.

CYNGOR EGLWYSI - Cynhaliwyd gwasanaeth Carolau Undebol y pentref nos Sul Rhagfyr 19 yng nghapel Ebenezer. Cymerodd nifer o bobl ran yn y gwasanaeth a chafwyd neges amserol gan y Parch Aled Edwards, Y Ficer. Gwnaed casgliad tuag at Gronfa Cymhorthion Meddygol. Ar nos Lun cyntaf y flwyddyn newydd cynhaliwyd cyfarfod wedi ei drefnu gan y Parch Ivor Williams. Trefnwyd i gynrychiolwyr o'r eglwysi gymryd rhan a theg yw dweud bod i'r oedfa naws arbennig. Bydd y cyfarfod nesaf o dan nawdd y Cyngor yn cael ei gynnal yn Nisgwylfa. Nos Lun, Chwefror 14 pryd y ceir Cwis Ysgrythurol a Chyffredinol o dan ofal y Parch Erfyl Blainey.

SEFYDLIAD Y MERCHED - Rhagfyr 6, Cyfarfod Blynnyddol 1982. Cynhaliwyd y cyfarfod blynnyddol yn y Ganolfan gyda Mrs Vera Hughes, Bethesda yn VCO gyda dwy chwaer arall yn ei chynorthwyo. Croesawyd hwy gan y llywydd, a darllenwyd y

llythyr misol. Darllenwyd y cofnodion llawn o'r flwyddyn gan yr ysgrifennydd. Cafwyd adroddiad ariannol gan Mrs Eirlys Lloyd Jones, y trysorydd. Dyma enwau'r rhai a gafodd eu codi yn swyddogion newydd ym 1983. Llywydd, Mrs Rita Jones, Y Becws; Is-lywydd, Miss Beti Williams, 4 View Terrace; Trysorydd, Mrs Eirlys Ll. Jones, Pentre Helen; Aelodau'r Pwyllgor, Mrs Beryl Hughes, Mrs Marian Wyn Williams, Mrs Jane Eirlys Williams, Miss Kathleen Jones, Mrs Gwen Hughes, Mrs Nancy Rowlands. Rhoddwyd y te gan aelodau'r pwyllgor. Llongyfarchwyd Miss Lena Rowlands, merch Mrs Nancy Rowlands ar ennill gradd o SRN fel gweinyddes yn Ysbyty Môn ac Arfon Bangor.

IONAWR 10 - Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan. Darllenwyd y llythyr misol gan y llywydd a darllenwyd cofnodion gan yr ysgrifennydd. Cafwyd noson ddifur iawn gyda Mrs Eirlys Williams yn ein holi ni. Hefyd darlennodd stori o'i gwaith ei hun. Dymunwyd yn dda iddi hefyd ar ddathlu ei phen-blwydd y diwrnod cynt. Rhoddwyd y te gan Mrs Mary Morris, 91 Pentre Helen a Mrs Jane Jones, 3 New Street. Enillwyd y raffl gan Miss Beti Williams. Diolchwyd i Mrs Eirlys Williams gan Miss Beti Williams. Cafodd Mrs Eirlys Lloyd Jones ein trysorydd ei dewis i fynd i'n cynrychioli i'r Ffederasiwn yng Nghaernarfon ar Ionawr 29. Bydd y cyfarfod nesaf ar Chwefror 7 gyda Mr Emrys Evans o Lanrug yn siarad am Addurno Ffynhonnau.

CLWB SNWCER - John Maldwyn Jones oedd Meistr y Seremonïau yn y Clwb nos lau, Rhagfyr 9, pryd y cynhaliwyd gemau terfynol profion biliards a snwcer y Clwb am 1982. Roedd y Clwb y orlawn ar gyfer yr amgylchiad, yr awyrgylch yn gynnes gyda chystadlu brwd, ac ysbryd rhagorol yn cael ei amlygu ym mhob adran.

Cyflwynwyd y cwpanau a'r tlysau - sydd i'w gweld yn y llun uchod - i'r buddugwyr gan y Parch Eifion W. Williams, Mynytho, cyn-aelod o'r Clwb, ac un a fu'n barod ei gymwynas yn y gorffennol. Wrth gyflwyno'r gwobrwyon canmolodd Mr Williams safon uchel y chwarae gydol y noson, a chyfeiriodd at le canolog y Clwb yn hanes y pentref, ac yn neilltuo at y feithrifa geir yno i ieuencid y pentref. Diolchodd hefyd i'r Pwyllgor gweithgar sydd trwy eu dycnwch yn llwyddo i rymuso ac adeiladu ar y traddodiad sydd wedi tyfu ers dyddiau cychwyn y Clwb yn gynnar wedi'r Rhyfel Mawr. Y buddugwyr oedd:

Snwcer - Dan 13 oed: Pencampwr, Guto Jones, ail, Peter Roscoe, cydradd 3ydd, Jason Jones ac Emyr Humphreys. Dan 16 oed:

TLYSAU'R CLWB SNWCER



Pencampwr, Dewi Williams, ail, Malcom Allen, cydradd drydydd, Mark Williams, a Haydn Williams. Oedolion: Pencampwr, Euron Owen, ail, Barry Thomas.

Biliards - Oedolion: Pencampwr, John Humphreys, ail, Gareth Grindley.

Gwerthfawrogwyd hefyd y gwaith gyflawnir gan Bob Humphreys a Dafydd Wyn Jones, yn hyfforddi'r aelodau ifainc, a chyflwynwyd rhoddion i'r ddau ohonynt fel arwydd o edmygedd y Clwb o'u gwaith da. Cydnabu'r ddau iddynt gael hwyl a bodlonrwydd yn y gwaith, a phroffwydodd Bob Humphreys y cyfyd Pencampwr Gogledd Cymru o blith yr aelodau presennol cyn nemor ddim blynnyddoedd. Dosbarthwyd tystysgrif medrusrwydd i'r aelodau ifainc canlynol: Malcom Allen, Gareth Hughes, Carwyn Thomas, Elfed Williams, Bryn Jones, Dewi Lewis, Dewi Williams, Haydn Williams, David Jones, Jason Jones, Ian Roberts, Guto Jones, Colin Worth, Merfyn Morris ac Aeron Jones.

Yn ystod y noson diolchwyd i'r Gofalwr, Mr Owen Hughes, am ei ffyddlondeb i'r Clwb ac am ei brydlondeb yn agor boed hindda neu ddrycin a chyflwynwyd rhodd fechan iddo. Mae'n hen arferiad i baratoi paned a thamaid blasus ar derfyn y 'finals', a chan na chafwyd cyfle ar y noson i ddiolch am y wledd a'r danteithion a gafwyd eleni, gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn hyn o air fel diolch annigonol am y bwyd da a'r gweini siriol wrth y byrddau!

DIOLCH - Dymuna Steffan Elidir (a'i chwaer Catrin a'r rheini) Clwt-y-bont ddiolch o galon am y llu cardiau, anrhegion a dymuniadau da ar achlysur ei enedigaeith.

Dymuna Mrs Hilda Saynor, 3 Green Terrace ddiolch i berthnasau a chyfeillion am y rhoddion a'r cardiau a hefyd y blodau a dderbyniodd tra bu yn ysbyty Dewi Sant Bangor o dan lawdriniaeth. Diolch hefyd am y caredigrwydd a dderbyniodd gan bawb ar ôl dod gartref. Diolch i staff Ysbyty Dewi Sant am eu caredigrwydd a'u gofal. Diolch o galon i bawb.

CHRISTINGLE - Gwasanaeth Christingle Cyngor Eglwys Deiniolen - Ar ddydd Sul Rhagfyr 20 1747 trefnwyd y Gwasanaeth 'Christingle' cyntaf ym mhentref Morfaidd Manenborn, dan nawdd Count Zinnendorf. Prin y disgwylia'r gŵr bonheddig hwn y byddai Cristnogion Deiniolen yn llawenhau yn y traddodiad a ddechreuwyd ganddo, a hynny yn y flwyddyn 1982. Dengys hyn wirionedd y syniad fod pob peth da yn para'. Daeth rhwng tri a phedwar cant o ardalwyr i'r Gwasanaeth 'Christingle' yn Eglwys Crist Llandinorwig ar y nos Sul wedi'r Nadolig a diolchwn iddynt am eu cefnogaeth.

Gwasanaeth Undebol, yn bennaf i bobl ifanc a phlant oedd y 'Christingle' a rhoddwyd gwahoddiad i bob Ysgol Sul yn yr ardal i gymryd rhan. Oherwydd hyn, cafwyd noson amrywiol gyda rhai yn darllen, eraill yn canu a dau yn canu cyrn. Arweiniwyd y Gwasanaeth gan y Ficer, Y Parch Aled Edwards a'r Parch Trefor Lewis.

Rhoddwyd 'Christingle' i bob plentyn ar ddiwedd y Gwasanaeth, gan dywyllu'r Eglwys a goleuo'r canhwylau ar yr orennau. Wedi canu 'Cân Simeon', cafwyd distawrwydd llethol yn yr Eglwys a chyfle i weddio yn dawel. Dyma yn syml yw arwyddocad y 'Christingle'; yr oren yw'r byd, y ffrwythau yw ffrwythau'r dddear, y tâp coch yw gwaed Crist o gwmpas y byd a'r gannwyll yw Crist, goleuni'r byd. Cyflwynwyd casgliad y Gwasanaeth i Gymdeithas Plant yr Eglwys, sydd yn gofalu am blant gwael a phlant digartref.

Diolchwn i'r plant a'r bobl ifanc am eu haddoliad syml a diolchwn yn arbennig i Mr Ieuan Williams am ei barodrwydd i gludo'r addolwyr a hynny am ddim.

DIOLCH - Dymuna Mrs Jennie Evans, 31 Rhydfadog a'i chyfeillion ddiolch o galon i aelodau Bwrdd Crwn Caernarfon am yr anrheg Nadolig mor ardderchog a gawsant ganddynt. Mae pawb yn ddiolchgar dros ben ac mae Mrs Evans yn dymuno Blwyddyn Newydd Dda iddynt oll.

parhad ar dudalen 12

PENSIYNAU YSWIRIANT MORGAIS

Gwasanaeth newydd i bobl y fro

Robert Jones a'r Cwmni

Ymgynghorwyr Yswiriant a Morgais

SIOP ISAF, 7 HEOL-Y-DŴR,

PENYGGROES

Ffôn: 880027 (24 awr)

Codwch y ffôn heddiw am bris

Mae gennym Gynlluniau Pensiwn, Bywydau, Yswiriant Eiddo, Adeiladau, Cyfrifoldebau, Ceir etc. ar gyfer pawb

ASiantaeth Leol Cymdeithas Adeiladu'r Halifax



SIOP AMAN Stryd Fawr

DEINIOLEN Ffôn: Llanberis 871 210

Mae'r siop yn awr ar ei hail flwyddyn ac yn mynd o nerth i nerth

06190 – O CHWECH I NAW DEG!



**Tudalen i'r
plant: hen
ac ifanc
gan
DYFRIN
Y
DEWIN**

PLE BUOST TI NEITHIWR, FAB ANNWYL DY FAM?

ROEDD Gareth yn eistedd gan sylu'n flin ar ei radio dransistor. Roedd bron yn un ar ddeg o'r gloch y nos, ac yntau wedi bod yn hanner gwrandao ar y radio er tuag wyth o'r gloch y nos, a cheisio gwneud ei dasgau ar yr un pryd. Cododd yn sydyn, a rhoddodd daw ar y radio: lluchiodd ei lyfrau i'w fag ysgol, a rhoi cic iddo o dan y gwely. Yna newidiodd yn ddistaw i'w hen ddillad; agorodd y ffenest, a neidio ar do'r cwt golchi islaw. Yna, un naid arall, ac roedd e ynghanol blodau gorau ei dad. Noson weddol dywyll oedd hi, a bu Gareth am amser yn cynefino â'r tywyllwch, ond yn raddol, daeth i adnabod llwybr yr ardd, a chamodd tuag ato.

Wedi cyrraedd y sied yng ngwaelod yr ardd, newidiodd Gareth yn gyflym i'w esgidiau glaw, ac aeth allan yn ddistaw gan gyfeirio am yr afon. Roedd o bellach wedi ymgynefino'n iawn â'r tywyllwch, ac roedd o hefyd yn gyfarwydd iawn â'r mân lwybrau hyd lan yr afon. Cyn pen ychydig, cyrraeddodd y creigiau duon uwchlaw Pwll Tro, a chwibanodd yn isel. Daeth ateb i'w chwibanodd yn isel. Daeth ateb i'w chiwban, a gwelodd gysgod tywyll yn codi o'r tu cefn i un o'r cerrig.

"Sam?"

"Sut mae, Gar?" atebodd y cysgod. "Roeddwn i'n meddwl i ddechrau nad oeddet ti ddim yn dod."

"O, 'nhad oedd yn hwyr yn mynd i glwydo," meddai Gareth. "Ond anghofia hynny rwan: ydy'r taclau gen ti?"

"Wrth gwrs, fachgen, a fyddwn ni ddim yn hir nes cael rhywbeth heblaw gaiff yn y sach 'ma chwaith." Roedd Sam bob amser yn ffyddiog.

"Ble rydyn ni am gynnig heno?" gofynnodd Gareth, oherwydd Sam oedd yr arweinydd ymhob drwg, a pheth arall, roedd e'n nabod gwely'r afon, ei phyllau a'i cherrig, yn well

na'r un bachgen arall yn yr ardal.

"Mae gen i awydd trio Pwll Tro," meddai Sam. "Ond mae o braidd yn rhy agos i'r ffordd, a dydw i ddim yn edrych ymlaen at redeg o flaen cipar heno! Mi awn ni i lawr yr afon at Lyn Felin – mae samwns yn berwi yn fan'no; ac mae'n well i ni gaffio un neu ddau odd'no cyn iddyn nhw ferwi drosodd!"

Chwarddodd y ddau'n braf; roedd noson fel hyn yn rhoi boddhad mawr iddyn nhw, ac yn peri iddyn nhw anghofio am waith ysgol. Dechreuodd Gareth chwibanu'n ddistaw, ond pe bai o'n gwybod fod y cipar wedi clywed ymgom y ddau, fyddai fo ddim wedi teimlo mor hapus; na'i gyfaill Sam chwaith. Ond i ffwrdd am Lyn Felin yr aeth y ddau, a'r cipar, yn ddarwybod iddyn nhw'n eu dilyn o hirbell; ac yntau, fel y ddau fachgen, yn edrych ymlaen am helfa dda y noson honno.

Roedd Gareth yn gorwedd ar ei hyd ar garreg ynghanol Llyn Felin, gan ddal fflachlamp gref i'r dŵr oddi tano. Wrth ei ochr, roedd Sam, a'r gaff yn barod, yn nesu at gorff y samwn oedd yn gorwedd yn llonydd

yn y dŵr islaw. Rhoddodd Sam blwc sydyn –

"O.K.! Mae o gen i. Dal d'afael."

Ond siaradodd yn rhy fuan: doedd y gaff ddim wedi cael gafael iawn ac erbyn hyn swalpiat'r samwn yn y dŵr ger y garreg, nes gwlychu'r ddau fachgen. Teimlai Sam ei hun yn llithro'n raddol oddi ar y garreg.

"Gafael ynddo fo'r ffwl gwirion!"

"Helpa fi'ta; tyn fi'n ôl gerfydd fy nhraed."

Gafaelodd Gareth yn nwy droed Sam a thynnu. Sythriodd yn ei ôl, a dwy esgid law yn ei ddwylo. Ar yr un pryd, daeth sblash o'r pen arall i'r garreg, a llithrodd Sam ar ei wyneb i'r llyn. Allai Gareth ddim llai na chwerthin.

"Y mul! Rydw i'n wlyb socian ar dy gownt ti."

"Ond Sam bach, nid arna i mae'r bai fod dy welingtons di'n rhy fawr i ti..." Ceisiodd Gareth ei amddiffyn ei hun.

"Hy! Esgus!" meddai Sam, "pe baet ti wedi..." ond orffennodd o mo'i frawddeg. Ar hynny, dyna lamp yn fflachio o'r tywyllwch ar eu hwynebau, a llais yn gweiddi – "Reit, y cnafon! Dyma fi wedi'ch dal chi!"

"Cipar!" gwaeddodd Sam. "Symuda, Gar!"

Ond roedd Gareth yn barod wedi ei gwadnu hi. Rheddodd cyn

gyflymed ag y gallai i lawr ar hyd yr afon tuag at adfeilion yr hen felin. Gwyddai y gallai fo ymguddio yno nes cael ei wynt ato, a chael digon o blwc i fentro adre'n ôl. Roedd e'n weddol sicr hefyd mai yma y deuai Sam os byddai'n ddigon lwcus i osgoi'r cipar.

Ar ôl cripio'i ffordd drwy'r drain a'r mieri hyd ochr yr afon, daeth at furiau'r hen felin. Doedd o ddim am fentro i mewn oherwydd fe wyddai y byddai'r cipar yn weddol siŵr o chwilio yno. Yn hytrach fe aeth heibio i'r drws, ac yn ei flaen at yr hen ffos oedd yn cario dŵr i'r felin.

"Diolch i'r nefoedd fod dŵr bas yn yr afon ar hyn o bryd," meddyliai Gareth.

Fe âi'r ffos ymlaen drwy'r coed am ychydig lathenni cyn mynd tan ddaear ac agor allan yn ôl i'r afon. I'r twnnel hwn roedd Gareth am anelu: gallai guddio yno yn ddigon sicr ei feddwl na ddôl neb ar ei drywydd.

Cyn cyrraedd ceg y twnnel, cododd cysgod tywyll i'r de iddo. Rhaid bod Sam wedi cyrraedd yn barod.

"Sam, wyt ti'n..." dechreuodd Gareth.

Cafodd ergyd ar ochr ei wegil, a disgynnodd Gareth yn swp diymadferth ar y llawr oer. Aeth yn nos arno.

CESTYLL CYMRU

C	N	A	L	D	U	R	H	A	D	N
T	R	R	R	E	U	G	I	O	C	
E	F	C	A	T	H	E	N	F	I	N
I	N	L	U	D	A	R	L	E	D	
C	B	N	I	S	A	G	N	I	C	H
I	D	E	B	N	E	B	N	E	N	
R	R	R	R	R	T	E	L	U	Y	
C	A	E	R	E	F	R	A	O	S	
N	A	A	L	W	A	W	W	Y	D	
C	N	N	R	H	Y	W	N	O	C	



**BECWS
DEINIOLEN**
(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD


**CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR**

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn

AR GAU
SUL,
MERCHER.

Ffôn 291

(yn ystod oriau agor)




GWLÂU SENGL O £39 I FYNY
GWLÂU DWBL O £75 I FYNY
DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES'
O £200 i £800

LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'

5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC
– ALLWCH CHI FFFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

LLUN I'W LIWIO



CESTYLL CYMRU – Mae'r cestyll hyn i gyd wedi eu cuddio yn y sgwâr gyferbyn: CAERNARFON, DOLBADARN, HARLECH, FFLINT, RHUDDLAN, DINAS BRÂN, CILGERRAN, CRICIETH, RHUTHUN, BERE, CONWY, Y WAUN. Mae dau gastell arall ar ôl – defnyddiwyd y llythrennau na ddefnyddiwyd eisoes.

PYSGOD

Fyddai'r pysgod hyn ddim i'w gweld yn afon Seiont, ond gallai rhai ohonoch fod yn eu cadw mewn tanc o ddŵr cynnes yn y tŷ.



PWY YDI PWY?

Mae pob un o'r dynion yn y lluniau uchod yn gwneud gwaith arbennig. Beth yw eu gwaith? Cewch liwio'r lluniau wedyn.

CABS PADARN

FFÔN:

LLANBERIS 871347

Gwasanaeth Tacsï a Bws Mini

Gwasanaeth Maes Awyr a Phorthladd

Unrhyw bellter: Hur Contract

Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth

E. WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 870491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

Cysawyd
nen

DEINIOLLEN (parhad)

CLWB 200 Y SEINDORF – Dyma'r enillwyd am fis Rhagfyr – 1. Rhif 6, £25, Mr H. Owen, Ger Afon, Deiniolen, 2. Rhif 93, £15, Miss J. Jones, 30 Hafod Oleu, 3. Rhif 190, £5, Mrs N. Hughes, Erw Fair. Gwobrau ychwanegol – Rhif 51, £15, Mr E. Hughes, Tai'r Faenol, Rhif 129, £15, Mr J. Lewis, 5 Pentre Helen. Enillwyd mis Ionawr – 1. Rhif 69, £25, Mr W.G. Morris, 13 Tal-y-bont, Llanrug, 2. Rhif 40, £15, Mr O. Parry, 13 Hafod Oleu, 3. Rhif 14, £5, Mr S.H. Roberts, 78 Pentre Helen.

NEWYDDION Y SEINDORF – Er y rhifyn diwethaf o'r Eco bu'r Seindorf mewn llawer o weithgareddau. Fe gynhaliwyd Pwyllgor Blyneddol y Seindorf ar Ionawr 12 yng Nghwt y Band. Yn y gadair roedd Mr Gwyn Parry, B.A., Bro Dawel. Ar ddechrau'r cyfarfod cafwyd adroddiadau boddhaol iawn ar fantolen ariannol am y flwyddyn aeth heibio. Pasiwyd hefyd i'r pwyllgor presennol sefyll am flwyddyn arall. Ond fe ychwanegwyd un aelod newydd sef Mr Howell Lewis, Llys Annedd. Cafwyd cyfle i drin a thrafod amryw o weithgareddau fydd yn cymryd lle yn ystod 1983. Ar ddiwedd y cyfarfod talwyd teyrnged gan Mr Alun Lewis, Rhydfadog i'r trysorydd, ysgrifennydd. a'r llywydd am eu gwaith drwy'r flwyddyn a aeth heibio. Gyda llaw, os am gysylltu â'r

Seindorf cyfeiriad yr ysgrifennydd yw Mr Meirion Jones, Min Afon, Clwt-y-bont. Ar nos Sadwrn Ionawr 22 cafwyd cyngerdd bendigedig yn Llangefni gan Seindorf Deiniolen a Seindorf Porthaethwy (yn chwarae ar y cyd) a Chôr Y Traeth. Ond uchafbwynt y noson oedd perfformiad gan Mr N. Childs un o chwaraewyr gorau yng ngwledydd Prydain ar yr euphoniumum. Ar hyn o bryd mae yn aelod o Seindorf Pwll Glo Grimthorp, Swydd Efrog. Cystadleuaeth gyntaf y tymor fydd yn Pontins. Southport ar ddydd Gwener y Groglith, Ebrill 1.

YR YSGOL FEITHRIN – Mwynhaodd plant yr Ysgol Feithrin leol eu Parti Nadolig ar Ragfyr 9. Daeth Siôn Corn (Mr W. Iolen Hughes) yno i rannu anrhegion a chafodd pawb wledd ardderchog. Enillwyd y raffl oedd – Hamper – G. Jones, Anchorage, Llanrug; Hamper – G. Jones, Anchorage, Llanrug; Hamper – David Worth, Cyw lâr – G. Evans, Gallt y Foel, Coes Oen – Betty, Maes Eilian, Potel Sieri – Elsbeth Griffith, Tros Waun, Tegan Meddal – B. Hughes, 50 Rhydfadog, Llyfrau – Wendy Close, 16 Maes Gwylfa. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd at y parti a'r raffl mewn nwyddau neu mewn arian.

Mae lle yn yr Ysgol Feithrin i blant rhwng dwy a hanner a 3 mlwydd oed. Os oes rhieni â diddordeb cysyllter â Gwen Griffiths, Fron. Ffôn, Llanberis 870 858.



Plant Ysgol Sul Ebenezer a fu'n perfformio yn Nrama'r Geni yn Ffestri Ebenezer.

COLEG PRIFYSGOL CYMRU ABERYSTWYTH

GRADDAU DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG I FYFYRWYR ALLANOL

Mae'r Coleg yn cynnig cynllun gradd BA Prifysgol Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg i fyfyrwyr allanol, a gwahoddir ceisiadau am le o fewn y cynllun yn Hydref 1983. Bydd myfyrwyr allanol yn dilyn cyrsiau yn y pynciau a ganlyn:

RHAN 1 Tri phwnc o blith ADDYSG, ASTUDIAETHAU CREFYDD, CYMRAEG, DRAMA (ASTUDIAETHAU THEATR), HANES CYMRU, LLYDAWEG, CERDDORIAETH

RHAN 2 Anrhydedd Sengl mewn CYMRAEG, neu Anrhydedd Cyfun mewn dau o'r canlynol: ADDYSG, CYMRAEG, DRAMA, HANES CYMRU

Cynigir cynhorthwy arbennig i fyfyrwyr allanol drwy ohebiaeth a chyswllt personol rheolaidd. Darperir nodiadau a chanllawiau manwl ar y cyrsiau, ynghyd â darlithiau ar gasét mewn rhai pynciau.

Astudir Rhan 1 dros 1-3 blwyddyn yn ôl dewis y myfyriwr. Bydd Rhan 2 yn estyn dros 4 blynedd fel arfer.

Gellir cael manylion am y cynllun a ffurflenni ymgeisio oddi wrth y Cofrestrydd, Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Gwahoddir ceisiadau erbyn diwedd Mawrth 1983.

DINORWIG

GOHEBYDD – Cofiwch gysylltwch â'ch Gohebydd, Mr O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Ffôn: 870671) gyda'ch newyddion a lluniau.

DIOLCH – Dymuna Miss Marian Jones, 7 Bro Elidir, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a'i ffrindiau i gyd am eu dymuniadau da, caredigrwydd a'u rhoddion tra'n gorfod mynd a dod bob wythnos ers Gorffennaf i Ysbyty Frenhinol Lerpwl.

Diolch arbennig i'r meddyg teulu a'i swyddogion yn y feddygfa, swyddogion yr ysbyty yn Lerpwl, swyddogion Awdurdod Dŵr Cymru, Penrhos, Bangor ac hefyd Mr a Mrs Emlyn Griffiths, 8 Bro Elidir, Dinorwig. Mawr ddiolch i bawb.

Y GANOLFAN – Yn y rhifyn diwethaf yr oeddym fel pwyllgor yn gallu canmol a diolch, a braf iawn yw cael ailadrodd y mis yma eto.

Longyfarchiadau calonnog iawn i wythawd 'Orwig' dan ei harweinyddes Miss Annette Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol yn ennill y wobr gyntaf yn Eisteddfod Gwaun Gynfi, yn ennill cwpan rhoddedig gan y Ganolfan, ac £8 o wob. Maent wedi bod mor garedig a throsglwyddo'r arian i gronfa'r Ganolfan. Diolch yn fawr iawn i chwi a daliwch ati.

Carem hefyd estyn ein diolchgarwch i garedigion yr Ysgol Sul yn Eglwys Sardis am eu rhodd o dair pynt i Gronfa'r Ganolfan.

*Dros y pwyllgor,
Marian Jones, Trysorydd*

CYMDEITHAS ADDYSG Y GWEITHWYR – Bwriedir cynnal cyfres o bedair darlith ar 'Hanes y Chwareli' o dan nawdd y Gymdeithas uchod, yn y Ganolfan yn ystod mis Mawrth. Y darlithydd fydd Mr Ted Williams, Bangor, ond yn enedigol o Lanberis.

Tâl aelodaeth fydd 60c y noson, a 40c i'r diwaith a phensiynwyr. Estynnir croeso cynnes i chwi ymuno â'r dosbarth.

O'R YSBYTY – Croeso adref wedi triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Môn ac Arfon i Mr Hugh S. Jones, Buarth Newydd a hefyd Mr John E. Thomas, Bwlch Gwynt wedi arhosiad yn yr un ysbyty. Daliwch i wella.

TE PARTI – Yn y Ganolfan pnawn lau, Rhagfyr 17 y llynedd cynhaliwyd te parti Nadolig i'r plant o Ysgol Sul St. Mair a'r pnawn Gwener, Rhagfyr 18 bu te parti i blant Ysgol Sul Sardis. Mwynhaodd y plant hwyl iawn.

CYMUN BENDIGAID UNDEBOL – Bore Nadolig cymunodd aelodau y dair eglwys – Sardis (B), Dinorwig (M.C.) a St. Mair o'r Cymun Bendigaid dan arweiniad y Ficer, y Parchedig Aled Edwards, B.A.

CYMDEITHAS UNDEBOL LLENYDDOL – Nos lau, Rhagfyr 16

1982 yn Eglwys St. Mair, Dinorwig cafwyd cyfarfod o ganu carolau a darlleniadau Beiblaidd. Trefnwyd y cyfarfod gan y Parch Ifor L. Williams (B), Bangor. Cymerwyd rhan yn y darlleniadau gan Mr Hugh Thomas, 1 Bro Elidir, Mr David L. Hughes, 2 Maes Eilian, Miss Marian Jones, 7 Bro Elidir, Mrs Megan P. Morris, Minffordd, Mrs Betty Peris Roberts, 11 Maes Eilian, Miss Ellen Wyn Jones, Ty'n Fawnog, Mr David J. Thomas, Tŷ Capel Sardis.

Y GYMDEITHAS LLENYDDOL – Yng nghapel Sardis (B) nos lau, Ionawr 6 dan nawdd y Gymdeithas cynhaliwyd oefa grefyddol wedi'i threfnu gan Mr Glyn Thomas, 1 Bro Elidir a Miss Annette Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol. Arweinydd y cyfardod oedd Mr Glyn Thomas. Cyfeiliwyd gan Miss Annette B. Roberts. Cafwyd myfyrdod gan yr arweinydd, gyda darlleniadau o'r ysgrythur a barddoniaeth gan yr aelodau canlynol, Miss Ellen Wyn Jones, Mrs Megan P. Morris, Mrs Katie L. Hughes, Miss Olwen B. Roberts. Rhoddwyd datganiad o'r gân 'Cloch yr Eglwys' gan Miss Annette B. Roberts. Cyfarfod a'i naws arbennig ar ddechrau blwyddyn mewn emynau a gwediau. Traddodwyd y fendith gan y Parch Ifor L. Williams (B), Bangor.

SGWRS – Yn y Ganolfan nos lau, Ionawr 20 cafwyd sgwrs ddiddorol ac addysgiadol gan y Ficer, y Parch Aled Edwards, B.A. Olrhainiodd dwf a chysylltiad gwasanaeth y Cymun ym mywyd yr lldew. Bu trafodaeth wedi'r sgwrs. Cyflwynwyd y siaradwr i'r aelodau gan Miss Ellen Wyn Jones, Ty'n Fawnog diolchwyr i'r siaradwr gan Mrs Katie L. Hughes, 2 Maes Eilian.

LLONGYFERCHIR – Miss Olwen B. Roberts, Tŷ'r Ysgol ar ei llwyddiant gyda'r arholiadau yng Ngholeg Technegol Bangor, hefyd ar ei phenodiad i fod yn gynorthwy-ydd plant yn ysgol Llanfairfechan. Pob hwyl i'r dyfodol Olwen.

DIOLCH – Dymuna Mr Hugh S. Jones, Buarth Newydd, Dinorwig ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a ffrindiau, hefyd i'r staff a'r meddygon yn Ysbytai Môn ac Arfon a'r Eryri am bob caredigrwydd a ddangoswyd tuag ato tra bu'n yr ysbytai.

Dymuna Mrs Dilys Williams, Tŷ Capel, Dinorwig ddiolch yn gynnes iawn i bawb am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati tra yn Ysbyty Eryri Caernarfon, ac ar ôl dod adref. Diolch hefyd i'r meddygon a staff Ward Peblig am eu gofal.

CYDYMDEIMLIR – â Mr a Mrs John Peris Roberts, 11 Maes Eilian, Dinorwig a'r perthnasau teuluol eraill ym marw Mr Iorwerth Roberts, Llanberis, sef brawd Mr J.P. Roberts.

CYFLE I DDILYN CWRS ASTUDIAETH LLAWN-AMSER

Coleg preswyl tymor-hir ar gyfer addysg oedolion yw Coleg Harlech, yn cynnig cyrsiau i ferched a dynion dros 21 – yn arbennig y rhai a adawodd yr ysgol yn gynnar – ym meysydd Llenyddiaeth Saesneg, Hanes, Economeg, Athroniaeth, Seicoleg, Gwleidyddiaeth, Cysylltiadau Diwydiannol, Cymdeithaseg, Astudiaethau Cymreig, Iaith a Llên Cymru a Llenyddiaeth Gymraeg.

Y mae cyrsiau Blwyddyn ar gael. Arwain cwrs dwy-flynedd i Ddiploma Prifysgol Cymru sydd â'i statws ei hun ac hefyd yn bodloni gofynion derbyniad Prifysgolion a Cholegau Politechnig ac addysg.

Ceir mynediad drwy gyfweiliad: ac nid oes angen cymwysterau. Y mae grantiau ar gael i fyfyrwyr ac aelodau dibynnol o'u teuluoedd.

Ysgrifenner at y Cofrestrydd, Coleg Harlech, Harlech, Gwynedd LL46 2PU, am y prospectws a ffurflen gais.

COLEG HARLECH

BETHEL

GOHEBYDD— Eich Gohebydd Pentref yw Geraint Elis, Cilgeran (Ffôn: 670726) — cysylltwch ag ef gyda'ch lluniau, newyddion ac ati.

Y NEUADD — Mewn cyfarfod o Bwyllgor y Neuadd a gynhaliwyd yn y Neuadd nos Lun, Ionawr 25 cafwyd trafodaeth ar y broblem a achosir gan swm o gwmpas y Neuadd. Cyfeiriwyd yn arbennig at rai sydd yn mynnu aros ger drws y YMCA bron bob gyda'r nos. Penderfynwyd anfon llythyr i'r Heddlu lleol ar ran Pwyllgor y Neuadd a Phwyllgor y YMCA yn nodi na chaniateir i neb fod ar safle'r Neuadd ar wahân i rai sydd yn mynd a dod o'r YMCA neu weithgareddau eraill a gynhelir yn y Neuadd. Cafwyd ar ddeall y byddai llythyr o'r fath i'r heddlu o gymorth mawr iddynt.

YSGOL FEITHRIN — Dechreuodd yr Ysgol Feithrin ar ôl gwyliau Nadolig efo nifer o blant newydd yn dechrau. Erbyn hyn mae 18 o blant ar lyfrau'r Ysgol Seithrin felly os oes plant bron yn ddwy a hanner oed cysyllter â Mrs Lynwen Morris yr athrawes cyn dod â'r plant i'r ysgol. Ni chaniateir mwy na 20 o blant yn yr ysgol.

Mae Mrs Gwen Williams y trysorydd yn gadael yr ardal i fyw i Fae Colwyn. Mae'r mamau a'r plant yn ddiolchgar iawn iddi hi am ei gwaith efo'r ysgol ac yn dymuno'n dda iddi hi ac lrfon a'r plant yn eu cartref newydd. Y trysorydd newydd yw Mrs Siân Robinson, Cartref.

MAM A'I PHLENTYN — Gobeithir sefydlu 'Mam a'i Phlentyn' yn y pentref dan nawdd yr Ysgol Feithrin. Pwrpas hyn fydd lle i famau ifainc ddod i adnabod ei gilydd a chyfarfod yn y Neuadd i gael paned a sgwrs.

CYDYMDEIMLAD — Ym mis Rhagfyr ar ôl gwaeldd hir bu farw Mrs Mary Closs Jones, Llwyn Peris, Tan y Ffordd. Estynnwn ein cydymdeimlad â Mr Evan G. Jones.

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd â Mrs Roberts, Berwyn wedi marwolaeth sydyn ei mab yn America.

CARNIFAL — Cynhelir noson goffi yn y Neuadd ar Chwefror 11 am 6.30. Yn ystod y noson dewisir brenhines carnifal Bethel am 1983 a'i gosgordd. Gobeithir am gefnogaeth dda.

YR URDD — Bu llond bws o aelodau'r Urdd yn Theatr Gwynedd yn gweld cynhyrchiad o 'Noa'. Mae'r plant wedi dechrau ymarfer at Eisteddfod Cylch yr Urdd, dan arweiniad Mrs Ann Hopcyn Evans.

FFUG EISTEDDFOD — Mae'r ymarfer wedi dechrau ar Ffug Eisteddfod yr Eco gyda'r brwdfrydedd mawr i gadw'r Draenog a enillodd Bethel y llynedd.

MEFCHED Y WAWR — Oherwydd

anffawd methodd Mrs Mary V. Jones, y Waunfawr a bod yn bresennol yn ein cyfarfod ar Ionawr 12. Ar fyr rybudd cymerwyd ei lle gan Collwyn Williams o'r Gwasanaeth Tân yng Nghaernarfon. Diolchwyd iddo gan Mrs Ceinwen Williams, Cefn Gwyn. Gwragedd Nan, Lynwen a Ceinwen. Llongyfarchwyd Mrs Nan Rowlands ar enedigaeth bachgen bach. Croesawyd i'n plith Mrs Ginsberg, — un sydd wedi dysgu Cymraeg. Bydd Mrs M.G. Williams, Gwylfa yn derbyn stampiau oddi ar hen amlenni, eu casglu er budd Cronfa'r Anabl. Y tro nesaf ceir sgwrs ar brynu cig gyda Mr Michael Thomas o Gaernarfon.

BETHEL — Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o'r flwyddyn o Sefydliad y Merched (W.I.) yn yr ysgol ar Ionawr 20 gyda Mrs Ellen Jones yn y gadair. Croesawyd Mr a Mrs Harry Harrison, Bakita a rhoddodd hanes ei daith i Israel a gwledydd o'r Beibl a Taith Iesu Grist. Yr oedd pawb wedi ei mwynhau. Rhoddwyd y te gan Mrs Joyce Jones, Llanrug a Mrs Gwyneth Williams, Llain yr Ardd. Cydymdeimlwyd â'r rhai mewn profedigaeth ac mewn gwaeldd. Gobeithio y cawn eu croesawu yn ôl yn fuan. Enillwyd y raffl gan Mrs Elizabeth Williams, Tan y Bryn. Bydd ein cyfarfod nesaf ar Chwefror 17.

DIM CYMRY CYMRAEG ALLAN O WAITH

DYMA'R casgliad y daeth Rheinalt Thomas, Trefnydd y Ganolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol iddo. Hysbysebwyd 7 o swyddi drwy gyfrwng y ddau bapur (Executive Post a Graduate Post) a yrrir i'r diwaith cofrestredig ac fel canlyniad i hynny ni ddaeth yr un cais i law gan Gymry Cymraeg. Derbyniwyd nifer o geisiadau gan Gymry di-Gymraeg a chan Saeson o gyn belled â Llundain ond beth am Gymry Cymraeg Gwynedd? "A ydynt i gyd mewn gwaith ynteu ydi'n well ganddyn nhw fod yn segur nag yn gweithio?" gofynnodd Mr. Thomas.

'Roedd y swyddi yn agored i unrhyw un efo cymwysterau coleg a neu athro i'w hapwyntio ar un o ddau gynllun, — y naill i hybu gwybodaeth am anghenion y Trydydd Byd a'r llall i gyfaddasu deunyddiau clyweledol i'r Gymraeg. Oherwydd fod y swyddi yn cael eu cynnal dan nawdd Comisiwn



Plant Adran Iau, Ysgol Gynradd Bethel a dderbyniodd amrywiol dystysgrifau nofio yn ddiweddar.

Gwasanaethau y Gweithwyr rhaid i'r rhai a apwyntir fod wedi bod yn ddiwaith ers 6 mis os ydynt o dan 25 oed neu am flwyddyn os ydynt dros 25 oed.

"Buaswn yn falch o allu rhoi'r swyddi i gyd i Gymry Cymraeg," meddai Mr. Thomas, "ond gwae neb am ein beio yn cyflogi rhai di-Gymraeg oherwydd y nhw yw'r rhai sy'n ymgeisio." Fe gafwyd rhai Cymry Cymraeg drwy gysylltiadau personol ond yr hyn sy'n peri gofid i Mr. Thomas yw ei fod yn disgwyd cadarnhad am rhyw 15 swydd arall cyn bo hir ac na fydd y Cymry Cymraeg yn ymgeisio eto. Felly, os oes unrhyw un sy'n darllen hwn yn credu bod ganddyn nhw'r cymwysterau a'r diddordeb dylent gysylltu â Mr. Thomas yn y Ganolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol, C.P.G.C., Santes Fair, Lôn Pobty, Bangor ar fyrder. (Ffôn — Bangor 51151, Est. 6109) — hwyrach y cewch waith i ddechrau'r wythnos nesaf — felly brysiwch!

DUWIAU BAAL YNTEU DUW ABRAHAM ...?

DYNA i chi wreiddyn y ddadl fawr a fu rhwng Eleias, y Proffwyd o'r Hen Destament, a dilynwyd duwiau Baal ar fynydd Carmel ganrifoedd yn ôl — ac yn wir, y mae'r frwydr yn dal yr un, hyd yn oed heddiw. Yn wyneb yr holl gau-dduwiaeth sydd yn ein cymdeithas ni, addas iawn yw bod Côr Coleg y Brifysgol Bangor yn ail greu digwyddiadau Mynydd Carmel drwy berfformio campwaith y cyfansoddwr o Gristion, Felix Barthody Mendelssohn, *Elijah* ar nos Iau,

Mawrth 17eg, 1983 am 7.30 p.m. yn Neuadd Pritchard Jones, Y Coleg Uchaf, Bangor.

Fe gofiwch yr hanes, mae'n siŵr — (fe'i gwelir yn Iaf Brenhinoedd Pennod 18) — sut y bu i Eleias drechu dilynwyd Baal, er cymaint y gwrthwynebiad, yn nerth Ysbryd Duw.

"Myfi fy hunan wyf yn fyw o broffwyd yr Arglwydd," meddai Eleias, "ond proffwyd Baal ydynt bedwar cant a dengwr a deugain. Os yr Arglwydd sydd Dduw, ewch ar ei ôl ef, ond os Baal, ewch ar ei ôl yntau ..."

Maith fu'r profi, y galw a'r gweddio. Afraid yw dweud mai'r unig Dduw a gafodd y fuddugoliaeth derfynol.

Llwyddodd Mendelssohn i gyfleu golygfa drawiadol mynydd Carmel trwy gyfrwng Cerddoriaeth ddarluniadol a hynod ddramatig. Gwrthgyferbynnir nodweddion cyffrous y Côr gan addfwynder a thynwch Eleias (Bâs), tra bo'r Weddw (Soprano), Yr Angel (Alto) ac Obedeia (Tenor) hwythau, yn chwarae rhan amlwg yn nigwyddiadau'r dydd. Lleisiau disgybledig Janet Price (Soprano), Margaret Cable (Alto), Neil Jenkins (Tenor) ac Ian Caddy (Bâs) a glywn ni eleni, ynghyd â chefnogaeth cantorion ymroddedig Bangor a'r Cylch.

Estynnwn groeso cynnes i chwi i ymuno â ni:

"Canys un Duw sydd, ac un cyfryngwr hefyd rhwng Duw a dynion, y dyn Crist Iesu."

(Iaf Timotheus 2 ad. 5)

Ceir tocynnau ar gyfer y cyngerdd uchod oddi wrth Ysgrifenyddes, Yr Adran Gerdd, C.P.G.C., Bangor. Rhif ffôn: Bangor 51151 Est. 301 (rhwng 9.00-10.30 a.m.; 2.00-3.00p.m.)

**MODURDY
MENAI**



**FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI**

Ffôn: Y Felinheli 670882
Perchennog: J. Evans

SCIPIAU TIM



o £16

**CYTUNDEB DYDDIOL
NEU WYTHNOSOL**

LLANBERIS 871354

**Wil a Val Guy
TREFLYN
STORES
BETHEL**

Ffôn: Y Felinheli
670237

Stoc helaeth o ddillad plant
Legwarmers (£1.70)
Anklewarmers (95c)
Snwcer — sialc, tips
Ciws Riley — a byrddau hefyd
os dymunwch
Teganau, Diodydd, Melysion,
Bwydydd a Dafedd

LLANRUG

GOHEBYDD – Eich Gohebydd Pentref yw Mrs Eirlys Pierce, Swyn yr Awel (Ffôn: 3776). Cysylltwch â hi gyda'ch lluniau a'ch newyddion os gwelwch yn dda.

MERCHED Y WAWR – Yn absenoldeb Mrs Ann Llwyd llywyddwyd gan Mrs Bethanne Williams. Soniodd am weithgareddau pwyllgor rhanbarth yr Anabl, a'i bod yn awyddus i bob aelod helpu i gasglu hen stampiau post. Byddai Bethanne yn ddiolchgar iawn pe llwydddech i gael pentwr da iddi.

Y gŵr gwadd oedd y cigydd, Mr Michael Thomas, o Gaernarfon. Testun ei sgwrs oedd 'Cig Oen'. Yr hyn â'i poenai oedd fod gwraig y tŷ yn prynu llai o gig oen yn y blynyddoedd diwethaf yma, a beth tybed oedd y rheswm am hyn? Credai ef mai oherwydd y braster. Heddiw mae'r ffermwr yn gwneud ei orau i oresgyn y broblem yma. Gan fod y cig yn cael ei raddio mae'n talu iddo gynhyrchu'r gorau.

Daeth Michael â dau hanner oen i'w arddangos – cig o'r radd orau (Grade I). Yr oedd un hanner ar yr asgwrn, a'r hanner arall wedi ei ddadesgyrnu. Mae'n cymryd deng munud i'r cigydd â'i gyllell finiog i dynnu'r esgyrn a'r braster, a gwneud rholyn taclus o'r cig coch yn unig. Credai ambell un o'r merched mai darn o'r rholyn coch fuasai eu dewis hwy, tra credai eraill mai darn o gig ar yr asgwrn fyddai fwyaf blasus.

Diolchwyd i Mr Michael Thomas gan Mrs Whiteside Thomas. Rhoddwyd y te gan Mrs Beryl Thomas, Mrs Whiteside Thomas, Mrs Amy Smith, Mrs J.M. Jones, Mrs N. Griffith a Mrs Brierley. Diolchwyd iddynt gan Mrs Meirwen Lloyd. Enillydd y raffl oedd Mrs Joan Griffith, Pant Tirion.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn yr Ysgol Gynradd nos Fawrth, Chwefror 8. 'Yn Fy Meddiant I' yw pwnc y sgysiau y noson honno.

Gofynnir i bawb sy'n dymuno dod i ddathlu Gŵyl Ddewi i Westy'r Foelas ar Fawrth 8 roi eu henwau a'r arian i Mrs Margaret Parry neu Mrs Olwen Hughes yn y cyfarfod nesaf neu erbyn Chwefror 28 fan bellaf. Bwydlen – Cyw lâr - £1.60; Scampi - £1.95.

DIOLCH – Dymuna Gareth Griffith, Goleufryn a theulu Brynclwyd, 15 Ffordd Deiniol, Deiniolen ddiolch o galon i bawb a fu mor garedig tuag at leuan tra bu'n Ysbyty Walton Lerpwl ac am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd.

DIOLCH – Dymuna Mrs A. Williams, Llys Orwig, Ffordd yr Orsaf, ddiolch i'w merch a'i mab yng nghyfraith, Mr a Mrs Arthur Jones, 18 Hafan Elan am baratoi parti iddi ar achlysur ei phenblwydd yn 80 oed ar Ragfyr 22. Mae Mrs Williams hefyd yn dymuno blwyddyn newydd dda i bawb gan ddiolch am yr anrhegion, cardiau a thelegram.

DIOLCH – Dymuna Clwb Peldroed Llanrug ddiolch i Mrs Dilys Jones, a thrigolion Hafan Elan am drefnu Noson Goffi yn ddiweddar er budd y Clwb. Gwnaethpwyd elw o £65 ar y noson.

LLONGYFARCHIADAU i Rheon ac Einir Thomas (Caerdydd) ar enedigaeith mab, Aled ar Ragfyr 21, ŵyr i Mr a Mrs R.O. Thomas, Gerallt.

BEDYDDIO – Brynhawn Sul, Ionawr 23 yn y Capel Mawr, bedyddiwyd Gareth Wyn, mab bychan Mr a Mrs Wynford Lloyd-Davies, 18 Talybont. Gweinyddwyd gan y Parch W.O. Roberts, Manod.

DIOLCH – Dymuna Mrs Mari Pritchard, Hafan Elan ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau yn Llanrug a

Llanberis am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn 80 oed.



CLWB BLODAU'R GRUG – Cynhaliwyd gwasanaeth Naw Llith a Charolau yng Nghapel Hermon. Yr arweinydd oedd Mr Orwig Roberts, Elidir View a'r organydd oedd Mr J.G. Jones, Ger-y-Ffynnon. Cymerwyd rhan gan y Parch E.W. Blainey, y Parch W.O. Roberts, y Parch A. Jones Williams, Mr Cledwyn Williams, Tŷ'r Ysgol, Mr Emrys Owen, Hafan Elan, Mrs C. Jones-Evans, 39 Bro Rhyddallt, Mrs Myfi Roberts, 2 Tai Plastirion a Mrs J. Parry, Morannedd. Llywyddwyd gan Mr John Williams, Gweledfa. Diolchwyd gan Mr Ifor Williams, Gwelfryn, Mrs M.L.I. Williams, Llys Awen a Mrs A. Smith, Llechwedd. Enillwyd y raffl (rhoddedig gan Mr Cledwyn Williams) gan Mrs Ifor Williams, Gwelfryn.

Nos Wener, Ionawr 14 mwynhaodd aelodau'r Clwb eu cinio blynyddol yng Ngwesty'r Foelas gyda Mr Cledwyn Williams yn diddori gyda gemau. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Fawrth 10.

HAFAN ELAN – Nos Fawrth Rhagfyr 21 cafodd y trigolion a rhai ffrindiau wleda drefnwyd gan Mrs D. Jones, y Warden. Yn dilyn, treuliwyd awr hapus iawn yng nghwmni Mr Raymond Jones.

Dymunwn fel trigolion y stad ddiolch o galon i Mrs Jones am y trefnu a'r paratoi ar gyfer y noson.

CYDYMDEIMLWN fel cymdogion â Mrs M.M. Williams, 25 Hafan Elan, yn ei phrofedigaeth o golli ei merch, Mrs M.E. Parry, Bethesda.

CYFARFOD GWEDDI – Bu cyfarfodydd blynyddol dechrau'r flwyddyn yn y Capel Mawr. Nos Lun cymerwyd rhan gan y Parch W.O. Roberts, Mr Iolo Llywelyn a Mrs Nansi Roberts. Cyfeiliwyd gan Mrs Anwen Roberts, Elan Wen. Nos Fawrth, cymerwyd rhan gan Mrs Beryl Thomas, Gerallt, Mrs Nansi Lovatt, Brwynog a Mrs Carys Jones, Llys Mŷfyr, Bethel. Cyfeiliwyd gan Mrs Mair Jones, Ogwen.

CYMDEITHAS LENYDDOL CAPEL MAWR – Cafwyd noson ddiffr dan arweiniad Mr J.G. Jones, Ger-y-Ffynnon. Cyflwynodd Mr Jones amryw o recordiau a chasetiau gwerth gwrando arnynt. Llywyddwyd gan y Parch W.O. Roberts. Rhoddwyd y te gan Mrs J.M. Jones, Ger-y-Ffynnon a Mrs Nansi Lovatt, Brwynog. Cynigiwyd y diolchiadau gan Mr J.W. Owen ac ategwyd gan Mr J. Williams, Gweledfa.

CYDYMDEIMLAD – Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r canlynol yn eu profedigaeth:

Mr Geraint Parry, Bro Dawel a Mrs David McKinnon, Fferm Plastirion, ar farwolaeth eu tad.

Mrs Hughes Jones, Sŵn y Gwynt ar farwolaeth ei chwaer yng Nghaernarfon.

Mrs Betty Hughes, Gorffwysfa, ar farwolaeth ei brawd yng Nghaernarfon a Mrs R. Griffiths,

Orwig House ar farwolaeth ei chwaer.

CYDYMDEIMLIR â Mrs Sally Jones, 29 Bro Rhythallt, ar farwolaeth ei thad, Mr George Williams.

CYFARFOD SEFYDLU – Nos Wener Ionawr 28 bu Cyfarfod Sefydlu y Parchedig Huw Gwynfa Roberts, yn weinidog ar ofalaeth Brynrodyn, Brynrhos, Bwlan, Glanrhyd a Rhostryfan.

Cyn symud yr oedd Mr Roberts yn weinidog ar yr Eglwys Cymraeg ym Manceinion.

Llywyddwyd y cyfarfod ym Brynrodyn gan y Parch Trevor Jones, Engedi a chroesawyd Mr a Mrs Roberts ar ran yr Henaduriaeth gan y Parch W.O. Roberts, Llanrug.

Brodor o Bonrhythallt yw Mr Roberts, yn fab i'r diweddar Mr G.H. Roberts, a Mrs Roberts, Hedsor Villa a Mrs Roberts yn hanu o Lanberis, yn ferch i'r diweddar Mr a Mrs Wm. Davies.

Daeth llond bws o'i ofalaethau ym Manceinion i ddyuno yn dda iddynt yn yr ofalaeth newydd.

PARTI YSGOL SUL – Ddechrau Ionawr cafodd plant Ysgol Sul, Ponrhythallt eu parti blynyddol, wedi ei ddarparu gan athrawon a swyddogion yr Ysgol Sul. Derbyniodd y plant rodd o arian, a diolchwyd ar eu rhan gan Mrs Dianne Thomas.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL – Caed noson arbennig yn y Gymdeithas Undebol ar Ionawr 18 yng nghwmni Mr Edward Morris Jones, Llandegfan. Cafwyd eitemau o ganeuon efo'r gitâr ganddo. Llywyddwyd gan Mrs Williams, Bod Fair, a thalwyd diolch gan Mrs W.A. Jones.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Ifor Williams, Gwelfryn, Groeslon Marc, Llanrug ar ddathlu eu priodas Ruddem ar y 3ydd o Chwefror.

GWASANAETH NEWYDD

yng nghylch Eco'r Wyddfa

TRIN GWALLT YN EICH CARTREF

Linda

MOBILE HAIRDRESSER

Lliwedd

Ffordd Glanmoelyn

Llanrug

Ffoniwch

CAERNARFON 3674

am fwy o fanylion



SETIAU
TELEDU LLIW
AIL LAW
MEWN CYFLWR
RHAGOROL
SIOP DELEDU

T. CEPAS

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG

Ffôn: Llanberis
870205

Awdurdod Datblygu Cymru

A ydych chi mewn busnes?

A ydych chi'n meddwl cychwyn ar eich pen eich hun?

Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.

Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.

Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar gael i rai mathau o weithgareddau.

Mae eich swyddfa leol ym Mangor. Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un o'n cynghorwyr; cewch drafod eich syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.

Uned Diwydiannau Bychain,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Llys Garth, Ffordd Garth,
Bangor. Ffôn: Bangor 52606

Welsh Development Agency

BETHEL

GOHEBYDD – Eich Gohebydd yw Mr Dafydd Ellis, Gwledfa (Ffôn: 871223). Cysylltwch ag ef gyda'ch lluniau, newyddion ac ati.

MARWOLAETH – Tachwedd 28, bu farw Miss Mary Ellen Hughes, Gorswen mewn ysbyty yn Wrecsam. Roedd wedi byw mlynrefail ers tua 45 o flynyddoedd, ac yn gymeriad annwyl iawn, cymwynasgar, ac yn neilltuoel o siriol bob amser. Bu'n aelod ffyddlon a gweithgar yn y capel ar hyd ei ho. Mae'n cydymdeimlad yn fawr â Mrs T. Dempster Jones a'r teulu.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Yng nghyfarfod mis Ionawr, cafwyd arddangosiad defnyddio peiriant gwau gan Mrs Alwen Mai Roberts. Darparwyd y te gan Jinnie Hughes a Jinnie Williams. Rhoddwyd anrheg y mis gan Mrs Griffiths ac fe'i enillwyd gan Helen Jones.

CLWB Y MAMAU – Yng nghyfarfod mis Ionawr, croesawyd dwy aelod newydd, sef Mair Williams a Jennie Roberts. Cafwyd noson ddiffr iawn yng nghwmni Pat Jones – peintio lluniau ar gerrig môr llyfn. Enillwyd cystadleuaeth addurno carreg gan Rhian Jones. Rhoddwyd y te gan Moira Ellis a Jackie Jones. Enillwyd anrheg y mis (rhodd Pat Jones) gan Helen Jones.

NADOLIG Y PLANT – Carem ddiolch i'r rhai a fu'n gyfrifol am drefnu'r ddrama Nadolig ar Ragfyr 20 a'r te parti gydag ymweliad Sion Corn ar Ragfyr 23. Cynhaliwyd y ddau achlysur yn y Festri ac fe wnaed casgliad yn ystod y cyfarfod. Diolch i'r plant am gymryd rhan, ac i'r rhai a fu'n eu hyfforddi.

DYWEDDIAD – Llongyfarchiadau i Mair Eleri Roberts, Glandŵr ar gyhoeddi ei dyweddïad â Simon John Nixon o Lanelwy. Dymunwn bob bendith a llwyddiant i chi yn y dyfodol.

CLWB PEDWARUGAIN – Enillwyd mis Rhagfyr 1982. Rhagfyr 2 – 1. Gary Jones, 2. Aled Green, 3. Alwyn (Raca). Rhagfyr 9 – 1. Meurig Jones, 2. Gwyn Mowll, 3. Sue Jones. Rhagfyr 16 – 1. Megan (sir Fôn), 2. Dafydd Ellis, 3. Euronwy Roberts. Rhagfyr 23 – 1. Seth Thomas, 2. Delyth (Cae'r Bythod), 3. Jill (Siop Ganol). Rhagfyr 30 – 1. Elwyn Jones, 2. Maldwyn Jones, 3. Islwyn Williams.

Yn ystod yr wythnosau'n arwain at y Nadolig, fe gymerwyd Mrs Gwyneth Jones, 12 Tremeilian yn wael. Bu yn yr ysbyty am gyfnod byr, ond da oedd ei gweld adref ac yn gwella mor fuan. Mae Mrs Jones wedi rhoi gwasanaeth ffyddlon i'r Eco ers y cyhoeddiad cyntaf, drwy ei ddosbarthu yn Nhremeilian. Diolch i Mr Jones am ymgymryd â'r gwaith o ddosbarthu'r Eco tra bu Mrs Jones yn wael – a dymunwn adferiad llwyr a buan i Mrs Jones.

Hefyd yn Nhremeilian, dymunwn adferiad buan i Mrs Margaret Jones a Mrs Monica McCafferty ar ddod adref o'r ysbyty. Dymunwn yn dda hefyd i Mrs Annie Evans, Tremeilian a Mrs J. Roberts, Ffrwd Goch. Trist y datgan fel hyn fod amryw o'r darllenwyr heb fod yn dda eu hiechyd, ac mae'n siŵr fod rhai eraill na ddaeth i sylw eich gohebydd. Manteisiwn felly ar y cyfle hwn i ddymuno iechyd a bendith i bawb yn y flwyddyn newydd.

TAITH GERDDED – Yn ystod mis Rhagfyr bu aelodau Ysgol Sul Brynrefail (M.C.) ar daith gerdded noddedig. Roedd y trefniadau yng ngofal Miss A.M. Williams, Llys Arfon a Mr G.W. Williams, 3 Tai Orwig a dymunant ddiolch i'r rhai oll a gymerodd ran yn y daith ac i'r noddwyr am eu cefnogaeth hael. Gwnaed elw o £130 tuag at 'Apel Eglwys Bresbyteriaid Cymru 1982' er budd anffodusion Rajasthan a Calcutta.

CYMNUNWYR IEUAINC – Nos Sul, Rhagfyr 19eg mewn gwasanaeth arbennig dan arweiniad y Parch S.O. Hughes, Bethel, derbyniwyd saith o ieuencid yn gyflawn aelodau yn Eglwys Brynrefail (M.C.). Anerchwyd y cymunwyr ieuainc ar yr achlysur gan Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed a chyflwynodd gyfrol o'r Testament Newydd ar ran yr Eglwys i'r saith sef Einir Evans, Min-y-don, Christine Jones, 5 Trem Eilian, Delyth Roberts, 8 Trem Eilian, Llinos Roberts, Llwyncoed Bach, Kathy Williams, Marino, Robin Jones, Ty'n Twll a Terry Jones, Cae Coch. Gweinyddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd ar derfyn yr oedfa.

CYFARFOD GWEDDI – Cynhaliwyd y Cyfarfod Gweddi Blynnyddol ar ddechrau Blwyddyn Newydd nos Fawrth Ionawr 4ydd. Cymerwyd rhan gan Mri. R.W. Evans, Ty'n Buarth, G.W. Williams, 3 Tai Orwig a D.G. Ellis, Gwledfa.

SIBRYDION O'R YSGOLION

TAITH I GILMERI

Ddydd Sadwrn, Rhagfyr 11, 1982, aeth pump o ddisgyblion yr ysgol, sef Meinir a Manon Dauncey Williams, Lynne Hardwidge, Iwan Roberts a Dewi Lewis, gyda Miss Rhiannon Ellis ar daith i Gilmeri, lle trefnwyd cyfarfod arbennig i goffáu saith ganmlwyddiant marw Llywelyn. Yn ystod y seremoni wrth y maen yng Nghilmeri, derbyniodd pob un o'r plant sgrol gan Geraint Bowen, y Cyn-Archdderwydd, yn cynnwys Anerchiad i Ieuencid Cymru a gyfansoddwyd yn arbennig ganddo ef ar gyfer yr achlysur.

Wedi gorymdeithio o Bont Irfon i dref Llanfair-ym-Muallt, treuliwyd gweddill y diwrnod yng Nghanolfan Glan Gwy, yn gwrando ar anerchiadau, darlith gan Hywel Teifi Edwards, ac yn mwynhau ffilmiau ac adloniant a drefnwyd ar gyfer plant. Bu'n ddiwrnod hir ond diddorol a bythgofiadwy.

ARHOLIADAU


Y mis hwn, mae dosbarthiadau 5 a 6 yn brysur iawn gyda'u harholiadau. Pob hwyl i bawb!

ATHRAWON NEWYDD

Ar ddechrau tymor newydd arall yn yr ysgol, croesawn yr athrawon newydd i'n plith. Mrs Glenys Lloyd, Mrs Glenys Hefina Morgan, a Mrs Rosmary Perry. Pob hwyl iddynt yn eu swyddi newydd, a gobeithio y byddant yn ymgartrefu'n fuan.

CADET ARBENNIG

Y mae Marc Adrian Williams o Lanrug ar ei bumed flwyddyn yn yr ysgol wedi ei ddewis yn "Lord Lieutenants' Cadet". Y mae hyn yn golygu fod Marc, sydd wedi bod yn aelod brwd o'r cadets ers blynnyddoedd, wedi gwneud yn well



nag unrhyw gadet arall yng Ngwynedd. Dewiswyd ef ar sail ei berfformiad mewn amryw orchwylion a gweithgareddau dros gyfnod o amser. Haedda ei longyfarch yn frwd iawn am gyflawni camp mor arbennig.

PÊL-DROED

Cwpan A.B.L. i fechgyn dan 12 oed (y flwyddyn 1af): Ysgol Caergybi 4, Brynrefail 0.

Cwpan yr Urdd dan 15 oed: Ysgol Brynrefail 2, Ysgol Glan-y-Môr Pwllheli 1.

Ar Ionawr 23 bu Kevin Jones o Ddinorwig yn chwarae i dîm ysgolion gogledd Cymru dan 15 oed yn erbyn Ysgolion Dulyn yn y Rhyl. Fe enillodd y gogledd 2-0.

Gemau cyfeillgar:

Blwyddyn 1: Brynrefail 0, Ysgol Segontium 8.

Dan 13: Brynrefail 2, Ysgol Segontium 3. Caergybi 5, Ysgol Brynrefail 2.

Dan 15: Caergybi 4, Ysgol Brynrefail 0.

GWYLIAU PASG MERCHED Y WAWR 1983

Pryd? – EBRILL 4-9

Ble? – LLYDAW

(gyda Chwmni Math, Aberystwyth)

LLE i 50 (hanner cant) ar y bws cysurus: aros mewn dau le Gwengamp a Kemper. Croesi ar fferi Llydaw a chabanau i bawb ar y llong: gwestyau gydag ystafelloedd i ddwy a chyfleusterau.

Y tâl am y cyfan o gwmpas £135 (blaendal £50).

Bydd gennym gwrier (arweinydd) sydd yn Llydaw neu'n Llydawes sy'n medru'r Gymraeg.

Os yw'r gwyliau hyn o ddiddordeb i chi gellwch gael manylion pellach oddi wrth Mair Elvet Thomas, Tre Llywelyn, 26 Gerddi Plasturton, Caerdydd CF1 9HF.

Cofiwch mai lle i 50 yn unig sydd ar y bws ac mai'r cyntaf i'r felin gaiff falu. Cewch wyliau cyfan gwbl Gymraeg, os llenwir y bws.

Bydd yn gyfle gwyh i ddod i 'nabod rhai o'n cyd-Geltiaid yn un o wledydd mwyaf diddorol Ewrop, sef Llydaw.

CEUNANT

GOHEBYDD – Eich Gohebydd yw Mr Ifan Parry, Morwel (ffôn: 321). Cysylltwch ag ef gyda'ch newyddion, lluniau ac ati.

ENNILL GRADD UWCH – Yn ddiweddar cafodd Richard Ellis Owen, Bryn y Maen wybodaeth iddo ennill gradd M.A. Prifysgol Cymru.

Wedi graddio gydag Anrhydedd yn y Gyfraith aeth i ddilyn cwrs Addysg ym Mhrifysgol Aberystwyth, ac ymgymeryd â chwrs pellach dwy flynedd o ymchwil mewn Addysg Arbennig yng Nghymru, – mewn

'Community Home Schools'. Canolbwyntiodd ei ymchwil ar ddwy ysgol, – un yn Ne Cymru, a'r llall yn y Gogledd.

Cyn-ddisgybl yw Richard o Ysgol Uwchradd Brynrefail, Lanrug ac ar hyn o bryd yn Bennaeth Adran yn Ysgol Uwchradd Dyffryn Ogwen, Bethesda.

CROESO ADREF – o'r ysbyri i Mrs Eluned Ellis Owen, Bryn Maen ar ôl derbyn llawdriniaeth. Dymunwn wellhad llwyr a buan iddi.

EISTEDDFOD GADEIRIOL Y GROESLON

Mawrth 25ain a'r 26ain 1983

Testunau drwy'r post oddi wrth:

Eirug Wyn (ysgrifennydd),

Gorwelion, Y Groeslon, Caernarfon.

GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

COFADEILWAITH O BOB MATH
MEWN LLECHI A GWENITHFAEN
GAN GREFTWYR LLEOL

PENISARWAUN

GOHEBYDD—Eich Gohebydd Pentref yw Mrs Mary Davies, 9 Llys-y-Gwynt (Ffôn: 872329). Cysylltwch â hi gyda'ch storïau, newyddion, lluniau ac ati.

LLONGYFARCHIADAU i Mr Alwyn Jones, Raca Bungalow ar ei benodi yn bennaeth modurdy Swyddfa'r Post yng Nghwm Brân, Gwent.

Mae Alwyn eisoes wedi dechrau ar ei waith. Dymunwn bob llwyddiant iddo yn y dyfodol.

YR YSGOL FEITHRIN — Gan fod cymaint o absenoldeb wedi bod yn yr Ysgol Feithrin y tymor diwethaf oherwydd salwch ac ati ymysg y plant, ac o gofio cymaint o absenoldeb fu yn ystod y tymor yma y llynedd oherwydd y tywydd garw, pasiwyd i ohirio cynnal y dosbarth am y tymor hwn.

Teimlid y buasai'n drueni mawr i ddileu'r dosbarth meithrin yn gyfan gwbl gan ei fod yn sefydliad mor werthfawr i'r plant bach sydd ar gofrestr y dosbarth.

Carai'r ysgrifenyddes ymddiheuro i unrhyw un sydd wedi dod i'r ysgol feithrin y tymor hwn cyn i'r nodyn yma ymddangos yn yr 'Eco'. Ond disgwylir y bydd pawb yn cyd-gyfarfod yn rhoelaidd etp pan ailagorir yr ysgolion ar ôl gwyliau'r Pasg.



Plant yr Ysgol Feithrin yn mwynhau eu parti Nadolig.

EGLWYS Y SANTES HELEN — Mae cyfnod y Nadolig yn un prysur a chyffrous, ac nid oedd eleni yn wahanol i'r arfer. Cafwyd cyfarfodydd llwyddiannus iawn ac yn eu plith saif gwasanaeth y 'Christingle' a gynhaliwyd prynhawn dydd Sul Rhagfyr 19 fel un o uchafbwyntiau'r Wyl yn y pentref. Daeth plant yr Ysgolion Sul i gyd ynghyd i'r gwasanaeth a da oedd gweld cynifer o rieni a chyfeillion yn cefnogi'r plant a'u hathrawon. Llongyfarchiadau i'r plant am ymdrech mor ragorol ac i chwithau'r athrawon am eu hyfforddi a diolch yn arbennig i'r gŵn bonheddig hwnnw am roddi'r orennau (75 ohonynt) a melysion yn anrheg i'r plant. Fe gasglwyd £19.00 yn ystod y gwasanaeth ac fe'i hanfonwyd i Gronfa'r Gwahanglwyfus.

Bu gwasanaeth o Gymun Bendigaid ar Noswyl y Nadolig a daeth nifer dda o'r plwyfolion

ynghyd iddo. Ar ddydd lau Rhagfyr 23 cynhaliwyd parti yr Ysgol Sul yn Neuadd yr Eglwys a daeth Siôn Corn heibio i rannu anrhegion ymysg y plant.

CYDYMDEIMLWN â theulu'r diweddar Mr Iorwerth Griffith, Bryn Tirion yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad a thaid annwyl.

CYDYMDEIMLWN — fel eglwys â Mrs Gwennie Lewis, 6 Llys y Gwynt yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer, y ddiweddar Mrs Amy Rowland. Fe fu Mrs Rowland yn aelod ffyddlon o Eglwys y Santes Helen ac fe fu hefyd yn drefnydd aelodaeth o Undeb y Mamau.

Dymunwn wellhad buan i Mr Nathan Jones, 5 Bryn Hyfryd, Mr William John Williams, Cae Corniog a Mrs Abbott, Bryn Tirion sydd yn yr ysbyty ac hefyd i Mr B. Porter, Llys y Gwyn, Mrs N. Roberts, Vine Cottage a Mrs N. Hughes, Llaletot sydd wedi dod adref o'r ysbyty.

Llongyfarchiadau i Carys Wyn Griffiths, Carys Wyn Williams, Rhian W. Williams ac Yvonne Evans ar gyrraedd eu deunawd oed.

Cydymdeimlwn â Mrs M. Adlam a'r genod yn eu profedigaeth o golli chwaer i Mrs Adlam. Roedd y ddiweddar Mrs Catherine Watson yn byw yn Weston Super Mare. Hefyd cydymdeimlwn â theulu'r ddiweddar Mrs N. Ffoulkes o Gaernarfon (Nancy Stabla gynt) a chydymdeimlwn â Mrs M. Evans, Bryn Eithin, Waun gynt ond yn awr o Lanfairpwllgwyngyll. Fe golodd Mrs Evans ei mab 7 oed, Ted, a oedd wedi ymfudo i Seland Newydd.

Croesawn Mr a Mrs Grindle a'r plant i'n mysg. Maeng wedi dod i fyw i Fferm Tan y Coed.

DIOLCH — Dymuna Mrs M. Jones, 5 Llys y Gwynt ddiolch i'w chymdogion a ffrindiau am y cardiau a rhoddion a phob caredigrwydd a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref ac hefyd am y cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd ei hŵyr, Dewi Jones, Bethel, tra yn yr ysbyty yn Lerpwl.

DYMUNA Carys W. Williams, Trem Gynfi ddiolch am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn ddeunaw oed. Yr un yw dymuniadau Rhian Williams, Glyn Euron hithau. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu caredigrwydd.

YSGOL TAN-Y-COED

CYNGERDD NADOLIG — Cafwyd cynulleidfaoedd teilwng o rieni a chyfeillion i ddau berfformiad a gyflwynwyd gan blant yr ysgol dros yr Wyl. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

THEATR GWYNEDD — Bu deugain o blant yr Adran lau yn ffurfio rhan o'r gynulleidfa yn y Theatr pan ffilmwyd un o raglenni plant Cwmni Tir Glas ar gyfer S4C.

BABANOD YSGOL TAN-Y-COED YN DATHLU GŴYL Y GENI



TAN Y COED

GOHEBYDD PENTREF — Gan nad oes yr un enw wedi dod i law ar gyfer y swydd uchod hoffwn erfyn ar ysgrifenyddion capeli, eglwys, cymdeithasau, clybiau ac ati i gysylltu â'r Golygydd Newyddion, (Tony Elliot, 3 Bryn Eglwys, Penisarwaun — ffôn: Llanberis 872438). Diolch o galon i'r rhai sydd yn gwneud hyn eisoes.

MERCHED Y WAWR — Nos Fercher, Ionawr 19 dan lywyddiaeth Mrs Hannah Jones cafwyd noson arbennig iawn yng nghwmni Mrs Dorothy Jones, Fron Gader sydd yn gynrychiolydd mudiad Dr Barnardo yng Ngwynedd.

Soniodd am gychwyniad y mudiad yn y ganrif diwethaf a'i waith heddiw gyda phlant dan anfantais. Yna dangosodd ffilm gofiadwy o'r plant a'r oedolion yn un o ysgolion Dr Barnardo a'r gwaith ardderchog sydd yn cael ei wneud yno.

Cafwyd adroddiad o Bwyllgor yr Anabl y rhanbarth gan Miss Mat Pritchard; gwnaed elw sylweddol o £1,200 y llynedd a rhannwyd yr arian rhwng cartrefi'r henoed ac ysgolion arbennig y cylch. Anfonwyd cofion a dymuniadau da yr aelodau at Mrs Margaret Williams a Miss Mair Rowlands.

Rhodddwyd y te gan Miss Pritchard a Mrs Iris Rowlands ac enillwyd y raffl gan Mrs Rowlands.

Yn y cyfarfod nesaf disgwylir Ann Llwyd yno i sgwrsio. Hefyd ar nos lau Chwefror 24 gwahoddir yr aelodau i gangen y Groeslon i glywed darlith gan yr Athro Bedwyr Lewis Jones.

POBL Y CWM — Cyfarfu'r Clwb

ddwywaith yn ystod mis Rhagfyr, ac yn y cyfarfod cyntaf cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mrs Welsby, Brynrefail, ar ei arhosiad am ddau fis yn yr Eidal. Dangosodd sleidiau o wahanol ardaloedd lle bu'n aros. Diolchwyd iddo gan y llywydd. Darparwyd y te gan Mr a Mrs Rowlands, Talafon.

Yn y cyfarfod dilynol rhoddwyd gwahoddiad i'r aelodau gan athrawon yr ysgol i wrando'r plant yn cyflwyno neges y Nadolig, yn cynnwys carolau newydd a darlenniadau o'r ysgrythur. Roedd y perfformiad yn hynod o afaelgar, a diolchwyd iddynt gan y llywydd. Yn dilyn, cymerwyd rhan i ddathlu gŵyl y Nadolig gan yr aelodau, gyda rhaglen wedi ei threfnu gan Mr R.H. Parry, yn cynnwys carolau, darlenniadau o farddoniaeth ac ysgrifau yn ymwneud â'r Wyl. Arweiniwyd y cyfarfod gan Mr Llew Hughes. Cymerwyd rhan gan Mrs A. Hughes, Bryn, Miss E. Hughes, Tanygraig, Mrs Peris Roberts, Penrall, Mrs E. Jones, Seiont House, Mrs E. Hughes, Hyfrydle, Mr a Mrs R. Roberts, Bryn Gro, Mr R.H. Parry. Diolchwyd i bawb gan Mr Hughie Jones. Darparwyd y te gan Mrs Williams, Pantafon a Mrs Roberts, Bryngro.

Drwg gennym glywed am waeledd Mr Evans, Arosfa a Mrs M. Davies, Bryntirion sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor, hefyd Mr Richard Roberts, Bryngro sydd wedi bod dan driniaeth lawfeddygol yn ysbyty Môn ac Arfon, Bangor. Hyderwn y cânt adferiad buan.

CONCWERWYR LLANBERIS



AR WERTH

Morris 1300 — 1970 (H). Corff a pheiriant da, angen is-ffrâm newydd yn y cefn. Cynigion, os gwelwch yn dda. Ffôn: Waunfawr 382 (ar ôl 6 o'r gloch).



Golygfa yn ystod gwasanaeth y "Christingle" yn Eglwys y Santes Helen, Penisarwaun.

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

YR ARDD FEIBLAIDD

Y mae rhai blynyddoedd bellach ers pan fûm ar ymweliad â'r 'Ardd Feiblaidd' neu 'Gardd yr Esgob' ym Mangor. Y mae'r ardd yn gorwedd yn swil megis yng nghysgod yr Eglwys Gadeiriol, Bangor. Gwelair hi unwaith yn ei gogoiant. Ond erbyn hyn y mae fandaliaid wedi gwneud difrod mawr ar yr ardd. Wir mae'r olygfa arni erbyn heddiw yn ddigon i dynnu dagrau o gerrig.

BREUDDWYD WHITEHEAD

Breuddwyd Whitehead oedd cael gardd yn cynnwys yr holl goed a phlanhigion a enwir yn y Beibl.

Dyma'r ysgrifen oedd ar y plât wrth borth yr ardd: "Bible Garden, conceived and planned for your pleasure by Tatham Whitehead in 1962."

Yr oedd rhif, enw a chyfeiriad lle y ceid y planhigyn yn y Beibl wrth ochr pob coeden a phlanhigyn.

Plannwyd y coed yn eu trefn, yn union fel y sonnir amdanynt o Genesis i'r Datguddiad. Mewn gair rhoi pleser i bobl gerdded trwy'r Beibl oedd breuddwyd Whitehead. Bu'r freuddwyd yn ffaith am rai blynyddoedd ond erbyn hyn mae'r difrod yn dristwch.

Nid oedd gardd o'i bath yn Ewrob ac efallai na fu'r un o'i bath yn yr holl fyf.

Wedi cychwyn ymlaen - y goeden gyntaf a nodwyd oedd Pren Gwybodaeth Da a Drwg. Ond nid oedd y goeden yno erbyn hyn dim ond y cerdyn yn dangos lle y bu. Dim ond i chwi arfer eich dychymyg gallech weld yr afal!

Gerllaw yr oedd Coeden Ffigys mewn cyflwr dda iawn, gyda phren y goeden yma meddir y gwnaed Arch Noa. Yn ymyl yr oedd coeden olewydden hynod o dlws. Fel y cofiwyd daeth y golomen â deilen olewydden yn ôl yn ei phig i Noa, a phrofi trwy hynny fod y dilyw wedi cilio.

Yr oedd blodau ar y binwydden gyda'r enw ar y pren 'True Vine'.

Dyma ni'n pasio'r drain lle y daliwyd yr hwrdd yn yr hanes am Abraham yn aberthu Isaac. Fe ddylem weld amryw o'r perlysiâu a anfonwyd gan Jacob i Pharo yn yr Aiff, ond ychydig ohonynt a welwyd. Yr oedd y 'chicory' yn ardderchog. Gwelais bys a ffa y maes yn tyfu'n dda.

Y PENTREF DWYREINIOL

Dyma ni yn dwad rwan at fodel o bentref yng Ngwlad Canaan. Gwelir y pwll dwfr, y ffynnon a'r sedd garreg lle byddai'r merched yn eistedd i aros eu tro i godi dwfr o'r ffynnon i'r anifeiliaid. Plannwyd hesg yno i ddangos ymguddfan crud Moses.

Yn ymyl y mae'r berth oedd yn llosgi ond heb ei difa i gofio Duw yn siarad hefo Moses. Yr oedd planhigyn o Wiail Jacob mewn cyflwr da a blodau melyn tlws arno.

Dangosir coed a phlanhigion yr anialwch ond ychydig ohonynt oedd ar ôl. Gwelais yr enw 'Coeden Manna' ond nid oedd manna i'w weld yn unman. Methais hefyd weld planhigyn o'r fiaren a ddewiswyd yn

Frenin y Goedwig fel y ceir yr hanes yn Llyfr y Barnwyr.

Pan oeddwn yn sefyll o flaen 'Gardd Solomon' daeth gŵr a gwraig o 'Holland' ataf i siarad. Dyma eu henwau, Mr a Mrs Meynderts o Harderwyk. Yr oeddynt wedi clywed am yr ardd gan bobl 'Holland' ac yn awyddus i'w gweld. 'Rwy'n siŵr fod miloedd o bobl Bangor wedi ei phasio heb glywed sôn amdani.

"Wnewch chi ddweud rhywbeth wrthym ni yn Gymraeg?"

"Gwnaf, beth hoffech i mi ddweud?"

"Dweud enw'r pentref hwnnw ym Môn, yr enw hir hwnnw."

Dywedais "Llanfairpwllgwyngyll..." Yr oeddynt wrth eu bodd. Gan fy mod innau wedi bod yn 'Holland' cawsom sgwrs am y gwahanol leoedd yno. Pan ddaw cyfle, mi fydda i'n credu ei bod yn ddyletswydd arnom groesawu dieithriaid ddaw i Gymru o bob rhan o'r byd.

Wedi ffarwelio â'r ymwelwyr euthum yn syth i ran a elwid 'Gardd Solomon'. Gwelais llwyn o flodau tlws Lili'r Dyffrynnoedd. Blodau gwynion hefyd a llwyn o flodau cochion.

Ychydig oedd nifer y 'Solomon Seal'. Dotiais at Glychau Caergaint (Canterbury Bells) - rhai gwyn, pinc a phiws. Dyma'r blodau sydd yn tyfu ar fedd fy mrawd Sydney Lloyd yn naear mynwent, Neuville, Belgium.

Yr oeddwn yn pasio wedyn i ran y Testament Newydd. Roeddwn yn meddwl am blanhigyn o goeden locustiaid Ioan Fedyddiwr, a'r cibau a roddwyd i'r Mab Afradlon. Fe blannwyd efrau yno hefyd.

Yr oedd lili'r maes yno, sef y blodau y dywedodd yr Arlgywydd Iesu amdanynt "Ni wisgwyd Solomon yn ei holl ogoniant fel un o'r rhai hyn."

Gwelais goeden gref ond fechan o gelynen y Nadolig. Yr oedd llwyn o rosod cochion yn dechrau agor - sef yr apothecari.

Ond ni ddwyedais y cwbl o lawer. Gresyn na fuasai rhywun yn mynd ati i ailblannu'r ardd ynte? Yr oedd breuddwyd Whitehead yn un odidog.

TAID I MI FY HUN

Un o ddarllenwyr *Eco'r Wyddfa* gafodd hyd i'r hanes.

"Priodais weddw gan yr hon yr oedd merch wedi tyfu i fyny. Byddai fy nhad yn ymweled a'n cartref yn fynych: syrthiodd mewn cariad â fy merch yng nghyfraith a phriododd hi.

"Felly daeth fy nhaid yn fab yng nghyfraith i mi a fy merch yng nghyfraith yn fam i mi oherwydd ei bod wedi priodi fy nhad. Ymhen amser cafodd fy ngwraig fab, yr oedd yn frawd yng nghyfraith i fy nhad, ac yn ewythr i mi, gan ei fod yn frawd i fy mam yng nghyfraith.

"Cafodd gwraig fy nhad - hynny yw, fy merch yng nghyfraith, fab hefyd; yr oedd ef wrth gwrs yn frawd i mi ac ar yr un pryd yn ŵyr, gan ei fod yn fab i fy merch. Yr oedd fy ngwraig yn nain i mi oherwydd ei bod yn fam i fy mam yng nghyfraith.

"Yr oeddwn yn ŵr i fy ngwraig, ac yn ŵyr yr un pryd, ac fel gŵr person sydd yn nain, yr wyf yn daid i'r

cyfryw, ac yr wyf yn daid i mi fy hunan."

Ymddangosodd yr hanes mewn papur newydd dros gan mlynedd yn ôl.

CALENDER Y FFERMWR

Fel hyn yr arferai'r diweddar Griffith R. Jones, Clwt-y-bont ddwed:

"Y ffeiriau oedd calendr bywyd y ffermwr. Unfed ar ddeg o Fawrth amser hau ceirch. Chweched o Fai, amser troi'r anifeiliaid i'r borfa. Ffair Rhos wythfed ar hugain o Fedi amser codi tatws. Ffair Glangaea amser

rhwymo'r anifeiliaid.

Pan yn gwerthu ceffyl roedd dau beth yn angenrheidiol sef ei fod yn 'quiet in all gears and harness' Os nad oedd o yn dwad i fynyd â'r gofynion yna fe ddeuai'r ceffyl yn ei ôl. Yr oedd oedran y ceffyl yn bwysig wrth gwrs, codi'n bump oedd yr oedran goreu, dyna'r oed y bydd ceffyl yn ei breim."

Y NHW

Hen haid hynod o hwnw, - bost arwyr

Pob stori a thwrw,

Os holir, daliwch sylw

Y bodau "Neb" ydy "Nhw".

AFALLON

BRO'R ECO -

DRWY LYGAID BRIGITTA POL O GRONINGEN, YR ISELDIROEDD

Geneth 19 oed yw Brigitta sydd ar hyn o bryd mewn ysgol uwchradd a sydd â'i phryd ar fynd i brifysgol am chwe mlynedd i ddysgu bod yn dwrnai. Daeth i Benisarwaun am bythefnos dros y Dolig. Ni sylweddolodd pa mor wahanol oedd yr ardal hon o'i chymharu â'r Iseldiroedd-Isalmaen ond y gwahaniaethau hyn a roddodd flas ar ei gwyliau.

Dyma rai o'i sylwadau:

1. Yn gorfforol yr ydym yn bobol fach ond ar yr un pryd yn groesawgar iawn ac yn barod iawn i siarad ac ymgomio â phobol ddiaith.

2. Yr oedd hi wedi dotio at y cloddiau cerrig, y caeau bach a'r ffyrdd troellog.

3. Er ei bod yn beicio'n feunyddiol yn ei chartref yr oedd y gelltydd yma'n drech na hi.

4. Profiad llwyr newydd iddi oedd gweld mynyddoedd, rhaedrau, cestyll fel Dolbadarn, a Nant Gwrtheyrn.

5. Yr hyn â'i synnodd fwyaf mae'n debyg, oedd yr egni yn yr Iaith Gymraeg. Mwynhaodd rai o raglenni S4C yn arw a dywedodd fod yr Isalmaen Iseldiroedd yn dibynnu'n helaeth ar gynnyrch America neu Loegr gydag isdeitlau yn unig yn (Iaith yr Iseldiroedd) Isalmaeneg.

Edmygai ein grwpiau pop Cymraeg am ganu'n Gymraeg; yn anffodus yr oedd y rhan fwyaf o'u grwpiau hwy canu'n Saenseg, arferiad a oedd yn tanseilio eu diwylliant. Ar y llaw arall nid oedd yn gallu amgyffred sut oedd pobol



unieithog yn dal swyddi pwysig heb drafferth dysgu'r ail iaith. Yn ei gwlad hi yr oedd pawb yn gallu siarad tair neu bedair iaith a neb yn grwgnach eu dysgu.

6. Gwelai ymddeol yn haws yn yr Isalmaen nag yma. Mae gweithwyr yno yn gallu ymddeol ar 80 y cant o'u cyflog.

7. Ym myd addysg ceir gwahaniaeth mawr; nid ydynt wedi mabwysiadu ysgolion cyfun. Seilient eu hysgolion uwchradd ar allu. Ceir tair gradd o ysgolion gyda symud cyson o un ysgol i'r llall. Nid oes prydau ysgolion ar gael; â phawb, gan gynnwys yr athrawon, allan i nôl bwyd.

Yn yr arholiad sy'n cyfateb â'n Lefel 'A' ni, gall myfyriwr gynnig wyth o bynciau; pedwar y flwyddyn gyntaf a phedwar yr ail flwyddyn cyn mynd i goleg.

8. Ei sylw olaf oedd, y byddai hi â'i theulu yn dod i'r cyffiniau ar wyliau gan fod y lle mor arbennig ymhob agwedd.

J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU

A THREFNWYR ANGLADDAU

DEINIOLEN

Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)

Y FELINHELI 670124 (Nos)

CYNHADLEDD UNDEB ATHRAWON YN LLANBERIS



Cynhaliwyd cynhadledd sirol Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) yng Ngwesty Victoria, Llanberis, ddydd Sadwrn, Ionawr 29. Yn ystod yr awr ginio anrhegwyd Mr T. Elwyn Pritchard, Edern, Pen Llŷn ar achlysur ei ymdeoliad o'r swydd o Ysgrifennydd Sirol ar ôl blynyddoedd o wasanaeth ffyddlon.

Yn y llun gwelir (o'r chwith i'r dde): Peter Cross (Llywydd Cenedlaethol yr Undeb), William Lloyd Davies (Llywydd y Gymdeithas Sirol), Mr a Mrs T. Emyr Pritchard, Tegid Roberts (Trefnydd y Gynhadledd).

CANMLWYDDIANT EGLWYS (o dudalen 1)

bennaf gyfrifol am fodolaeth yr Eglwys ym Mhenisa'rwaun. Camgymeriad fyddai cymryd hyn yn ganiataol, oherwydd ardalwyr megis: Owen Lewis, Bryn Madog; William Jones, Bryn Tirion; Thomas S. Jarvis, Penisa'rwaun; William Morris, King Arthur's Inn; Robert Ellis, Cae Coch a Thomas M. Williams, Tyddyn 'Rhendre' oedd yn gyfrifol am yr egni a'r brwdfrydedd angenrheidiol. Nodir yn ddiddorol iawn yn nhraethawd David Lewis, fod yr Anrhydeddus Elaenor Pennant wedi rhoi £3 at adeiladu yr Eglwys un bore a thrwy hynny ddod â chyfanswm rhodd ei theulu nodedig i £300. Ystyrir hyn yn haelionus gan David Lewis ond prin y sylweddolai fod y teulu yn gwneud elw o dros £100,000 y flwyddyn yn yr un cyfnod. Chwarae teg, efallai fod yr arian mân a roddwyd i adeiladu ambell i Eglwys wedi bod o fendith i'r ardalwyr a chymorth i gydwybod cyfyngedig Pennantiaid ac Assheton-Smiths y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fel yr eglura David Lewis yn ei draethawd:

"Costiodd i gyd £18,000, ac o'r swm yna cyfrannodd Mr Assheton-Smith tua £800, a chasglwyd y gweddill o'r arian drwy ymdrechion diflino Owen Lewis, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch R. Jones, a bydd yr Eglwys hon yn gofodail o'i lafur mawr."

Efallai mai £1,800 yw'r cyfanswm cywir o'r gost a gafwyd yn ystod yr adeiladu, ond yr un ffordd neu'r llall, mae'r swm a godwyd gan yr ardalwyr yn

sylweddol. Wrth ystyried hyn, mae'n hanfodol ein bod yn ystyried cyflog y chwarelwr a'r amaethwr yn y cylch. Prin byddai cyflog wythnos yn fwy nag ychydig geiniogau i'r mwyafrif o'r ardalwyr yn y cyfnod sydd dan ystyriaeth.

Da o beth fyddai gweld ardalwyr ein hoes ni yn ymrwymo eu hunain yn enaid ac yn gorff i fuddiannau cymdeithasol ac ysbyrdol yr ardal. Mae geiriau olaf David Lewis yn ei draethawd gwerthfawr yn werth eu nodi. Wrth edrych ar gyflwr ysbyrdol yr Eglwys yn ei gyfnod daw i'r casgliad hwn:

"Nid gormod ydyw dweud fod golwg lewyrchus ac addawol ar bob rhan o'r gwaith eglwysig ar hyn o bryd."

Dyma ddarlun o gryfder yr Eglwys ym Mhenisa'rwaun ar dro y ganrif; mae'r sefyllfa heddiw yn gyfan gwbl yn ein dwylo ni.

Er mawr dristwch i ni fel Eglwys, rhaid cofnodi'r ffaith ein bod wedi dioddef colled fawr ar ddechrau blwyddyn y canmlwyddiant, gyda marwolaeth Mr Iorwerth Griffith, Bryn Tirion. Gadewir bwlch mawr yn Eglwys y Santes Helen ar ei ôl, gan ei fod yn ystod ei fywyd, wedi ei bresnoli ei hun ym mhob Gwasanaeth. Estynwn ein cydymdeimlad dwys â'r teulu sydd mewn galar. Hir heddiw i'w enaid.

Un gair bach cyn gorffen y llith hon, nid bwriad yr Eglwys yn ystod y canmlwyddiant yw casglu arian, ond gan fod nifer o deuluoedd wedi mynegi'r teimlad y dylent gyflwyno rhoddion er serchus gof am berthnasau ymadawedig, byddwn yn agor cyfrif 'Cronfa'r Canmlwyddiant'. Os oes unrhyw un

OSCAR YN YR EISTEDDFOD

MAE'N bosibl y daw gwobr 'Oscar' arbennig am berfformiadau gorau'r flwyddyn yn y celfyddydau dramatig yng Nghymru yn un o atyniadau mwyaf yr Eisteddfod Genedlaethol os dilynir syniad newydd, cyffrous ar gyfer Eisteddfod Ynys Môn 1983 gan Eisteddfodau'r dyfodol.

Mewn ymgais arwyddocaol ac amserol iawn i sicrhau fod yr Eisteddfod yn adlewyrchu datblygiadau newydd yn y celfyddydau dramatig yng Nghymru, y mae Pwyllgorau Gwaith a Drama Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn wedi penderfynu sefydlu gwobrau arbennig am berfformiadau gorau'r flwyddyn flaenorol gan actorion ac actoresau ym myd drama, radio, teledu a ffilmiau.

Ond, yn wahanol i wobrau Hollywood, dyfernir y gwobrau Cymreig drwy gyfnewid syniadau rhwng cynrychiolwyr y cyfryngau ac aelodau'r cyhoedd.

Cyhoeddwyd yr her newydd hon i'r celfyddydau dramatig yng Nghymru yn ddiweddar gan yr Eisteddfod i gyd-fynd â dechrau S4C. Yn ddelfrydol, bydd y wobwr yn symbyliad i'r gwasanaeth newydd ac hefyd i'r Eisteddfod ac fe'i rhennir yn bum dosbarth - y cynhyrchiad gorau mewn unrhyw un o'r cyfryngau uchod, yr actor gorau a'r actores orau ac, yn arwyddocaol ar gyfer y dyfodol, yr actor a'r actores mwyaf addawol.

Gofynnir i'r cyfryngau yng Nghymru awgrymu enwau ym mhob un o'r dosbarthiadau hyn. Penderfynir ar y dewis terfynol gan banel (i'w ddewis y mis nesaf) o arbenigwyr enwog ac aelodau o'r cyhoedd.

Er y bydd cyfnod y beirniadu yn dechrau ar Ionawr 1, 1983 ac yna yn para hyd ddiwedd Gorffennaf, y mae Pwyllgorau Ynys Môn yn

teimlo fel cyflwyno rhodd i'r Eglwys yn ystod y flwyddyn, da chi, dewch mewn cysylltiad â ni. Gellir eu cyflwyno naill ai i mi, neu i un o'r Wardeiniaid, sef Mrs Mary Davies, 9 Llys y Gwynt a Mr Tegid Roberts, Arwel. Byddwn yn wir ddiolchgar am unrhyw rodd a fyddai'n hyrwyddo gwaith Crist yn yr ardal.

Cyhoeddir manylion pellach am weithgareddau'r canmlwyddiant, gyda chaniatâd Golygydd yr Eco, mewn rhifynnau eraill yn ystod y flwyddyn. Eglwyswyr yr ardal, cofiwch am y gwasanaeth ym mis Chwefror.

Y Parchedig Aled Edwards B.A., Ficer Penisa'rwaun.

ddoeth iawn wedi dweud y dylid ystyried perfformiadau'r misoedd diwethaf hefyd. Er nad yw'r Pwyllgorau wedi penderfynu eto ar sut yn union i rannu'r gwahanol wobrau mae'n debyg y rhoddir gwobr ym mhob un o'r dosbarthiadau uchod a'r 'Oscar' Cymreig i'r perfformiad neu'r perfformiwr gorau oll.

Y gobaith yw y bydd trefnwyr Eisteddfod Genedlaethol Llanbedr Pont Steffan 1983 yn penderfynu dilyn esiampl Ynys Môn fel y bydd y wobwr bwysig hon yn ddylanwad parhaol ar y celfyddydau dramatig yng Nghymru mewn cyfnod pwysig yn natblygiad y cyfryngau gweledol. Yn y cyfamser, y mae'r Eisteddfod yn chwilio am syniadau am enw deniadol i'r gystadleuaeth.

Am ragor o fanylion cysyllter â Mr J.O. Roberts, Cadeirydd Y Pwyllgor Drama. Rhif Ffôn: Benllech 852564.

O BANTRI BETH



DWY DORTH HAWDD

BARA BRITH BARRACH

- 1 pwys o flawd codi
- 2 wy
- 2 owns margarin
- hanner peint o lefrith
- 1 llond cwpan o siwgr
- 1 llond llwy fwrdd o driog
- pinshiad o halen
- 12 owns o ffrwyth cymysg

Toddi'r margarin a'r triog yn y llefrith (ddim rhy boeth). Cymysgu'r cwbl efo'i gilydd yn dda a'i roi mewn tu crasu mewn popty cymedrol am awr a hanner ar nwy tri-chwarter.

TEISEN DORTH GWENDA

- 1. 4 owns margarin
- 1 cwpaned o lefrith
- 1 cwpaned o siwgr
- 2 gwpaned o ffrwyth cymysg
- 2. 2 gwpaned o flawd codi
- 1 wy wedi ei guro
- 1 llond llwy de o sbeis

Rhowch 1. mewn sosban a'i godi i'r berw. Trowch y gwres i lawr a'i fudferwi am 5 munud. Ar ôl iddo oeri tipyn ychwanegwch 2.

Pobwch mewn popty cymedrol Nwy tri-chwarter am awr a hanner.

Wavell Roberts CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FROI

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

W.J.GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP



Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical Services
Contractors.


Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.

E.W.Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

CROESAIR CHWEFROR



Ar Draws

1. ... y gogledd, neu'r de (5)
2. Gwaith (5)
3. Dechrau tyfu yn y gegin orau? (5)
4. "... lle bu mawredd" (5)
5. Gair drwg am rhywun (5)
6. Pleserus (5)
7. Ffordd (3)
8. Nodyn ychwanegol (2)
9. Oherwydd (7)
10. Diwrnod (3)
11. Nic yn troi i sgwennu (3)
12. Mae ei gred mewn un (7)
13. Dyn o G'narfon! (2)
14. Etifedd (3)
15. Ethol (5)
16. Trowch y gwas i wneud gwin ag o (5)
17. Defnydd dannedd yr eliffant (5)
18. Mae o'n ymaelodi (5)
19. Bodlon (5)

I Lawr

1. Llyfryn bychan (7)

2. Llywodraethu (8)
3. Sboncio (6)
4. Ydi'r Diafol yn gwneud camgymeriadau?
5. Gwallgof (6)
6. Bachgen swil yn ôl y gân, ond deryn serch hynny! (5)
7. Ardal (3)
8. Acer (3)
9. Bangor a Chaerdydd, er enghraifft (8)
10. Clytiog (7)
11. Gonest (6)
12. Talentog (6)
13. Brodor o'r Undeb Sofietaidd (6)
14. Codwm (5)

Un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th.
Anfonwch eich cynigion i Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug.
Bydd gwobr o £2 i'r ateb cywir cyntaf i'w dynnu.

Dyddiadur y Mis

Mercher, 2 - LLANRUG - Y Cyngor Eglwys - Seiat dan arweiniad Mrs Morfudd Jones, Llangefni yng Nghapel Mawr
lau, 3 - DINORWIG - Y Gymdeithas - Ffilmiau ar Norwy gan Mrs M. Ellingsen, Bethesda, yn y Ganolfan am 7.00
WAUNFAWR - Sefydliad y Merched - Gwraig Wadd fydd Mrs Ann Griffith o Swyddfa Cyngor y Dinesydd
Gwener, 4 - LLANBERIS - Te yr Henoed
YR ARDAL - Ffug Eisteddfod Bro yr Eco yn Neuadd Ysgol Brynrefail, Llanrug
Llun, 7 - DEINIOLEN - Sefydliad y Merched - Sgwrs gan Mr Emrys Evans, Llanrug
LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30
Mawrth, 8 - LLANRUG - Merched y Wawr - Sgyrsiau ar y pwnc "Yn Fy Meddiant I"
lau, 10 - LLANRUG - Cymdeithas Lenyddol Capel Mawr - "Eisteddfod Ffug"
Gwener, 11 - BETHEL - Noson Goffi yn y Neuadd am 6.30 pryd y dewisir Brenhines Carnifal Bethel 1983 a'i gosgordd
Llun, 14 - LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30
YR ARDAL - Yr ysgolion ar gau am Hanner Tymor
Mawrth, 15 - LLANRUG - Y Gymdeithas Undebol - ymweliad Cymdeithas Waunfawr
WAUNFAWR - Clwb y Bont yng Ngwesty'r Foelas am 8.15. Noson yng nghwmni Mr I.B. Griffith
YR ARDAL - Yr ysgolion ar gau am Hanner Tymor
Mercher, 16 - DEINIOLEN - Gyrfa

Chwist yn y Ganolfan am 7.30
CWM Y GLO - Merched y Wawr - Noson yng nghwmni Mrs Ann Llwyd lau, 17 - DINORWIG - Y Gymdeithas - Noson yng ngofal Miss Cathrin Lloyd Williams, Porthaethwy. Yn y Ganolfan am 7.00
BETHEL - Sefydliad y Merched

Gwener, 18 - LLANBERIS - Te yr Henoed. Noson o 'Gawl a Chân' yn yr Erw Fair dan nawdd y Cwmni Drama Llun, 21 - DEINIOLEN - Merched y Wawr - Gŵr gwadd fydd Mr Gwyn Parry B.A.

LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan
lau, 24 - LLANBERIS - Sefydliad y Merched
25 Gwener - LLANRUG - Cymdeithas Lenyddol Capel Mawr - "Gŵyl Ddewi". Noson yng ngofal Parti Carmel
WAUNFAWR - Noson Gŵyl Ddewi yr Ysgol Feithrin yng Ngwesty'r Gwynedd, Llanberis

DYDDIADAU I'W COFIO

Mawrth 1 - Cymdeithas Undebol Llanrug yn dathlu Gŵyl Ddewi yng Ngwesty'r Gwynedd, Llanberis
Mawrth 8 - Merched y Wawr, Llanrug yn dathlu Gŵyl Ddewi yng Ngwesty'r Foelas
Mawrth 9, 16, 23, 30 - Dosbarth nos Addysg y Gweithwyr. 4 Darlith ar "Hanes y Chwareli" gan Mr Ted Williams, Bangor yng Nghanolfan Dinorwig am 7 o'r gloch

Mwy o newyddion CEUNANT

NEWID CARTREF - Dymunwn bob dedwyddwch a hapusrwydd yn ei chartref newydd newydd yn Waunfawr i Miss Mary Pierce.

LLONGYFARCHIADAU i Gwenno Parri, Morwel, ar lwyddo gyda theilyngdod yn Arholiad Piano Gradd 4. Mae Gwenno yn ddisgybl i Miss C. Williams, Llanberis.

EISTEDDFOD GADEIRIOL DYFFRYN CONWY LLANRWST MEHEFIN 1983 Cynhelir CYSTADLEUAETH NOSON LAWEN

Nos Wener, Mehefin 17 1983

Ym Mhabell yr Eisteddfod uchod am 7 o'r gloch

BEIRNIAD - Mr Morien Phillips, Bangor

GWOBRAU - £100, £75, £50, £25

Ceir manylion gan yr Ysgrifennydd: Mr D. Jones, Gwylfa, Poplar Grove, Llanrwst (Ffôn: 640879)

Hefyd cofiwch am

EISTEDDFOD GADEIRIOL DYFFRYN CONWY, LLANRWST Dydd Sadwrn, Mehefin 18, 1983

BARDDONIAETH

CERDD, GAETH NEU RYDD MEWN MYDR AC ODL
(heb fod dros 120 o linellau) TESTUN: "Hydref"

ENGLYN: "Castell" ENGLYN YSGAFN: "Garddio"

TELYNEG: "Carreg Aelwyd" SONED: "Y Nos"

CHWE THIRIBAN CYFOES

RHYDDIAITH

STORI FER: Agored YSGRIF: "Y Machlud"

Cyfansoddiadau i fod yn llaw yr Ysgrifennydd erbyn Mai 7 1983. Ceir manylion gan yr Ysgrifennydd Mr D. Williams, Llys Owain, Llanrwst, Ffôn 640805

Wrth droed yr Wyddfa . . .



BWYTY FFERM BRON ERYRI LLANBERIS Ffôn 870391

Perchnogion: Mr a Mrs AW Hughes

CHWARAEON

LLWCH

Atgofion Goronwy Owen am farcio caeau Ysgol Brynrefail

YDY hogiau'r ysgol yn dal i farcio cae pêl-droed cyn gêm yn Llanrug fel y gwnaem ni ym Mrynrefail? Doedd dim dewis yn y tridegau. Ni oedd yn gwneud y cyfan. Ar fore dydd Gwener ar ddechrau tymor, byddai Jones Cem yn gafael mewn pedwar ohonom, ac yn rhoi dau sach anferth i ni – credaf mai sachau gwlan oeddynt yn wreiddiol – roeddynt yn anhygoel o faint.

"Dyma'r arian i dalu'r bws. Ffwrdd â chi, a pheidiwch a bod yn hwyr."

Doedd dim peryg i ni fod yn hir, roeddem i gyd eisiau bod yn ôl erbyn amser cinio. Mae rhai pethau bob amser yn bwysig i hogiau ysgol, a bydd ydy un ohonynt.

Brysio i Benllyn a dal Crosville hanner gwag. Pryfycio'n gilydd ar sêl ôl y bws, ac os oedd Now Bach Aston yn goductor, cael mwynhad ei ffraethineb bywiog.

"Ble da'ch chi'n mynd bois, chwarae triwant?"

"Na, mynd i nôl llwch lli."

"O! y cŵc yn fyr o reis i 'neud pwdin?"

"Ie, oes siawns am dipyn o dyllau ticedi i roi ynddo yn lle cyrrans?"

"Faint fynnoch chi, mae digon ar y llawr."

Cyrraedd Stesion Wyddfa a'i throi hi am Bont Bala. Aros ar Bont Fain i edrych ar y brithilliaid yn y dŵr clir a redai o dani. Yna, i mewn i Gilfach Ddu ac yn syth i siop y saer. Na, doedd neb yn meddwl gofyn caniatad yr Offis Fawr. Roedden ni a'r chwarel yn un teulu, a bechgyn y pentre yn hen gyfarwydd â'r lle.

Yma 'roedd tîm Llanbêr yn cael llwch lli, ac hyd y gwn i, roedd sach neu ddau ar drên bach y chwarel yn mynd i Bontrhythallt hefyd, i dîm Llanrug.

"Gwthio'n ffordd i fewn drwy'r hen ddrysau pren oedd yn wyn gan lwch y llech.

"Nefoedd fawr hogia – isio job 'dach chi?"

Roedden ni wedi hen arfer hefo'r gellwair ac yn derbyn y cyfan yn siriol. "Pedwar o lafna tebol Wil. Allan nhw ganlyn wagan?"

"Na, dydy'r siâp iawn ddim arnyn nhw. Sbia, maen nhw rhy bedrwm a dim hanner digon tindrwm. Falla y byddia nhw yn gneud yn iawn yn awyr tena y Giarrat, ond yn dda i ddim yn yr 'ozone' ar lan y llyn."

"Bit ... mae isio tipyn o 'frains', i daflu llechi i'r dŵr. Be dach chi isio hogia?"

"Allan ni gael dau sachad o lwch lli?"

"Plis."

"Os gwelwch chi'n dda."

"Oes gynnoch chi arian i dalu amdano? Mae o wedi mynd i fyny i dair ceiniog y sach. Mae o fel aur ac fe ddylem ni godi 'chwaneg am sachau mor fawr â'r rhain."

Tra roedd hyn yn mynd ymlaen, byddai un o'r dynion yn symud y bwrdd llifio coed i ben pella'r pwll, i ddangos y grisiau oedd yn mynd i lawr.

"Dyma'r rhaw, pa ddau glown sy'n mynd lawr gynta?"

Yn bâr a phâr aem i lawr i'r pwll a llenwi'r sachau. Gwenai'r dynion wrth ein gweld yn araf droi'n felyn, oherwydd byddai'r llwch lli ysgafn yn codi i bob man, wrth i ni ei gynhyrfu hefo'n traed a'r rhaw. Cael

y sachau allan o'r pwll oedd y gwaith caletaf, ond chwarae teg i'r seiri, gofalent nad oeddem yn gorlenwi, ac roeddynt yn ddigon parod hefo'u cymorth.

Dod i'r wyneb a thrio brwsio'r stwff blinedig o'n gwalltau, ein llygaid a'n clustiau. Yna, dechrau cario'r ddau sach llawn yn ôl dros Bont Bala, a theimlo pob gronnyn bach yn glynu yn y chwys lawr ein cefnau. Gwyddwn yn iawn sut groeso gawn i gan mam ar ôl mynd gartre, a byddai bath poeth yn angenrhaidd. Cyrraedd Stesion Wyddfa ... gollwng y sachau yn ddiolchgar ar y pafin, ac eistedd ar ganllaw'r bont i aros y bws o'r Nant.

"Bwm, bwm bwm di bwm. Tra ti ta ti ta ti ta."

Na nid band y pentre, ond Owen Evans, Postman, arweinydd band Llanberis yn dod rownd y gornel, wedi ymgolli mewn rhyw ddarn o fwsig. Tarodd un o'r sachau yn ddamweiniol hefo'i ffon, a rhedodd tipyn o'r llwch lli allan ar y ffordd.

"Bobol mawr hogia, lle 'da'ch chi wedi bod? Yn y Sahara?"

"Na, Mr Evans, nôl llwch lli."

"O! o'n i'n dechrau dyfalu bod nhw'n cadw camelod yn Brynrefail 'na."


A ffwrdd â fo yn hwmian iddo'i hun. Tynnodd fy mab fy sylw at rywbeth od yn America. Ni chlywech chi neb byth yn chwibanu na hwmian wrth gerdded ar y ffordd. Os y byddwn i yn mynd a fy wyres fach ddwyflwydd oed am dro, a'r ddau ohonom yn canu'n ysgafn gyda'n gilydd, gwenai'r bobl, a throi i edrych arnom. Yn amlwg roeddent yn cael pleser wrth ein gweld a'n clywed, ond, na, 'doedd neb yn dilyn ein hesiampl. I mi, mae canu a hwmian wrth weithio yn rhan hanfodol o ddiwylliant gwerin, a diolch am bobl fel Owen Evans. Mae pobl ifanc wedi bod yn cario setiau radio bach o gwmpas y lle ers talwm, ond yn ddiweddar gwelair un neu ddau yn cerdded heibio gan gario 'stereo tape recorders' mawr yn eu llaw. Wel mae hi bron yn 1984.

Daeth y bws. Rhoi'r sachau orau gallem dan y grisiau, ar y stepan, a llenwi sêl flaen y llofft. Tipyn yn ddistawach, mwynhaem yr olygfa at Fachwen a sylwi nad oedd 'run ohonom wedi dringo'r ceiliog ar y pigyn.

Dadlwytho ym Mhenllyn, a mynd ati i gario'r ddau sach drwy'r pentre bach, a'r ddau yn ymddangos yn llawer trymach nawr, i'r pafiliwn yng nghae'r ysgol, cyn cael cinio.

Bore wedyn, neidio ar y beic a mynd i Frynrefail i farcio'r cae cyn gêm y prynhawn. Dod â'r rhwydi a'r pyst allan, a'u gosod yn ofalus. Adre am ginio, ac yna dychwelyd i wisgo'r crysau coch a gwyrdd yn y prynhawn yn erbyn un o'r ysgolion cyfagos.

Fe hoffwn i ailfyw y cwblw eto.



PIGION DECHRAU'R FLWYDDYN

DECHRAU Blwyddyn Newydd, ond canol tymor i hogia'r bêl-droed. Er hynny, mae lle i gynig Blwyddyn Newydd Dda i chwi i gyd – yn chwaraewyr, mabolgampwyr, trefnwyr, dyfarnwyr a chefnogwyr. I ambell un gobeithio y bydd 1983 yn flwyddyn newydd well; yn enwedig i'r rhai canlynol:

(a) y dyfarnwr druan a anghofiodd reolau'r gêm yn Llanrug yn ddiweddar a dyfarnu mai cic gôl-nage- cic-rydd – a ddylai ddilyn cam-sefyll wrth gicio penalti. Gobeithio hefyd y daw Siôn Corn â wats newydd iddo y tro nesaf, gan iddo chwarae chwarter awr ychwanegol am resymau dirgel i bawb ond ef ei hun.

(b) tîm pêl-droed Bethel sy'n debygol o ddiweddu'r tymor hwn eto yn yr un safle truenus â'r llynedd os na wnaiff Talysarn ffafr â hwy – ond o bosibl y bydd y tymor wedi diweddu cyn Dydd Ewyllys Da.

(c) tîm pêl-droed Llanrug sy'n brysur yn torri pob record ynglŷn â throsglwyddo chwaraewyr – ac nid record ariannol fydd hi 'chwaith. Hyd yma, trosglwyddwyd wyth o chwaraewyr i Lanrug, a deuddeg oddi yno, gan gynnwys rhai o'r wythawd cyntaf!

(ch) holl loncwyr yr ardal. Mae eu nifer yn cynyddu'n ddyddiol debygwn i, ond y syndod yw nad oes rhai ohonynt wedi eu taro gan gerbydau wrth loncian yn y nos mewn dillad tywyll. Da chwi, gwisgwch wasgod olau ac efallai y cewch fyw'n ddianaf i redeg eich ras gyntaf yn hytrach na gorfod ei heglu hi oddi ar ffordd cerbyd (neu fethu)!

Ar y llaw arall, mae rhai'n haeddu ein llongyfarchion, a gobeithio y bydd eu llwyddiant yn parhau ymhell i'r flwyddyn newydd. Dyma rai ohonynt:

(a) timau pêl-droed Llanberis a Llanrug ar gyrraedd pedwaredd rownd Cwpan Iau Gogledd Cymru.

Maeddwyd gwrthwynebwyr Llanberis ar gae'r 'Darans', a thipyn o sioc oedd gweld Llanrug yn dod yn ôl o Lanelwy ar ôl curo tîm Pilkingtons. Pob lwc iddynt yn y rowndiau nesaf.

(b) aelodau Clwb Rhedwyr Eryri am ddangos pâr o sodlau i oreuon Gogledd Cymru yn Rasus Traws Gwlad y Gogledd yn ystod misoedd y gaeaf. Dewiswyd amryw o'r aelodau i gynrychioli Gogledd Cymru mewn cystadlaethau cenedlaethol yn y dyfodol, a gobeithiwn ddod â hanes rhai ohonynt i'ch sylw yn ystod y misoedd nesaf.

A pha obeithion eraill sydd i 1983? Tybed a welir Cymro yn ennill Ras yr Wyddfa? A oes Guto Nyth Brân arall yn llechu yn Nyffryn Peris?

A welir ffurfio Cynghair Pêl-droed Gwynedd? Bu digon o sôn amdani yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond siarad gwag fu'r rhan fwyaf ohono. Bellach, ailgydiwyd yn y syniad, a bydd trafodaethau a phwyllgorau'n cael eu cynnal yn ystod y misoedd nesaf i geisio ailgodi'r posibilrwydd. Ac os ffurfir Cynghair Gwynedd, a fydd timau'r ardal yn barod i ymuno â hi? Anfodlon iawn oedd Llanberis a Llanrug y tro diwethaf, ac nid oedd clwb Bethel wedi ei ffurfio'r bryd hynny. Ai'r un fydd eu hymateb y tro hwn? Mae llawer yn dibynnu ar reolaeth a threfniant y Gynghair.

Mae si ar led hefyd y gwelir tîm pêl-droed newydd yn yr ardal erbyn dechrau'r tymor nesaf. Siarad ynteu sylwedd sydd o'r tu ôl i'r si, Ddeiniolen?